



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales
(The Official Record)**

Dydd Mawrth 14 Medi 1999

Tuesday 14 September 1999

Cynnwys Contents

- | | |
|----|---|
| 3 | Datganiadau gan y Llywydd
<i>Statements by the Presiding Officer</i> |
| 3 | Ethol i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd
<i>Election to the Committee on European Affairs</i> |
| 4 | Ethol i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
<i>Election to the Health and Social Services Committee</i> |
| 4 | Ethol i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd
<i>Election to the Committee on European Affairs</i> |
| 4 | Ethol i Bwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol
<i>Election to the Environment and Local Government Committee</i> |
| 5 | Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd
<i>Questions to the First Secretary</i> |
| 14 | Cwestiwn Brys: Colli Swyddi yn Ffatrioedd Bairdwear
<i>Emergency Question: Job Losses in Bairdwear Factories</i> |
| 17 | Datganiad ar Fuddsoddwyr mewn Pobl
<i>Statement on Investors in People</i> |
| 19 | Datganiad Busnes
<i>Business Statement</i> |
| 20 | Dadl Frys: Yr Argyfwng mewn Amaethyddiaeth
<i>Emergency Debate: The Crisis in Agriculture</i> |
| 47 | Y Cynllun Datblygu Cynaliadwy
<i>The Sustainable Development Scheme</i> |
| 75 | Dadl Fer: Gweithredu Cynllun Iawndal ar gyfer Glowyr
<i>Short Debate: Implementation of a Compensation Scheme for Miners</i> |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 2.00 p.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.
The Assembly met at 2.00 p.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

Datganiadau gan y Llywydd Statements by the Presiding Officer

Y Llywydd: Hoffwn dynnu sylw Aelodau at y ffaith fod gennyf bellach ar fy nesg sgrîn gyffwrdd fy hun sydd union yr un peth â'ch rhai chi, ac felly pan edrychaf i'r chwith byddaf yn edrych ar y sgrîn. Mae modd cysylltu â mi drwy gyfrwng e-bost yn y Siambr a'm cyfeiriad yw sedd rhif 1.

The Presiding Officer: I draw Members' attention to the fact that I now have on my desk a touch screen identical to theirs, so when I look to my left, I will be looking at the screen. It is now possible to contact me by e-mail and my address in the Chamber is seat no. 1.

Un mater pellach: awgrymir yn glir yn Rheol Sefydlog Rhif 6.34 bod cwestiynau ysgrifenedig i'w hateb o fewn pum niwrnod. Oherwydd y nifer fawr o gwestiynau a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gyflwyno ar y diwrnod cyntaf inni agor ar ôl yr haf, gobeithiaf y byddwch yn deall os bydd yn cymryd ychydig yn fwy o amser i'w hateb i gyd.

One further matter: it is clearly implied in Standing Order No. 6.34 that written questions will be answered within five days. In view of the large number of questions received by the Table Office on our first day back after the summer recess, I hope you will understand if it takes slightly longer to answer them all.

Christine Humphreys: Pwynt o drefn. Nid yw offer cyfieithu y cyhoedd yn gweithio.

Christine Humphreys: Point of order. The public's translation equipment is not working.

Y Llywydd: A gaf i gadarnhad fod hyn yn gywir? Mae'r offer yn gweithio yn y Siambr. Fe gymerwn egwyl fer, felly, nes imi gael arwydd bod yr offer cyfieithu yn gweithio i'r cyhoedd.

The Presiding Officer: May I have confirmation that this is correct? The translation equipment is working in the Chamber. We will, therefore, take a short break until I receive an indication that the translation equipment is working for the public.

Yr wyf wedi cael cadarnhad yn awr fod yr offer cyfieithu yn gweithio yn y Siambr, yr Oriel Gyhoeddus ac Oriel y Wasg. Os nad yw pobl yn gallu deall drwy gyfieithiad yr hyn a ddywedwn, byddwn allan o drefn.

I have now received confirmation that the translation equipment is working in the Chamber, the Public Gallery and the Press Gallery. If people cannot understand what we say through translation, we will not be in order.

Ethol i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd Election to the Committee on European Affairs

The Business Secretary (Andrew Davies): I congratulate Nick Bourne on his election as leader of the Welsh Conservative Party. Due to circumstances beyond my control and through necessity I have been asked to change the Conservative Party membership of Committees.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Llongyfarchaf Nick Bourne ar ei ethol yn arweinydd Plaid Geidwadol Cymru. Oherwydd amgylchiadau sydd y tu hwnt i'm rheolaeth ac oherwydd angenrheidrwydd gofynnwyd imi newid aelodaeth y Blaid Geidwadol ar Bwyllgorau.

I therefore propose that

the Assembly, in accordance with Standing Orders Nos. 8.3 and 15.4 elects Nick Bourne to its Committee on European Affairs in place of Rod Richards.

*A vote was held by show of hands.
Motion adopted.*

Yr wyf felly'n cynnig bod

y Cynulliad, yn unol â Rheolau Sefydlog Rhifau 8.3 a 15.4 yn ethol Nick Bourne i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn lle Rod Richards.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.*

Ethol i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Election to the Health and Social Services Committee

Andrew Davies: I propose that

the Assembly, acting in accordance with section 57(8) of the Government of Wales Act 1998 and Standing Order No. 8.3 elects Peter Rogers to its Health and Social Services Committee in place of Nick Bourne.

*A vote was held by show of hands.
Motion adopted.*

Andrew Davies: Cynigiaf fod

y Cynulliad, gan weithredu'n unol ag adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog Rhif 8.3 yn ethol Peter Rogers i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn lle Nick Bourne.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.*

Ethol i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd Election to the Committee on European Affairs

Andrew Davies: I propose that

the Assembly, acting in accordance with section 57(8) of the Government of Wales Act 1998 and Standing Orders Nos. 8.3 and 15.4 elects Jonathan Morgan to its Committee on European Affairs in place of William Graham.

*A vote was held by show of hands.
Motion adopted.*

Andrew Davies: Cynigiaf fod

y Cynulliad, gan weithredu'n unol ag adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheolau Sefydlog Rhifau 8.3 a 15.4 yn ethol Jonathan Morgan i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn lle William Graham.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.*

Ethol i Bwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol Election to the Environment and Local Government Committee

Andrew Davies: I propose that

the Assembly, acting in accordance with section 57(8) of the Government of Wales Act 1998 and Standing Order No. 8.3 elects David Davies to its Environment and Local Government Committee in place of Peter Rogers.

*A vote was held by show of hands.
Motion adopted.*

Andrew Davies: Cynigiaf fod

y Cynulliad, gan weithredu'n unol ag adran 57(8) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog Rhif 8.3 yn ethol David Davies i Bwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol yn lle Peter Rogers.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.*

Andrew Davies: We will deal with the election of the Conservative Member to the Business Committee tomorrow.

Andrew Davies: Ymdriniwn ag ethol yr Aelod Ceidwadol i'r Pwyllgor Busnes yfory.

The Presiding Officer: Before I call the First Secretary, I welcome the Under Secretary of State for Wales, David Hanson, to our proceedings.

Y Llywydd: Cyn imi alw ar y Prif Ysgrifennydd, croesawaf Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru, David Hanson, i'r cyfarfod.

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Cadeiryddion sydd yn Fenywod) Assembly Sponsored Public Bodies (Female Chairs)

Q1 Alison Halford: How many Assembly sponsored public bodies have female chairs? (OAQ813JS)

C1 Alison Halford: Sawl un o'r cyrff a noddir gan y Cynulliad sydd â menywod yn gadeiryddion arnynt? (OAQ813JS)

The First Secretary: Only one woman, whom I appointed earlier this year, chairs an Assembly sponsored public body. That is one of many serious faults in the system we inherited. I hope I will have the Assembly's support in changing the system and its outcomes for the better.

Y Prif Ysgrifennydd: Dim ond un fenyw, a benodwyd gennyf yn gynharach eleni, sydd yn gadeirydd ar gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Dyna un o'r nifer fawr o ddiffygion difrifol yn y system a etifeddiwyd gennym. Gobeithiaf y caf gefnogaeth y Cynulliad wrth newid y system a'i chanlyniadau er gwell.

Alison Halford: Building upon Welsh Labour's commitment to equality, of which the Assembly is the finest example, will the First Secretary outline his firm proposals for rapidly improving the number of senior women in Assembly sponsored bodies?

Alison Halford: Gan adeiladu ar ymrwymiad Llafur Cymru i gydraddoldeb, a'r Cynulliad yn enghraifft orau o hynny, a yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon amlinellu ei gynigion pendant i wella'n gyflym y nifer o fenywod uwch eu safle mewn cyrff a noddir gan y Cynulliad?

The First Secretary: First, in terms of women in public appointments, we inherited a situation in 1997 where only 26 per cent of public appointments were held by women. That figure is now 31 per cent. Therefore, there has been an improvement. That is a necessary precursor to allow people to come through public service into top appointments. We want to encourage a wider range of people to apply for public appointments. Only when that happens will we have the opportunity to appoint them.

Y Prif Ysgrifennydd: Yn gyntaf, o ran menywod mewn penodiadau cyhoeddus, bu inni etifeddu sefyllfa yn 1997 lle nad oedd ond 26 y cant o'r penodiadau cyhoeddus wedi eu dal gan fenywod. Mae'r ffigur hwnnw bellach yn 31 y cant. Felly, bu gwelliant. Mae hynny'n rhagarweiniad angenrheidiol er mwyn gadael i bobl ddod drwy wasanaeth cyhoeddus i'r penodiadau uchaf. Yr ydym am annog amrediad ehangach o bobl i ymgeisio am benodiadau cyhoeddus. Dim ond pan ddigwydd hynny y cawn gyfle i'w penodi.

Secondly, we need to help people to move up through the system. We need to help people who, for example, have worked in

Yn ail, mae angen inni helpu pobl i symud i fyny drwy'r system. Mae angen inni helpu pobl sydd, er enghraifft, wedi gweithio mewn

community health councils to have the training and experience necessary to move up to more senior jobs. That would ensure that we do not just draw from a narrow cross-section of society.

Thirdly, the Assembly has agreed to a public appointments system that involves Committee members of all parties in the appointment process. I am sure that this more transparent form of appointment and Members' commitment to equality across the Assembly will help take things forward.

These things cannot be done overnight. However, many public appointments fall due next year. This is partly because, as Secretary of State for Wales, I extended several appointments by a year to allow the Assembly to look at them. I hope the Assembly can make rapid progress on this issue.

Jocelyn Davies: When will the people of Wales get the bonfire of the quangos they were promised before the referendum?

The First Secretary: Those who have been following public life in Wales will know the extent to which we have gone down precisely that road. Public bodies such as Tai Cymru have been removed and, in relation to economic development, three public bodies have been cut to one. The Cardiff Bay Development Corporation will be wound up in a few months' time. These matters cannot be dealt with instantaneously. However, we have a fine record of taking immediate steps after coming into government in 1997. As the Assembly takes up its work and becomes an authoritative and practical body that process will continue. People will always need to be involved in a variety of decision-making processes. It is proper that we should seek a wide representation of people from different backgrounds. Equality of representation and equality of treatment are two of the main principles on which we have established the Assembly.

cynghorau iechyd cymdeithas i gael yr hyfforddiant a'r profiad sydd yn angenrheidiol i symud i swyddi uwch. Byddai hynny'n sicrhau na fyddwn ond yn denu rhai o groestoriad cyfyng o'r gymdeithas.

Yn drydydd, mae'r Cynulliad wedi cytuno ar system penodiadau cyhoeddus sydd yn cynnwys aelodau Pwyllgor o'r holl bleidiau yn y broses benodi. Yr wyf yn sicr y bydd y dull penodi tryloywach hwn ac ymrwymiad yr Aelodau i gydraddoldeb ar draws y Cynulliad yn gymorth i fynd â phethau yn eu blaen.

Ni ellir cyflawni'r pethau hyn dros nos. Fodd bynnag, daw'n bryd llenwi llawer o benodiadau cyhoeddus y flwyddyn nesaf. Mae hyn yn rhannol oherwydd i mi, fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ymestyn cyfnod sawl penodiad o flwyddyn fel y gallai'r Cynulliad eu hystyried. Gobeithiaf y gall y Cynulliad symud ymlaen yn gyflym ar y mater hwn.

Jocelyn Davies: Pa bryd y caiff pobl Cymru y goelcerth o gwangos a addawyd iddynt cyn y refferendwm?

Y Prif Ysgrifennydd: Gŵyr y rhai a fu'n dilyn bywyd cyhoeddus yng Nghymru am yr graddau yr ydym eisoes wedi dilyn yr union lwybr hwnnw. Mae cyrff cyhoeddus fel Tai Cymru wedi eu dileu ac, mewn perthynas â datblygu economaidd, lleihawyd nifer y cyrff cyhoeddus o dri i un. Caiff Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd ei dirwyn i ben ymhen ychydig fisoedd. Ni ellir delio â'r materion hyn yn syth. Fodd bynnag, mae gennym record ardderchog am gymryd camau ar unwaith wedi inni ddod i rym yn 1997. Wrth i'r Cynulliad ymgymryd â'i waith a dod yn gorff awdurdodol ac ymarferol bydd y broses honno'n parhau. Bydd angen bob amser gynnwys pobl mewn amrywiaeth o brosesau penderfynu. Mae'n briodol inni geisio sicrhau cynrychiolaeth eang o bobl o wahanol gefndiroedd. Mae cydraddoldeb cynrychiolaeth a chydraddoldeb triniaeth yn ddwy o'r prif egwyddorion a sefydlwyd gennym yn y Cynulliad.

2:09 p.m.

Kirsty Williams: I press the First Secretary on that point. How many Assembly sponsored public bodies have been abolished in Wales, not since his party came to Government, but since the Assembly took over the running of Wales? What steps is the First Secretary taking to bring about the bonfire of quangos that his party promised the people of Wales?

The First Secretary: It would be good, Kirsty, to think the question through before asking it. The Assembly has only been in place for a matter of weeks. As you well know, few decisions have been taken to remove an Assembly sponsored public body since that time. We will continue to remove inappropriate Assembly sponsored public bodies and ensure that, where people are selected, the Assembly has an opportunity to appoint people from a wide range of backgrounds.

Val Feld: Is Alun aware that this morning the Equal Opportunities Commission, the Welsh Development Agency and the Institute of Welsh Affairs launched the findings from a substantive research report which had consulted senior men and women about the opportunities for progressing women into senior management in Wales? It found that women remained significantly under-represented in decision-making. While senior men are acknowledging the importance of bringing more women into organisations and using their skills, nevertheless significant barriers remain, particularly attitudes and expectations about long hours and the informal networks that exist. The report makes specific recommendations to the Assembly to take an active role in pushing the public bodies that we fund to develop equal opportunities policies. Does he agree that this should be urgently referred to the Committee on Equality of Opportunity and then to the other Subject Committees, enabling the Assembly to take a lead in changing the culture in our public bodies?

The First Secretary: I have not seen the report to which you refer but it sounds a constructive contribution to discussion on

Kirsty Williams: Pwysaf ar y Prif Ysgrifennydd ar y pwynt hwnnw. Faint o gyrff cyhoeddus o dan nawdd y Cynulliad a ddi-ddymwyd yng Nghymru, nid ers i'w blaidd ddod i rym, ond ers i'r Cynulliad ymgymryd â rhedeg Cymru? Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i gynnal y goelcerth o gwangos a addawyd gan ei blaidd i bobl Cymru?

Y Prif Ysgrifennydd: Peth da, Kirsty, fyddai ystyried y cwestiwn yn fanwl cyn ei ofyn. Ychydig o wythnosau sydd ers sefydlu'r Cynulliad. Fel y gwyddoch yn iawn, prin yw'r penderfyniadau a wnaethpwyd ers hynny sydd yn dileu corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Byddwn yn parhau i ddileu cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sydd yn anaddas ac yn sicrhau, lle y detholir pobl, fod cyfle gan y Cynulliad i benodi pobl o amrediad eang o gefndiroedd.

Val Feld: A yw Alun yn ymwybodol bod y Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal, Awdurdod Datblygu Cymru a'r Sefydliad Materion Cymreig fore heddiw wedi lansio canfyddiadau adroddiad ymchwil annibynnol a ymgynghorodd â dynion a menywod uwch eu safle ynghylch y cyfleoedd i hybu menywod mewn rheolaeth uwch yng Nghymru? Canfu fod tangynrychiolaeth helaeth o hyd o fenywod yn y broses benderfynu. Er bod dynion uwch eu safle yn cydnabod pwysigrwydd dod â rhagor o fenywod i gyrff a mudiadau a defnyddio eu medrau, erys rhwystrau sylweddol er hynny, yn enwedig agweddau a disgwyliadau ynghylch oriau hir a'r rhwydweithiau anffurfiol sydd yn bodoli. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion penodol i'r Cynulliad ymgymryd â rôl weithredol wrth bwysu ar gyrff cyhoeddus a gyllidir gennym i ddatblygu polisiau cyfle cyfartal. A yw'n cytuno y dylid cyfeirio hyn ar frys i'r Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal ac wedyn i'r Pwyllgorau Pwnc eraill, fel y gall y Cynulliad roi arweiniad wrth newid y diwylliant yn ein cyrff cyhoeddus?

Y Prif Ysgrifennydd: Ni welais yr adroddiad y cyfeiriwch ato ond mae i'w glywed yn gyfraniad adeiladol at y

this issue. As the nature of your question indicates, we cannot do this by just willing it. We have to put mechanisms into place which, over time, will ensure that people come up through the system knowing that they will be treated positively if they apply. We have much to do to change the environment and encourage more people to come forward. We intend to launch a new appointments strategy which will work on those points. It makes sense for the Committee on Equality of Opportunity and other Committees to consider the suggestions made in the report to which you refer.

drafodaeth ar y mater hwn. Fel y mae natur eich cwestiwn yn dangos, ni allwn gyflawni hyn drwy ei ewyllysio yn unig. Rhaid inni sefydlu mecanweithiau a fydd, dros gyfnod, yn sicrhau bod pobl yn dod i fyny drwy'r system gan wybod y cânt hwythau ymateb cadarnhaol os byddant yn ymgeisio. Mae gennym lawer i'w wneud i newid yr amgylchedd ac annog mwy o bobl i ddod ymlaen. Bwriadwn lansio strategaeth benodi newydd a fydd yn rhoi sylw i'r pwyntiau hyn. Byddai'n beth synhwyrol i'r Pwyllgor Cyfleoedd Cyfartal a'r Pwyllgorau eraill ystyried yr awgrymiadau a wneir yn yr adroddiad y cyfeiriwch ato.

Polisi Celfyddydau (Adolygiad) Arts Policy (Review)

Q2 Jenny Randerson: Will the First Secretary ask the Arts Council of Wales to defer the introduction of the new drama strategy until the Assembly has had the opportunity to review arts policy as a whole in Wales in the context of the educational, social, economic and tourism implications of the opportunities presented by Objective 1 funding? (OAQ823JS)

C2 Jenny Randerson: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru ohirio cyflwyno'r strategaeth ddrama newydd nes y caiff y Cynulliad gyfle i adolygu'r polisi ar y celfyddydau yn ei gyfanrwydd yng Nghymru yng nghyd-destun goblygiadau'r cyfleoedd a geir drwy arian Amcan 1 i addysg, cymdeithas, yr economi a thwristiaeth? (OAQ823JS)

The First Secretary: The question muddles two different issues. The new drama strategy sets out to spend more on projects and productions, that is, to spend more on the people end of activities and less on buildings and bureaucracy. I support that. That strategy will not prevent arts bodies from making bids under Objective 1.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r cwestiwn yn cymysgu dau fater gwahanol. Bwriad y strategaeth ddrama newydd yw gwario mwy ar brosiectau a chynrychiadau, hynny yw, gwario mwy ar y gweithgareddau sydd yn ymwneud â phobl a llai ar adeiladau ac ar firocratiaeth. Cefnogaf hynny. Ni fydd y strategaeth honno'n rhwystro cyrff celfyddydol rhag cyflwyno ceisiadau o dan Amcan 1.

Jenny Randerson: Part of the drama strategy suggests reducing the number of companies in Wales from eight to five. That would lead to the loss of jobs. For example, in Cardiff it is proposed that the Sherman Theatre's youth programme be cut. Some 250 children a week benefit from that programme in English and in Welsh. If the programme is cut 10 jobs will be lost. It could also imperil funding for the Sherman from Cardiff City and County Council, as they fund the Sherman because of that youth project. I recognise that there may be practical difficulties but would you not agree that a moratorium is appropriate due to

Jenny Randerson: Mae rhan o'r strategaeth ddrama yn awgrymu lleihau nifer y cwmnïau yng Nghymru o wyth i bump. Byddai hynny'n arwain at golli swyddi. Er enghraifft, yng Nghaerdydd mae bwriad i dorri ar raglen ieuenctid Theatr y Sherman. Mae tua 250 o blant yn elwa ar y rhaglen honno bob wythnos yn Saesneg ac yn Gymraeg. Os torrir y rhaglen fe gollir 10 swydd. Gallai hynny hefyd beryglu cyllid i Theatr Sherman o Gyngor Dinas a Sir Caerdydd, gan eu bod yn cyllido'r Sherman oherwydd y prosiect ieuenctid hwnnw. Yr wyf yn derbyn ei bod yn bosibl bod anawsterau ymarferol ond oni

the fundamental importance of the jobs involved in the proposed restructuring?

The First Secretary: It would not be right for us to bring the Arts Council of Wales's drama operation to a standstill. Responses to their wide-ranging consultation expressed a strong opinion that the Arts Council should fund fewer companies more effectively. That is what I meant by funding less bureaucracy and more people, more activities; the things that offer something to the people of Wales.

The strategy involves a new role for the Sherman Theatre, Cardiff in the development of new writing in Welsh and English. As a result of representations that were made, many of the reservations expressed initially have been resolved in discussions.

Elin Jones: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn cytuno mai'r prif reswm pam na ellid gohirio strategaeth ddrama Cyngor Celfyddydau Cymru yw oherwydd bod arian ychwanegol yn mynd i Clwyd Theatr Cymru eleni er mwyn creu cwmni drama cenedlaethol cyfrwng Saesneg a bod yr arian ychwanegol hwnnw yn dod o arbedion ariannol a wneir drwy leihau nifer cwmnïau theatr pobl ifainc yng Nghymru o wyth i bump?

Er bod y cynllun a'r arian eisoes yn bodoli ar gyfer creu cwmni drama cenedlaethol cyfrwng Saesneg, mae'n amlwg o gynllun corfforaethol y Cyngor Celfyddydau nad oes cynllun nac arian ychwanegol ar gyfer creu cwmni drama cenedlaethol cyfrwng Cymraeg. A wnaiff y Prif Ysgrifennydd sicrhau bod Tom Middlehurst yn gallu darparu cyllid digonol i ariannu cwmni drama cenedlaethol cyfrwng Cymraeg yn ogystal â Clwyd Theatr Cymru?

Y Prif Ysgrifennydd: Y syniad yw cael yr arbenigedd a sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.

Bydd y strategaeth yn sefydlu Clwyd Theatr Cymru fel theatr genedlaethol cyfrwng Saesneg. Bydd hefyd yn datblygu theatr genedlaethol iaith Gymraeg newydd yng ngogledd Cymru. Mae yna ddatblygiadau a

fyddech yn cytuno fod moratoriwm yn briodol oherwydd pwysigrwydd sylfaenol y swyddi sydd yn gysylltiedig â'r ailstrwythuro arfaethedig?

Y Prif Ysgrifennydd: Ni fyddai'n iawn inni atal gweithgareddau drama Cyngor Celfyddydau Cymru yn llwyr. Yn yr ymatebion i'w hymgyngoriad eang yr oedd y farn yn gryf y dylai Cyngor y Celfyddydau gyllido llai o gwmnïau yn fwy effeithiol. Dyna a olygwn wrth sôn am gyllido llai o fiwrocratiaeth a mwy o bobl, mwy o weithgareddau; y pethau sydd yn cynnig rhywbeth i bobl Cymru.

Mae'r strategaeth yn cynnwys rôl newydd i Theatr Sherman, Caerdydd wrth ddatblygu ysgrifennu newydd yn Gymraeg a Saesneg. O ganlyniad i'r dadleuon a gyflwynwyd, mae llawer o'r pryderon a fynegwyd i ddechrau wedi eu datrys drwy drafodaethau.

Elin Jones: Does the First Secretary agree that the main reason why the Arts Council of Wales's drama strategy could not be deferred is because additional funding is going to Clwyd Theatr Cymru this year to create an English-medium national drama company and that this additional funding comes from financial savings made by reducing the number of young people's theatre companies in Wales from eight to five?

Although the scheme and the money already exist to create an English-medium national drama company, it is obvious from the Arts Council's corporate plan that there is no scheme nor additional money to create a Welsh-medium national drama company. Will the First Secretary ensure that Tom Middlehurst can provide adequate funding for a Welsh-medium national drama company as well as Clwyd Theatr Cymru?

The First Secretary: The idea is to have specialism and to ensure that the money is used effectively.

The strategy will establish Clwyd Theatr Cymru as an English-medium national theatre. It will also develop a Welsh-medium national theatre in north Wales. There are developments that will secure things that

fydd yn sicrhau pethau y bydd pawb yn y Cynulliad yn eu cefnogi. Wrth gwrs, pan geir newidiadau, bydd rhai pobl yn anhapus. Fodd bynnag, dyma sut mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i weithredu'n fwy effeithiol ac i ddefnyddio doniau pobl mewn modd gwell.

everybody in the Assembly will support. Of course, when changes occur, some people will be unhappy. However, this is how the money is being used to operate more effectively and to make better use of people's talents.

Cymorth Ariannol i Gwmni Ford Financial Support for Ford

Q3 Alun Cairns: Will the First Secretary make a statement on the negotiations between himself, Ford Motor Company and the Treasury in relation to its engine plant in Bridgend and will he highlight the timescale of any announcement of whether the Government will be able to support the plant financially? (OAQ818JS)

C3 Alun Cairns: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon gwneud datganiad ar y trafodaethau a fu rhyngddo â'r Ford Motor Company a'r Trysorlys ynghylch y ffatri beiriannau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a nodi'r amserlen ar gyfer unrhyw gyhoeddiad ynghylch a fydd modd i'r Llywodraeth roi cymorth ariannol i'r ffatri? (OAQ818JS)

The First Secretary: I am sure that you will appreciate that I will not breach confidentiality or do anything that could damage our efforts to secure the future of Ford Motor Company in Bridgend.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn sicr y byddwch yn gwerthfawrogi na fyddaf yn fodlon torri cyfrinachedd nac yn gwneud dim a allai lesteirio'n hymdrechion i sicrhau dydodol y Ford Motor Company ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

I have had regular discussions with Ian McAllister, Head of Ford Motor Company, UK. Cabinet colleagues, officials, the Welsh Development Agency and I have worked closely with unions and management at Bridgend against fierce competition from Germany and Spain. We have given Bridgend Ford the best possible competitive position. We have worked with the company and offered the support that may be needed if it gains the opportunity. For reasons of commercial confidentiality, it would be unwise to comment further. Our efforts and involvement with management and others have been greatly appreciated.

Cefais drafodaethau rheolaidd ag Ian McAllister, Pennaeth y Ford Motor Company, UK. Bu fy nghydweithwyr yn y Cabinet, y swyddogion, Awdurdod Datblygu Cymru a minnau yn gweithio'n agos gyda'r undebau a'r rheolwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn erbyn cystadleuaeth ffyrnig o'r Almaen a Sbaen. Yr ydym wedi rhoi'r safle cystadleuol gorau posibl i Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yr ydym wedi gweithio gyda'r cwmni ac wedi cynnig y gefnogaeth a allai fod yn angenrheidiol os caiff y cyfle. Oherwydd cyfrinachedd masnachol, annoeth fyddai rhoi sylwadau pellach. Mae ein hymdrechion a'n cysylltiad â'r rheolwyr ac eraill wedi eu gwerthfawrogi'n fawr.

Alun Cairns: Does the First Secretary appreciate the importance of the Ford Motor plant to Bridgend and south-west Wales? Does he accept that there are similarities in the subsidising of the Longbridge plant in middle England and when will he be able to make an announcement in Wales?

Alun Cairns: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn sylweddoli pwysigrwydd ffatri'r Ford Motor Company i Ben-y-bont ar Ogwr ac i dde-orllewin Cymru? A yw'n derbyn bod tebygrwydd yn y cymhorthdal a roddwyd i ffatri Longbridge yng nghanol Lloegr a pha bryd y gall wneud cyhoeddiad yng Nghymru?

The First Secretary: Of course I appreciate the importance of Ford. It was my predecessor as MP for Cardiff South and Penarth that brought the Ford plant to south

Y Prif Ysgrifennydd: Wrth gwrs fy mod yn sylweddoli pwysigrwydd Ford. Fy rhagflaenydd yn AS dros Dde Caerdydd a Phenarth a ddaeth â ffatri Ford i dde Cymru.

Wales.

It is not a question of our needing to make an announcement. The ball is in Ford's court. We have done everything necessary with Ford management to prepare the ground for success. However, there is tough competition with Germany and Spain. In co-operation with the management we have lifted the case which has been made for Bridgend and it has been an effective operation. When I was in the United States, I visited Detroit to meet people such as Jim Pedillo and Roman Krygier to press Bridgend's case and make sure that they understood my support as a member of the British Cabinet. I have reinforced that in writing and in the conversations which I have had with Ian McAllister.

2:19 p.m.

Janet Davies: Although I recognise commercial confidentiality and do not wish to push you, First Secretary, into a situation where you might have difficulties, I want you to recognise the necessity of keeping this core of automotive and engineering skills within the region. In addition, should there be a cash injection, it should be spent in an accountable manner and with some guarantee that the plant will stay.

The First Secretary: I understand the importance of the two elements of your question. Commercial confidentiality does not remove accountability but means that it comes in a different form and stage in the proceedings. I am mindful that we need to make sure that public money is used effectively. However, I am aware of the importance of these jobs and I assure you that I, our team of officials from the Permanent Secretary down and the Welsh Development Agency from the Chief Executive and Chairman down, have done everything possible.

Carwyn Jones: As somebody who is from Bridgend and lives there, the importance of the engine plant is apparent to me. In addition, as someone who is in consultation with the unions, it seems that the unions are optimistic about the future of the plant. However, workers at the plant are concerned

Nid mater o angen i ni wneud cwestiwn ydyw. Ford biau'r symudiad nesaf. Gwnaethom bopeth oedd yn angenrheidiol gyda rheolwyr Ford i fraenaru'r tir ar gyfer llwyddiant. Fodd bynnag, mae cystadleuaeth galed â'r Almaen a Sbaen. Drwy gydweithredu â'r rheolwyr yr ydym wedi hyrwyddo'r achos a wnaethpwyd dros Ben-y-bont ar Ogwr a bu'n ymgyrch effeithiol. Pan oeddwn yn yr Unol Daleithiau, ymwelais â Detroit i gwrdd â rhai fel Jim Pedillo a Roman Krygier er mwyn gwthio achos Pen-y-bont ar Ogwr a sicrhau eu bod yn deall fy nghefnogaeth fel aelod o'r Cabinet Prydeinig. Yr wyf wedi ategu hynny mewn ysgrifen ac yn y sgysiau a gefais ag Ian McAllister.

Janet Davies: Er fy mod yn cydnabod cyfrinachedd masnachol ac nad wyf yn dymuno'ch gwthio, Brif Ysgrifennydd, i sefyllfa lle y gallech brofi anawsterau, yr wyf am ichi sylweddoli'r angen i gadw'r craidd hwn o fedrau modur a pheirianegol yn y rhanbarth. Ar ben hynny, os ceir chwistrelliad o arian, dylid ei wario mewn modd atebol a chyda rhyw fath o warant y bydd y ffatri'n aros.

Y Prif Ysgrifennydd: Deallaf bwysigrwydd y ddwy elfen yn eich cwestiwn. Nid yw cyfrinachedd masnachol yn dileu atebolrwydd ond mae'n golygu y daw ar ffurf ac ar adeg wahanol yn y trafodaethau. Yr wyf yn ymwybodol o'r angen inni sicrhau y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio'n effeithiol. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol o bwysigrwydd y swyddi hyn ac yr wyf yn eich sicrhau fy mod i, ein tîm o swyddogion o'r Ysgrifennydd Parhaol i lawr ac Awdurdod Datblygu Cymru o'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd i lawr, wedi gwneud pob dim oedd yn bosibl.

Carwyn Jones: Fel un sydd yn hanu o Ben-y-bont ar Ogwr ac yn byw yno, mae pwysigrwydd y ffatri beiriannau yn amlwg i mi. Yn ogystal â hynny, fel un sydd yn ymgynghori â'r undebau, mae'n ymddangos bod yr undebau'n obeithiol ynghylch dyfodol y ffatri. Fodd bynnag, mae'r gweithwyr yn y

that politicians say things that could jeopardise the future of the plant. It does no one any good to speculate about what is going on there. It is important to recognise that negotiations are at a delicate stage and we, as politicians within this Chamber, have to be careful that we do not say anything that could jeopardise those negotiations. It is better to leave this matter to people who are committed to Bridgend rather than western Clwyd.

The First Secretary: There are always dangers with speculation. There has been speculation in the press and media. I do not blame reporters for reporting speculation that reaches their ears. However, sometimes that is not helpful and Carwyn is right to say that you can create dangers by talking down the possibility of success. It is a sensitive area but several options have been explored.

There have been close discussions with the management at Ford. Carwyn is correct to say that the trade unions have been involved and have been in meetings with management, such as that when I took the Chancellor of the Exchequer to the plant to make sure that he understood the situation and the competition facing not only Bridgend but the UK from Germany and Spain. I hope that the commitment that Carwyn and myself have to the long-term success of Ford at Bridgend is shared by all Assembly Members.

ffatri yn bryderus bod gwleidyddion yn dweud pethau a allai beryglu dyfodol y ffatri. Nid yw o fudd i neb ddyfalu ynghylch yr hyn sydd yn mynd ymlaen yno. Mae'n bwysig cydnabod bod y trafodaethau mewn cyfnod sensitif iawn a rhaid inni ofalu, fel gwleidyddion yn y Siambr hon, na ddywedwn ddim byd a allai beryglu'r trafodaethau hyn. Mae'n well gadael y mater i bobl sydd ag ymrwymiad i Ben-y-bont ar Ogwr yn hytrach nag i orllewin Clwyd.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae bob amser yn berygl dyfalu. Bu dyfalu yn y wasg ac ar y cyfryngau. Nid wyf yn gweld bai ar newyddiadurwyr am adrodd am y dyfalu a ddaw i'w clyw. Fodd bynnag, nid yw hynny o gymorth weithiau ac mae Carwyn yn iawn yn dweud y gallwch greu peryglon drwy fychanu'r posibilrwydd o lwyddiant. Mae'n faes sensitif ond mae sawl dewis yr ymchwiliwyd iddynt.

Cafwyd trafodaethau agos gyda'r rheolwyr yn Ford. Mae Carwyn yn gywir wrth ddweud bod yr undebau llafur wedi bod yn gysylltiedig ac wedi bod mewn cyfarfodydd gyda'r rheolwyr, fel yr un pan euthum â Changhellor y Trysorlys i'r ffatri i sicrhau ei fod yn deall y sefyllfa a'r gystadleuaeth sydd yn wynebu nid yn unig Pen-y-bont ar Ogwr ond y Deyrnas Unedig hefyd o du'r Almaen a Sbaen. Gobeithiaf fod holl Aelodau'r Cynulliad yn rhannu ymrwymiad Carwyn a minnau i lwyddiant tymor hir Ford ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Cwmni Bell Pottinger The Bell Pottinger Company

Q4 David Davies: How much money has been paid to the public relations company Bell Pottinger Good Relations since the Assembly election? (QAQ810JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Nid wyf yn sicr a ddylwn ateb yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

I congratulate David on his efforts to learn Welsh.

The sum of £17,921 was paid for work carried out on the campaign and the Assembly internet.

C4 David Davies: Faint o arian a dalwyd i gwmni cysylltiadau cyhoeddus Bell Pottinger Good Relations ers etholiadau'r Cynulliad? (QAQ810JS)

The First Secretary: I am not sure if I should answer in Welsh or English.

Llongyfarchaf David ar ei ymdrechion i ddysgu Cymraeg.

Talwyd y swm o £17,921 am waith a gyflawnwyd ar yr ymgyrch ac ar ryngrwyd y Cynulliad.

David Davies: I have some concerns with the First Secretary's answer. It would be helpful if the Members were allowed to see a report on the evaluation of this company's performance throughout the Assembly election campaign. I received mention of the report in a letter from the First Secretary on 16 June. We ought to be able to see it as soon as possible.

The First Secretary: One has to have material in order for it to be shared. You are right to say that I previously said that the information campaign would be evaluated when all the information had been collated. We received the National Opinion Polls Research Group election tracking research earlier this week and we await a further report from them. That will need to be shared.

Dafydd Wigley: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn derbyn mai'r hyn sydd yn deillio o'r Cynulliad ei hun sydd yn bwysig, nid cyflwyniadau gan gwmnïau cysylltiadau cyhoeddus? Denir diddordeb a dychymyg pobl Cymru gan y Cynulliad ei hun. Pryd, felly, y bydd y Prif Ysgrifennydd a'i Lywodraeth mewn sefyllfa i gyflwyno i'r Cynulliad y math o raglen gynhyrfus a blaengar a fydd yn denu diddordeb pobl Cymru?

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydym wedi bod yn gwneud hynny ers dyddiau cyntaf y Cynulliad ac yr ydym wedi dod â nifer fawr o ddogfennau pwysig gerbron y Cynulliad. Yn ystod y mis nesaf cyflwynir papurau yn ymwneud â phartneriaeth gyda busnes, cynghorau lleol a'r sector gwirfoddol ac mae'r ddogfen ar ddatblygu cynaliadwy gerbron y Cynulliad heddiw. Mae'r Cynulliad yn gwneud gwaith pwysig a phwysleisiaf mai'r hyn a gyflawnir gennym ni yma fydd yn ennill cefnogaeth pobl Cymru i'r Cynulliad, nid gwaith cwmni cysylltiadau cyhoeddus.

Christine Humphreys: Can the First Secretary provide details of all work that has been undertaken for the Assembly by consultants since the May elections? How much of the findings of this work have subsequently been published?

David Davies: Mae gennyf rai pryderon ynghylch ateb y Prif Ysgrifennydd. Byddai o gymorth pe caniateid i'r Aelodau weld adroddiad ar y gwerthusiad o berfformiad y cwmni hwn drwy gydol ymgyrch etholiadol y Cynulliad. Crybwyllwyd yr adroddiad mewn llythyr a dderbyniais oddi wrth y Prif Ysgrifennydd ar 16 Mehefin. Dylem allu ei weld cyn gynted ag y bo modd.

Y Prif Ysgrifennydd: Rhaid i rywun feddu ar ddeunydd er mwyn ei rannu. Yr ydych yn iawn wrth ddweud imi sôn o'r blaen y byddai'r ymgyrch wybodaeth yn cael ei gwerthuso ar ôl casglu'r holl wybodaeth. Bu inni dderbyn ymchwil Grŵp Ymchwil National Opinion Polls ar hynt yr etholiad yn gynharach yr wythnos hon ac yr ydym yn disgwyl adroddiad pellach oddi wrthynt. Bydd angen rhannu hwnnw.

Dafydd Wigley: Does the First Secretary accept that what emerges from the Assembly itself is important, not presentations from public relations companies? The Assembly itself will attract the interest and imagination of the people of Wales. When, therefore, will the First Secretary and his Government be in a position to present to the Assembly the kind of exciting and innovative programme that will attract the interest of the people of Wales?

The First Secretary: We have been doing that since the early days of the Assembly and we have brought many important documents before the Assembly. During the next month, papers on partnership with business, local councils and the voluntary sector will be presented and the document on sustainable development comes before this Assembly today. The Assembly carries out important work and I emphasise that what we achieve here is what will win the support of the people of Wales for the Assembly, not the work of a public relations company.

Christine Humphreys: A oes modd i'r Prif Ysgrifennydd ddarparu manylion o'r holl waith yr ymgymerwyd ag ef gan ymgynghorwyr ar ran y Cynulliad ers etholiadau mis Mai? Faint o ganfyddiadau'r gwaith hwn a gyhoeddwyd wedyn?

The First Secretary: I cannot answer that off the cuff because it goes wider than the original question. That is the sort of information that should be available to Members and I will be happy to pursue it, perhaps in a letter to Christine.

Y Prif Ysgrifennydd: Ni allaf ateb hynny ar fy union oherwydd mae'n ehangach na'r cwestiwn gwreiddiol. Dyma'r math o wybodaeth a ddylai fod ar gael i'r Aelodau a byddaf yn falch o ymdrin ymhellach â'r mater, mewn llythyr at Christine efallai.

Cwestiwn Brys Urgent Question

Colli Swyddi yn Ffatrioedd Bairdwear Job Losses in Bairdwear Factories

The Presiding Officer: A request has been made for a question of an urgent character to be asked of the First Secretary under Standing Order No. 6.31. I call Peter Black to ask that question.

Y Llywydd: Gwnaethpwyd cais i ofyn cwestiwn o natur frys i'r Prif Ysgrifennydd o dan Reol Sefydlog Rhif 6.31. Galwaf ar Peter Black i ofyn y cwestiwn hwnnw.

Peter Black: Will the First Secretary outline what action he proposes to take to alleviate the impact of the loss of 296 jobs in Bairdwear factories in Pontardawe and Maesteg and what discussions he has had with this company with regard to the future of its other factories in south Wales?

Peter Black: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn fodlon amlinellu'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i liniaru effaith colli 296 o swyddi yn ffatrioedd Bairdwear ym Mhontardawe ac ym Maes-teg a pha drafodaethau a gafodd gyda'r cwmni hwn ynghylch dyfodol ei ffatrioedd eraill yn ne Cymru?

The First Secretary: I regret any job losses that occur because they bring uncertainty and damaging consequences to the individuals, their families and the wider community. Information sometimes comes from companies in advance and this enables us to put support and advice systems into place and turn to the work of the Welsh Development Agency. Commercial organisations have to judge whether or not to release that information. Sometimes they do and sometimes they do not, for a variety of reasons. In this case we did not have advance knowledge of the decision and were unable to prepare for it. Gwenda Thomas contacted me immediately after the company's announcement and has fed back to me the views of the company, the trades unions and Neath Port Talbot County Borough Council, which is part of the taskforce set up in response to job losses in the area.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae unrhyw golli ar swyddi yn peri gofid oherwydd mae hynny'n dod ag ansicrwydd a chanlyniadau niweidiol i'r unigolion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Weithiau daw gwybodaeth gan gwmnïau ymlaen llaw ac mae hyn yn ein galluogi i sefydlu systemau cefnogi a chynghori ac i droi at waith Awdurdod Datblygu Cymru. Rhaid i gyrff masnachol benderfynu a ydynt am ryddhau'r wybodaeth honno ai peidio. Weithiau fe wnânt hynny, dro arall ni wnânt, am amryfal resymau. Yn yr achos hwn, ni chawsom wybod ymlaen llaw am y penderfyniad ac nid oedd modd inni baratoi ar ei gyfer. Cysylltodd Gwenda Thomas â mi ar unwaith ar ôl cyhoeddiad y cwmni ac mae wedi rhoi adborth imi am farn y cwmni, yr undebau llafur a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, sydd yn rhan o'r tasglu a sefydlwyd mewn ymateb i'r colledion swyddi yn yr ardal.

We accept that the company has a commercial decision to make but have asked the WDA to consider any scope for support. The Assembly and its sponsored bodies will provide all possible assistance to the

Yr ydym yn derbyn bod rhaid i'r cwmni wneud penderfyniad masnachol ond yr ydym wedi gofyn i'r WDA ystyried unrhyw gyfle i'w gefnogi. Bydd y Cynulliad a'r cyrff a noddur ganddo yn darparu pob cymorth posibl

company to minimise the effect of job losses. I understand that the company hopes to transfer as many staff as possible to alternative locations. We will be keeping a close eye on this over the coming days and weeks.

2:29 p.m.

Gwenda Thomas: I am in close contact with the GMB Union and with the local shop steward on this issue. I received the news of the potential job losses with great disappointment, as it adds to an already dire situation of job losses in my constituency. I welcome the decision to ask the Welsh Development Agency to consider the scope for support in partnership on the ground with the local authority, the West Wales Training and Enterprise Council and the employment services. I have been in contact with Neath Port Talbot County Borough Council and have received assurances that the task group set up in response to job losses in the Swansea Valley will make every effort to ease the burden of this potential redundancy situation. The council, as part of a delegation, will meet with the company on Friday to see what help can be given. I am also aware that some of the employees who now face potential job losses here were previously employed at the Dewhirst factory in Ystalyfera. Alun Michael's reply today shows his commitment to working in partnership with the WDA, West Wales TEC, industry, local authorities and employment services to ensure the regeneration of the Valleys.

The First Secretary: I hope that we can work constructively. It is always painful when there are job losses, particularly if there is a total closure. People feel hurt at having lost not only their employment but often their livelihood and sense of purpose. It is vital that we treat job losses seriously. We have not yet had an application from either West Wales TEC or South East Wales TEC to treat the redundancies as significant. That may follow from the discussions to which you referred. The rapid response measures are in place to help with situations like these. The company has received support through

i'r cwmni er mwyn lleihau effaith y colledion swyddi. Deallaf fod y cwmni'n gobeithio trosglwyddo cynifer o staff ag y bo modd i fannau eraill. Byddwn yn cadw llygad barcud ar hyn dros y dyddiau a'r wythnosau sydd i ddod.

Gwenda Thomas: Yr wyf mewn cysylltiad agos ag Undeb y GMB a chyda'r swyddog undeb lleol ynghylch y mater hwn. Yr oeddwn yn siomedig iawn o glywed y newyddion am y posibilïad o golli swyddi, gan fod hyn yn ychwanegu at sefyllfa swyddi yn f'etholaeth sydd eisoes yn un enbyd. Croesawaf y penderfyniad i ofyn i Awdurdod Datblygu Cymru ystyried y cyfle i gefnogi mewn partneriaeth ymarferol â'r awdurdod lleol, Cyngor Hyfforddi a Menter Gorllewin Cymru a'r gwasanaethau cyflogi. Bûm mewn cysylltiad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a derbyniais sicrwydd y bydd y tasglu a sefydlwyd mewn ymateb i'r colledion swyddi yng Nghwm Tawe yn gwneud pob ymdrech i leddfu'r baich os ceir diswyddiadau. Bydd y cyngor, fel rhan o ddirprwyaeth, yn cyfarfod â'r cwmni ddydd Gwener er mwyn canfod pa gymorth y gellir ei roi. Yr wyf hefyd yn ymwybodol bod rhai o'r gweithwyr sydd bellach yn wynebu'r posibilïad o golli eu swyddi yma yn arfer gweithio yn ffatri Dewhirst yn Ystalyfera. Mae ateb Alun Michael heddiw yn dangos ei ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â'r WDA, Cyngor Hyfforddi a Menter Gorllewin Cymru, diwydiant, awdurdodau lleol a'r gwasanaethau cyflogi i sicrhau adfywiad y Cymoedd.

Y Prif Ysgrifennydd: Gobeithiaf y gallwn weithio'n adeiladol. Mae bob amser yn boenus pan geir colledion swyddi, yn enwedig os caeir yn gyfan gwbl. Bydd pobl yn teimlo briw o golli eu cyflogaeth ac mewn llawer achos eu bywoliaeth a'u hymdeimlad o bwrpas. Mae'n holl bwysig inni drin colledion swyddi o ddifrif. Ni chawsom gais eto oddi wrth Gyngor Hyfforddi a Menter Gorllewin Cymru nac un De Ddwyrain Cymru i drin y diswyddiadau fel rhai difrifol. Gallai hynny ddod o ganlyniad i'r trafodaethau yr ydych wedi cyfeirio atynt. Mae'r mesurau ymateb cyflym wedi eu

regional selective assistance, and the WDA and other bodies stand ready to help where they can.

Phil Williams: Are you aware that the job losses we hear about week after week throughout Wales are due, to a large extent, to the Government's fiscal policies of high interest rates and an overvalued pound? These are creating a tremendous barrier to successful exporting, and are therefore a threat to every community in Wales that depends on manufacturing industry. What urgent representations have you made to the Treasury to say that what might be sound fiscal policy for south-east England is having a disastrous effect on the large manufacturing sector in Wales?

The First Secretary: That is a very dramatic way of putting it. We have had good economy management over the last two years, in stark contrast to the stop-go policies over the previous period. I appreciate that the high pound is putting pressure on exporters. That question was recently posed to the head of Matsui, one of the biggest Japanese companies, when we announced their inward investment which sited their European manufacturing headquarters in Ammanford. Interestingly, he commented that even though the level of the pound would obviously affect the capacity to export, it did not discourage them from investing in Wales. There is pressure on manufacturing industry and on exporters in Wales as in the rest of the UK. However, due to the health of the British economy, we are also succeeding in winning inward investment that looks to the future. One example is Calsonic's investment in Llanelli which we were able to support last week. Such investments are important, and a balanced picture needs to be painted.

Janice Gregory: As the Member for the Ogmere constituency I, too, am concerned at the loss of so many jobs in Maesteg. I am grateful for the action you are taking. I found it strange that there was no early warning by the company of any trading difficulties. It seems to be a rush decision, and I hope that a

sefydlu i helpu mewn sefyllfaoedd fel y rhain. Derbyniodd y cwmni gefnogaeth drwy gymorth dethol rhanbarthol, ac mae'r WDA a chyirff eraill wrth law i helpu lle bynnag y gallant.

Phil Williams: A ydych yn ymwybodol bod y colledion swyddi y clywn amdanant wythnos ar ôl wythnos drwy Gymru yn ganlyniad, i raddau helaeth, i bolisiau ariannol y Llywodraeth o gyfraddau llog uchel a gwerth rhy uchel ar y bunt? Mae'r rhain yn creu rhwystr aruthrol i allforio llwyddiannus, ac maent felly yn fygythiad i bob cymuned yng Nghymru sydd yn dibynnu ar ddiwydiant cynhyrchu. Pa sylwadau brys a gyflwynwyd gennych i'r Trysorlys i ddweud bod yr hyn a allai fod yn bolisi ariannol doeth i dde-ddwyrain Lloegr yn effeithio'n drychinebus ar y sector cynhyrchu mawr yng Nghymru?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hynny'n ddweud dramatig iawn. Cawsom reolaeth dda ar yr economi dros y ddwy flynedd diwethaf, yn gwbl groes i'r polisiau stopio-cychwyn dros y cyfnod cyn hynny. Yr wyf yn sylweddoli bod y bunt uchel yn rhoi pwysau ar allforwyr. Codwyd y mater hwnnw'n ddiweddar gan bennaeth Matsui, un o'r cwmnïau Japaneaidd mwyaf, pan oeddem yn cyhoeddi eu buddsoddiad o'r tu allan a oedd yn golygu lleoli eu pencadlys cynhyrchu Ewropeaidd yn Rhydaman. Diddorol oedd ei sylw nad oedd lefel y bunt, er y byddai'n amlwg yn effeithio ar y gallu i allforio, yn gwneud iddynt feddwl ddwywaith cyn buddsoddi yng Nghymru. Mae pwysau ar ddiwydiannau cynhyrchu ac ar allforwyr yng Nghymru fel yng ngweddill y DU. Fodd bynnag, oherwydd iechyd economi Prydain, yr ydym hefyd yn llwyddo i ennill buddsoddiadau o'r tu allan sydd yn edrych tua'r dyfodol. Un enghraifft o hynny yw buddsoddiad Calsonic yn Llanelli y gallasom ei gefnogi yr wythnos diwethaf. Mae buddsoddiadau o'r fath yn bwysig, ac mae angen rhoi darlun cytbwys.

Janice Gregory: Fel yr Aelod dros etholaeth Ogwr yr wyf finnau'n bryderus ynghylch colli cynifer o swyddi ym Maes-teg. Yr wyf yn ddiolchgar am y camau yr ydych yn eu cymryd. Fe'i cefais yn rhyfedd nad oedd y cwmni wedi rhoi rhybudd cynnar am unrhyw anawsterau masnachu. Mae'n ymddangos yn

solution will be urgently found to save jobs in a community that has been hard hit in the past. Too often, Valleys factories are the ones first hit when the national company finds itself in difficulties. Why should this always be the case? When we receive Objective 1 funding, we must use it to help bring more stability into the Welsh economy and, particularly, to our Valleys communities. Alun, we have been hit too often when companies adjust capacity to remain competitive. So many sad family difficulties and serious social problems result from such adjustment of capacity and the inevitable loss of jobs that that signifies. In the Valleys, we have had much more than our fair share of capacity adjustment. However, I am grateful for the action that you, as First Secretary, are taking.

The First Secretary: I understand your point. The words that you used—adjustment of capacity to remain competitive—were used by the company in explaining its decision. Companies must take commercial decisions. We cannot take them; we must live with them although we sometimes regret them. Neither the industry department—our Assembly officials—nor the WDA had advance warning of any problems with Bairdwear. It is fair to point out, perhaps for other companies to note, that one of the conditions of regional selective assistance is that, if there are any changes to the project in question, the company must notify the department immediately. That condition applies because we are aware that investment is sometimes fragile. If we know that there is a problem, sometimes we can help. If we cannot help, we can try to anticipate the problems and help the individuals affected. I take the point on board. We emphasise that to companies when we can.

benderfyniad brys, a gobeithiaf y ceir ateb ar fyrder er mwyn achub swyddi mewn cymuned a drawyd yn galed yn y gorffennol. Yn llawer rhy aml, ffatrïoedd yn y Cymoedd sydd yn cael yr ergyd gyntaf pan fydd y cwmni cenedlaethol mewn trafferthion. Pam mai felly y dylai fod bob tro? Pan dderbyniwn arian Amcan 1, rhaid inni ei ddefnyddio i helpu i ddod â mwy o sefydlogrwydd i economi Cymru ac, yn arbennig, i gymunedau'r Cymoedd. Alun, fe'n trawyd yn rhy aml pan fydd cwmnïau yn addasu eu gallu cynhyrchu er mwyn aros yn gystadleuol. Mae cynifer o anawsterau teuluol trist a phroblemau cymdeithasol difrifol yn deillio o addasu gallu cynhyrchu yn y modd hwn a'r colledion swyddi anorfod a olygir wrth hynny. Yn y Cymoedd, cawsom lawer mwy na'r gyfran deg o addasu gallu cynhyrchu. Fodd bynnag, yr wyf yn ddiolchgar am y camau yr ydych yn eu cymryd fel Prif Ysgrifennydd.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn deall eich pwynt. Cafodd y geiriau a ddefnyddiwyd gennych chi—addasu gallu cynhyrchu i aros yn gystadleuol—eu defnyddio gan y cwmni wrth egluro ei benderfyniad. Rhaid i gwmnïau wneud penderfyniadau masnachol. Ni allwn ni wneud hynny; rhaid inni ddygymod â hwy er eu bod weithiau'n peri gofid i ni. Nid oedd yr adran ddiwydiant—ein swyddogion yn y Cynulliad—na'r WDA wedi derbyn rhybudd ymlaen llaw am unrhyw broblemau ynghylch Bairdwear. Mae'n deg nodi, efallai, er mwyn i gwmnïau eraill roi sylw i hyn, mai un o amodau cymorth dethol rhanbarthol yw bod rhaid i'r cwmni hysbysu'r adran ar unwaith os bydd unrhyw newidiadau yn y prosiect dan sylw. Gosodir yr amod hwnnw am ein bod yn ymwybodol fod buddsoddi weithiau'n rhywbeth bregus. Os gwyddom fod problem, gallwn helpu weithiau. Os na allwn helpu, gallwn geisio achub y blaen ar y problemau a helpu'r unigolion a effeithir. Yr wyf yn derbyn y pwynt. Yr ydym yn pwysleisio hynny wrth gwmnïau pan allwn.

Datganiad ar Fuddsoddwyr mewn Pobl Statement on Investors in People

The First Secretary: It is good to be able to discuss a piece of good news. We do have

Y Prif Ysgrifennydd: Braf yw gallu trafod ychydig o newyddion da. Cawn beth weithiau

them and I am sure that this will be welcomed as such by all Assembly Members. I am absolutely delighted to tell Members that the Assembly has been awarded accreditation as an Investor in People. It is the fruit of a great deal of work by Welsh Office officials, now National Assembly of Wales officials, over many years. Recognition as an Investor in People indicates that the Assembly civil service attaches priority to staff training and development and has structures in place for their effective delivery. The award has high status in industry. I am delighted that, when we as Assembly Members preach the importance of training, we can do so in the confidence that we belong to an institution that takes training for its own staff seriously and delivers in practice.

I pay tribute to the Permanent Secretary, Jon Shortridge, and his colleagues, for their outstanding achievement. Democratic debate is only part of the process of Government. Delivery of policy depends on officials. Their contribution is largely behind the scenes, but I would like to take this chance to place on record my appreciation for all their work. I hope that all Members agree that the Assembly's civil servants have coped with an enormous period of change in the short period since we were born, giving them more joy but also more pressure. I am delighted that the announcement comes at this point, when there is a great deal more to be done in developing our civil servants' training and skills. It means that we are starting on a well-laid base.

Y Llywydd: Fel Llywydd, eiliaf yr hyn a ddywedodd y Prif Ysgrifennydd. Hefyd, ategaf y deyrnged i Jon Shortridge a'r swyddogion am y gwaith a wnaethpwyd yn sefydlu'r Cynulliad ac yn cynnal gwaith Swyddfa'r Llywydd a swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Diolch yn fawr ichi.

ac yr wyf yn sicr y bydd holl Aelodau'r Cynulliad yn croesawu hyn fel newyddion da. Hyfrydwch mawr i mi yw dweud wrth yr Aelodau fod y Cynulliad wedi ei achredu'n Fuddsoddwr mewn Pobl. Mae'n ganlyniad i lawer iawn o waith gan swyddogion y Swyddfa Gymreig, swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn hyn, dros flynyddoedd lawer. Mae cydnabyddiaeth yn Fuddsoddwr mewn Pobl yn dangos bod gwasanaeth sifil y Cynulliad yn rhoi blaenoriaeth i hyfforddi a datblygu staff a'i fod wedi sefydlu strwythurau er mwyn cyflawni hynny'n effeithiol. Mae statws uchel i'r wobwr hon mewn diwydiant. Yr wyf wrth fy modd y gallwn ni fel Aelodau o'r Cynulliad, wrth bregethu pwysigrwydd hyfforddiant, wneud hynny gan wybod yn sicr ein bod yn perthyn i sefydliad sydd o ddifrif ynghylch hyfforddi ei staff ei hun ac yn cyflawni hynny'n ymarferol.

Talaf deyrnged i'r Ysgrifennydd Parhaol, Jon Shortridge, a'i gydweithwyr, am eu camp eithriadol. Nid yw trafodaeth ddemocrataidd ond yn un rhan o broses Llywodraeth. Mae cyflawni polisi yn dibynnu ar swyddogion. Mae eu cyfraniad y tu ôl i'r llenni gan amlaf, ond hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i gofnodi fy ngwerthfawrogiad am eu holl waith. Hyderaf y bydd yr holl Aelodau'n cytuno bod gweision sifil y Cynulliad wedi ymdopi â chyfnod o newid aruthrol yn y cyfnod byr ers inni ddod i fodolaeth, sydd wedi rhoi mwy o bleser iddynt ond mwy o bwysau hefyd. Hyfrydwch i mi yw bod y cyhoeddiad hwn yn digwydd ar yr adeg hon, pan mae llawer iawn eto i'w gyflawni wrth ddatblygu hyfforddiant a medrau ein gweision sifil. Mae'n golygu ein bod yn cychwyn ar sylfaen gadarn.

The Presiding Officer: As Presiding Officer, I second the First Secretary's words. I also endorse the tribute to Jon Shortridge and the officials for the work that was done in establishing the Assembly and in maintaining the work of the Office of the Presiding Officer and the offices of the Government of Wales. Thank you very much.

2:39 p.m.

Datganiad Busnes Business Statement

The Business Secretary (Andrew Davies): The details of the next three weeks' Plenary business are on the Chamberweb. I point out that, during the party political conference season, we will not meet in Plenary on Tuesday and Wednesday afternoons. Instead, all-day Plenaries will be held on Thursdays for the next three weeks. Plenary on 23 September will centre mostly on local government, and Assembly questions will be taken by Rhodri Morgan and Edwina Hart. The Plenary on 30 September will include a debate on partnership with business and, as I promised before the recess, there will also be an opportunity for Members to discuss the legislation made over the summer. Assembly questions on that day will be taken by Jane Hutt and Tom Middlehurst. The Plenary on 7 October will include a debate on the voluntary sector and on the NHS. Questions will be taken by Rosemary Butler and Christine Gwyther.

Arrangements will be made to place the outline timetable for the next three months of Plenary meetings, Committee meetings, political party meetings and recesses on the intranet. I bring your attention to the following: Subject Committees will continue to meet on Wednesday mornings every two weeks, starting tomorrow with the Under-16 Education Committee, the Economic Development Committee and the Agriculture and Rural Development Committee. The Post-16 Education and Training Committee, the Environment and Local Government Committee and the Health and Social Services Committee will meet the following Wednesday, 30 September. The Business Committee and the Legislation Committee will meet on Tuesday mornings, as usual. Time has been set aside for political party meetings on Tuesday mornings and during lunchtime. The other Committees will usually meet on Thursdays. The First Secretary will continue to take Assembly questions on Tuesdays, and Assembly Secretary questions

Y Trefnydd (Andrew Davies): Mae manylion busnes Cyfarfodydd Llawn y tair wythnos nesaf ar We'r Siambr. Yr wyf yn tynnu sylw at y ffaith na fyddwn yn cyfarfod mewn Cyfarfod Llawn ar brynhawniau Mawrth a Mercher yn ystod tymor cynadleddau'r pleidiau gwleidyddol. Yn lle hynny, cynhelir Cyfarfodydd Llawn ar ddydd Iau dros y tair wythnos nesaf. Bydd y Cyfarfod Llawn ar 23 Medi yn canolbwyntio'n bennaf ar lywodraeth leol, a derbynnir cwestiynau'r Cynulliad gan Rhodri Morgan ac Edwina Hart. Bydd y Cyfarfod Llawn ar 30 Medi yn cynnwys dadl ar bartneriaeth â busnes ac, fel yr addewais cyn y toriad, bydd cyfle hefyd i'r Aelodau drafod y ddeddfwriaeth a wnaethpwyd dros yr haf. Derbynnir cwestiynau'r Cynulliad ar y diwrnod hwnnw gan Jane Hutt a Tom Middlehurst. Bydd y Cyfarfod Llawn ar 7 Hydref yn cynnwys dadl ar y sector gwirfoddol ac ar yr NHS. Derbynnir cwestiynau gan Rosemary Butler a Christine Gwyther.

Gwneir trefniadau i roi'r amserlen fras ar gyfer y Cyfarfodydd Llawn, cyfarfodydd y Pwyllgorau, cyfarfodydd y pleidiau gwleidyddol a thoriadau dros y tri mis nesaf ar y fewnwyd. Tynnaf eich sylw at y canlynol: bydd y Pwyllgorau Pwnc yn parhau i gyfarfod ar foreau Mercher bob yn ail wythnos, gan ddechrau yfory gyda'r Pwyllgor Addysg Cyn-16, y Pwyllgor Datblygu Economaidd a'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Bydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16, Pwyllgor yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyfarfod y dydd Mercher canlynol, 30 Medi. Bydd y Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Deddfau yn cyfarfod ar foreau Mawrth, yn ôl yr arfer. Neilltuwyd amser ar gyfer cyfarfodydd y pleidiau gwleidyddol ar foreau Mawrth ac yn ystod amser cinio. Bydd y Pwyllgorau eraill yn cyfarfod ar ddydd Iau fel arfer. Bydd y Prif Ysgrifennydd yn parhau i dderbyn cwestiynau'r Cynulliad ar ddydd Mawrth, a derbynnir cwestiynau gan

will be taken on Wednesdays. Regional Committees are scheduled to be held on Fridays. That is the forward look over three months.

Michael German: I wish to ask the Business Secretary a simple question. In Plenary on 23 September, we have a statement on the millennium date. Is that a surprise?

The Presiding Officer: Under which Standing Order are you asking a question to the Business Secretary?

Andrew Davies: I do not want to set a precedent—

The Presiding Officer: You do not need to answer Michael German's question.

Andrew Davies: It might be helpful for Members to know that it is a statement by Edwina Hart about preparations for the millennium bug.

The Presiding Officer: I will take that as a point of information. We will now vote on the business statement.

*A vote was held by show of hands.
Business statement adopted.*

Ysgrifenyddion y Cynulliad ar ddydd Mercher. Trefnwyd i gynnal y Pwyllgorau Rhanbarth ar ddydd Gwener. Dyna'r rhagolwg tri mis.

Michael German: Hoffwn ofyn cwestiwn syml i'r Trefnydd. Yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Medi, mae gennym ddatganiad ar ddyddiad y mileniwm. A yw hynny'n rhywbeth annisgwyl?

Y Llywydd: O dan ba Reol Sefydlog yr ydych yn gofyn cwestiwn i'r Trefnydd?

Andrew Davies: Nid wyf am osod cynsail—

Y Llywydd: Nid oes angen ichi ateb cwestiwn Michael German.

Andrew Davies: Gallai fod o gymorth i'r Aelodau wybod ei fod yn ddatganiad gan Edwina Hart am y paratodau ar gyfer byg y mileniwm.

Y Llywydd: Fe dderbyniaf hynny fel pwynt o wybodaeth. Pleidleisiwn yn awr ar y datganiad busnes.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y datganiad busnes.*

Dadl Frys Emergency Debate

Yr Argyfwng mewn Amaethyddiaeth The Crisis in Agriculture

The Presiding Officer: I have accepted a request by Nick Bourne to propose to the Assembly that it considers immediately, under Standing Order No. 6.9, a matter of urgent public importance. I will allow three minutes for Nick Bourne to propose a procedural motion and three minutes for Christine Gwyther, the Assembly Secretary for Agriculture and Rural Development, to reply. I emphasise that this is a procedural motion because we have not been along this road before. There will then be a vote on that procedural motion. If the vote is in favour, I have decided, under that Standing Order, that the debate will take place during this meeting.

Y Llywydd: Yr wyf wedi derbyn cais gan Nick Bourne i gynnig i'r Cynulliad ei fod yn ystyried ar unwaith, o dan Reol Sefydlog Rhif 6.9, fater brys sydd o bwys cyhoeddus. Caniatâf dri munud i Nick Bourne roi cynnig trefniadol a thri munud i Christine Gwyther, Ysgrifennydd y Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, roi ateb. Pwysleisiaf mai cynnig trefniadol yw hwn oherwydd ni fuom ar hyd y llwybr hwn o'r blaen. Wedyn bydd pleidlais ar y cynnig trefniadol hwnnw. Os bydd y bleidlais o blaid, yr wyf wedi penderfynu, o dan y Rheol Sefydlog honno, y bydd y ddadl yn digwydd yn ystod y cyfarfod hwn.

Nick Bourne: I propose that

the Assembly holds an emergency debate on the crisis in agriculture.

I am grateful for the opportunity to propose that we debate the emergency motion that the Assembly takes urgent action to help Welsh farmers in rural communities, in light of the crisis faced by the agriculture industry. As is well known, the three opposition parties have called for an early return of the Assembly. I refer to the Conservative Party, the Liberal Democrats and the John Marek party. Imagine the Conservative Party's surprise when the political wing of the Labour Party, namely Plaid Cymru, also lent support to this motion to recall the Assembly. A clear majority of Assembly Members supported a recall. However, the First Secretary refused. Not surprisingly, he could find no time to protect the farmers. He was too busy protecting the Secretary for Agriculture and Rural Development. He may talk inclusively, but he acts exclusively. We saw that in his belated talks with Plaid Cymru to the exclusion of other parties.

We did not want to recall the Assembly just for the sake of it. It was not to let off hot air, as the Secretary for Agriculture and Rural Development suggested, or to let off steam, as the First Secretary suggested. It was in order to impress upon the Secretary for Agriculture and Rural Development that there is a need for action. We have had no action, instead we have had her familiar routine. We also saw that with the Milk Marque report. Her routine starts with listening very carefully to farmers' unions, giving them equal amounts of tea and sympathy and promising to put their points of view to the Minister of Agriculture in London. Then she catches the train up to London. Off she goes, empty begging bowl in one hand, day-return to London in the other. She returns the same day, empty begging bowl in one hand, First Secretary, and day-return to London in the other.

The Presiding Officer: Order. You are

Nick Bourne: Cynigiau fod

y Cynulliad yn cynnal dadl frys ar yr argyfwng mewn amaethyddiaeth.

Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gynnig ein bod yn trafod y cynnig brys bod y Cynulliad yn cymryd camau brys i helpu ffermwyr mewn cymunedau gwledig yng Nghymru, yng ngoleuni'r argyfwng a wynebier gan y diwydiant amaeth. Fel y gwyddys yn dda, mae'r tair gwrthblaid wedi galw am ailddechrau'r Cynulliad yn gynnar. Cyfeiriai at y Blaid Geidwadol, y Democratiaid Rhyddfrydol a phlaid John Marek. Gallwch ddychmygu syndod y Blaid Geidwadol pan fu i adain wleidyddol y Blaid Lafur, sef Plaid Cymru, hefyd gefnogi'r cynnig hwn i alw'r Cynulliad yn ôl. Yr oedd mwyafrif clir o Aelodau'r Cynulliad yn cefnogi ei ailalw. Fodd bynnag, gwrthododd y Prif Ysgrifennydd. Nid oedd yn destun syndod ei fod yn methu canfod amser i amddiffyn y ffermwyr. Yr oedd yn rhy brysur yn amddiffyn yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Efallai ei fod yn siarad yn gynhwysol, ond mae'n gweithredu mewn modd caeëdig. Gwelsom hynny yn ei drafodaethau hwyr â Phlaid Cymru ar draul pleidiau eraill.

Nid oeddem am ailalw'r Cynulliad er ei fwyn ei hun. Nid malu awyr oedd y bwriad, fel yr awgrymodd yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, na bwrw ein boliau, fel yr awgrymodd y Prif Ysgrifennydd. Y bwriad oedd rhoi ar ddeall i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig fod angen gweithredu. Ni chawsom weithredu, yn lle hynny cawsom ei hact arferol. Gwelsom hynny hefyd gyda'r adroddiad ar Milk Marque. Mae ei hact yn dechrau drwy wrando'n ofalus iawn ar undebau'r ffermwyr, gan roi'r un mesur o baned a chydymdeimlad i'r ddau ac addo cyflwyno eu safbwyntiau i'r Gweinidog Amaethyddiaeth yn Llundain. Yna bydd yn dal y trê'n i Lundain. I ffwrdd â hi, â'i phowlen gardod wag yn un llaw, a'i thocyn dwyffordd undydd i Lundain yn y llall.

Y Llywydd: Trefn. Yr ydych i fod yn rhoi

supposed to be moving a procedural motion on whether the Assembly has a debate on the crisis in agriculture. Instead, you are trying to make a speech in a debate on your motion. We must first take the procedural motion under Standing Order No. 6.9. I will ask Christine Gwyther to respond to the procedural motion. Only if there is a vote in favour of the procedural motion will a debate take place during this Plenary.

Nick Bourne: I appreciate the Presiding Officer's point. However, I am simply seeking to impress why it is necessary to talk about agriculture now because we were denied the opportunity in the recess. Had there been any action taken in the recess, we would not want this debate. The only action taken was Christine Gwyther's visit to London to speak to Nick Brown on the basis that he might do something because he is in the same party as her. She returned and that has not happened. She then went into her, 'It's not me, guv, it's the Labour Party in Westminster' routine. She cannot have it both ways. If it is the Labour Party in Westminster, we expect some answers from the Labour Party in Cardiff.

During the course of the debate that I hope we will have, the action that must be taken will be outlined by our agriculture spokesman, Peter Rogers, and our finance spokesman, Glyn Davies, two farmers who fully understand the crisis. I do not intend to do that in these three minutes. We have had a deafening silence from the Labour Party on the worst crisis in agriculture this century. There may be jobs that Christine Gwyther could do but there has been little evidence that she can do this one. At the fifty-ninth minute of the eleventh hour, I hope she can prove us wrong. If she does, we will withdraw the censure motion that we have tabled.

The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther): Unlike Nick, I do not have a speech prepared for this. I overwhelmingly support Nick's request for a debate on agriculture. Only in a constitutional crisis would it be necessary to recall the Assembly during recess. The problems in agriculture are problems for Wales and the United Kingdom. We are

cynnig trefniadol gerbron ynghylch a fydd y Cynulliad yn cynnal dadl ar yr argyfwng mewn amaethyddiaeth. Yn lle hynny, yr ydych yn ceisio gwneud araith mewn dadl ar eich cynnig. Rhaid inni yn gyntaf drafod y cynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog Rhif 6.9. Byddaf yn gofyn i Christine Gwyther ymateb i'r cynnig trefniadol. Dim ond os ceir pleidlais o blaid y cynnig trefniadol y bydd dadl yn ystod y Cyfarfod Llawn hwn.

Nick Bourne: Gwerthfawrogaf bwynt y Llywydd. Fodd bynnag, y cyfan y ceisiaf ei wneud yw pwysleisio pam y mae angen trafod amaethyddiaeth yn awr oherwydd fe wadwyd y cyfle i ni yn ystod y toriad. Pe bai camau wedi eu cymryd yn y toriad, ni fyddem am gael y ddadl hon. Yr unig gamau a gymerwyd oedd ymweliad Christine Gwyther â Llundain i siarad â Nick Brown ar y sail y gallai wneud rhywbeth am ei fod yn yr un blaid â hi. Dychwelodd ac nid yw hynny wedi digwydd. Wedyn dechreuodd ei hact 'Nid fi sydd ar fai ond y Blaid Lafur yn San Steffan'. Nid oes modd iddi ei chael hi bob ffordd. Os mai'r Blaid Lafur yn San Steffan sydd ar fai, yr ydym yn disgwyl atebion gan y Blaid Lafur yng Nghaerdydd.

Yn ystod y ddadl y gobeithiaf y byddwn yn ei chael, amlinellir y camau y bydd yn rhaid eu cymryd gan ein llefarydd ar amaethyddiaeth, Peter Rogers, a'n llefarydd ar gyllid, Glyn Davies, y ddau yn ffermwyr sydd yn llwyr ddeall yr argyfwng. Ni fwriadaf wneud hynny yn y tri munud hyn. Cawsom ddistawrwydd llethol o du'r Blaid Lafur ar yr argyfwng gwaethaf mewn amaethyddiaeth yn y ganrif hon. Mae'n bosibl bod yna swyddi y gallai Christine Gwyther eu cyflawni ond prin fu'r dystiolaeth ei bod yn gallu gwneud hon. Ar y munud olaf ond un o'r unfed awr ar ddeg, gobeithiaf y gall brofi ein bod yn anghywir. Os gwna hynny, fe dynnwn yn ôl y cynnig o gerydd a gyflwynwyd gennym.

Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther): Yn wahanol i Nick, nid oes gennyf araith yn barod ar gyfer hyn. Yr wyf yn llwyr gefnogi cais Nick am ddadl ar amaethyddiaeth. Dim ond mewn argyfwng cyfansoddiadol y byddai angen galw'r Cynulliad yn ôl yn ystod toriad. Mae'r problemau mewn amaethyddiaeth yn broblemau i Gymru ac i'r Deyrnas Unedig.

addressing them with short, medium and long-term measures. I would be delighted to answer any questions from the floor during the debate and I look forward to a meaningful and good discussion. I support the motion and I hope you will all vote for it.

The Presiding Officer: I am grateful to Christine Gwyther for her understanding of Standing Orders in these matters. I am satisfied that this matter warrants the Assembly's immediate attention. Therefore, I ask for a show of hands of all those in favour of a debate on the crisis facing farmers in Wales.

*A vote was held by show of hands.
Procedural motion adopted.*

2:49 p.m.

The Presiding Officer: A debate on the farming crisis will follow. I will allow 60 minutes for this debate. I call on Peter Rogers to propose the motion for the emergency debate.

Peter Rogers: I propose that

the Assembly takes urgent action to help Welsh farmers and rural communities in the light of the crisis being faced by the agriculture industry in Wales.

Agriculture in crisis: I have obviously declared an interest in this motion. I am a farmer and all I ever wanted to do in life was to be a farmer. I farm with my wife and son. I lamb 1,400 ewes and rear in fattened cattle. Therefore, I have a good idea of what the problems are.

I move this motion today so that we can urgently introduce a scheme to alleviate the number of unwanted calves and ewes on farms. We must have a ewe disposal scheme and a reintroduction of the calf processing aid scheme immediately. Farmers want the ability to trade, not aid. They are fed up with asking for money. They want fair conditions. We keep talking about financial aid. That was the problem with Dr Jack Cunningham, who

Yr ydym yn ymdrin â hwy drwy fesurau tymor byr, canolig a hir. Byddwn wrth fy modd yn ateb unrhyw gwestiynau o'r llawr yn ystod y ddadl ac edrychaf ymlaen at drafodaeth dda ac ystyrlon. Cefnogaf y cynnig a gobeithiaf y byddwch oll yn pleidleisio drosto.

Y Llywydd: Yr wyf yn ddiolchgar i Christine Gwyther am ei dealltwriaeth o'r Rheolau Sefydlog yn y materion hyn. Yr wyf yn sicr bod y mater hwn yn cyfiawnhau sylw ar unwaith gan y Cynulliad. Felly, gofynnaf i bawb sydd o blaid dadl ar yr argyfwng sydd yn wynebu ffermwyr yng Nghymru ddangos eu dwylo.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig trefniadol.*

Y Llywydd: Bydd dadl ar yr argyfwng amaethyddol yn dilyn. Caniatâf 60 munud i'r ddadl hon. Galwaf ar Peter Rogers i roi'r cynnig dros y ddadl frys.

Peter Rogers: Cynigiaf fod

y Cynulliad yn cymryd camau brys i helpu ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru yng ngoleuni'r argyfwng a wynebir gan amaethyddiaeth yng Nghymru.

Amaethyddiaeth mewn argyfwng: yr wyf wrth gwrs wedi datgan diddordeb yn y cynnig hwn. Ffermwr ydwyf a bod yn ffermwr oedd yr unig beth y dymunwn ei wneud erioed. Yr wyf yn ffermio gyda fy ngwraig a'm mab. Byddaf yn magu 1,400 o famogiaid i wyna ac yn cymryd da tewion i'w codi. Felly, mae gennyf syniad da o'r problemau.

Rhoddaf y cynnig hwn gerbron heddiw fel y gallwn gyflwyno cynllun ar fyrder i liniaru nifer y lloi a'r mamogiaid diangen ar ffermydd. Rhaid inni gael cynllun gwaredu mamogiaid ac ailgyflwyno'r cynllun cymorth prosesu lloi ar unwaith. Mae ffermwyr am gael y gallu i fasnachu, nid cymorth. Cawsant lond bol ar ofyn am arian. Maent am gael amodau teg. Yr ydym yn sôn o hyd am gymorth ariannol. Dyna oedd y problem

kept offering more money. That was not the point. The point was to have a level playing field to market and sell their produce. We must look to alleviate the problems that are happening now, yesterday and today until the ewes and the calves can be sold.

The calf processing aid scheme was to be in force until the end of November. That would have taken care of the main calving of this year. However, the scheme was brought to an end a month ago. You have seen the catastrophe that has happened with the calves. There would be a great opportunity for calf export if the BSE crisis did not exist. We still cannot trade with our European neighbours, where there is a big demand. In the dairy sector there are many cows, particularly from the Holstein breed, which are of no use to the industry. The calf processing aid scheme encouraged much crossing with the Holstein breed because, like the French and others, farmers knew they were part of the scheme and would be paid for them. We have already seen signs in the latest artificial insemination figures that the dairy farmers understand that next year there will not be a calf processing aid scheme. We have seen the use of more beef breeds and more emphasis on the pure British Friesian. The pure British Friesian is not a bobby calf. There is a good market even in our home market for the Friesian calf. Therefore, farmers are depending on there being a future for beef next year, that we will see the export bans lifted and that markets will be available again.

The farming industry hopes that the John Pratt report on the impact of further changes to meat inspection charges and other enforcement costs will be published. This report from the Meat and Livestock Commission is already in Christine Gwyther's hands. The report is a four-month investigation into how Europe conducts its industry. In Europe, hygiene inspection is regarded as a public health matter, the cost of which is borne by the taxpayer and not by the farmer or the industry. In 15 out of 17 regions in Spain farmers are not charged at all. France, Belgium, Denmark, the Netherlands, Italy, Greece and Portugal do not operate

ynghylch Dr Jack Cunningham, a oedd yn cynnig mwy o arian o hyd. Nid dyna oedd y pwynt. Y pwynt oedd yr angen i gael chwarae teg i farchnata a gwerthu eu cynnyrch. Rhaid inni geisio lliniaru'r problemau sydd yn digwydd yn awr, ddoe a heddiw nes gellir gwerthu'r mamogiaid a'r lloi.

Yr oedd y cynllun cymorth prosesu lloi i fod mewn grym hyd ddiwedd Tachwedd. Byddai hynny wedi ymorol am y brif gyfnod lloia eleni. Fodd bynnag, terfynwyd y cynllun fis yn ôl. Gwelsoch y drychineb a ddigwyddodd gyda'r lloi. Byddai cyfle mawr i allforio lloi pe na bai'r argyfwng BSE yn bod. Yr ydym yn dal heb y gallu i fasnachu â'n cymdogion yn Ewrop, lle y mae'r galw yn fawr. Yn y sector laeth fe geir llawer o wartheg, yn enwedig o'r brîd Holstein, nad ydynt o ddefnydd i'r diwydiant. Yr oedd y cynllun cymorth prosesu lloi yn annog llawer o groesfridio â'r brîd Holstein oherwydd, fel y Ffrancwyr ac eraill, fe wyddai'r ffermwyr eu bod yn rhan o'r cynllun ac y caent eu talu amdanynt. Gwelsom arwyddion eisoes yn y ffigurau ffrwythloni artiffisial diweddaraf fod y ffermwyr laeth yn deall na fydd cynllun cymorth prosesu lloi y flwyddyn nesaf. Gwelsom ddefnyddio mwy o fridiau cig eidion a mwy o bwyslais ar fuchod Ffrisia Prydeinig pur. Nid llo gwlyb mo'r fuwch Ffrisia Brydeinig bur. Ceir marchnad dda, hyd yn oed yn y farchnad gartref, i loi Ffrisia. Felly, mae'r ffermwyr yn dibynnu ar ddyfodol i gig eidion y flwyddyn nesaf, ac ar godi'r gwaharddiadau ar allforio fel bod marchnadoedd ar gael unwaith eto.

Mae'r diwydiant amaeth yn gobeithio y cyhoeddir adroddiad John Pratt ar effaith newidiadau pellach i daliadau archwilio cig a chostau gorfodol eraill. Mae'r adroddiad hwn oddi wrth y Comisiwn Cig a Da Byw eisoes yn nwylo Christine Gwyther. Mae'r adroddiad yn ymchwiliad dros bedwar mis i'r modd y mae Ewrop yn rhedeg ei diwydiant. Yn Ewrop, ystyrir arolygaeth glanweithdra yn fater iechyd cyhoeddus, a'r trethdalwr sydd yn ysgwyddo'r gost yn hytrach na'r ffermwr neu'r diwydiant. Mewn 15 o'r 17 rhanbarth yn Sbaen ni chodir tâl ar ffermwyr o gwbl. Nid yw Ffrainc, Gwlad Belg, Denmarc, yr Iseldiroedd, yr Eidal, Gwlad

full-time veterinary supervisions. However, in some of our slaughterhouses there are more inspectors than there are slaughterers. Some of these inspectors are earning £60 an hour. That is unfair. We must look at this report and not allow it to be studied for as long as the Mergers and Monopolies Commission report on the milk industry. The matter must be brought forward so that the unfairness to the British farmer and the British slaughterhouses is seen. We have a right to compete. The First Secretary's letter, which we all received last week, upset me greatly. With his clever words he blamed the Welsh farmer for the sheep and calf crisis. That was totally unfair. He said that there is a substantial market opportunity to replace the imports of cheap foreign beef that have been sucked into the UK while the calf processing aid scheme was in operation. Imports have been sucked in because of rules and regulations that are unfair to our farmers. No meat should come into this country without full traceability, without being reared under the same standards that we use and under the same hygiene and abattoir charges and costs that we employ. Why can we not stand up for our industry like the French, Germans and the Irish? Let us start supporting our industry. We are in dire straits.

These farmers deserve a continuation of the calf processing aid scheme to get over the heavy calvings that are happening now for Christmas. They are not asking for the full amount. They have £20 per calf to cover the cost of tagging and getting rid of them from the farms. We do not want them in the system, to come back in two years' time as bad quality beef. The beef will be overproduced and of a bad quality. That is what is happening in the lamb industry.

The sheep farmers have been absolutely solid, but they want to get rid of the excess sheep on their farms by humanely destroying them. They are not asking for money for them. They know that the industry is in a mess through overproduction. They have held their hands up and said 'Give us a go, get rid of these ewes now, dispose of these ewes in a

Groeg a Phortiwgal yn gweithredu goruchwyliaeth filfeddygol lawn-amser. Fodd bynnag, mewn rhai o'n lladd-dai ni fe geir mwy o arolygwyr nag o laddwyr. Mae rhai o'r arolygwyr hyn yn ennill £60 yr awr. Mae hynny'n annheg. Rhaid inni ystyried yr adroddiad hwn a pheidio â gadael iddo gael ei astudio cyn hwyed ag adroddiad y Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau ar y diwydiant llaeth. Rhaid dod â'r mater ymlaen fel y gwelir yr annhegwch i ffermwyr Prydain a lladd-dai Prydain. Mae gennym hawl i gystadlu. Mae llythyr y Prif Ysgrifennydd, a dderbyniwyd gan bob un ohonom yr wythnos diwethaf, wedi fy siomi'n fawr. Gyda'i eiriau celfydd, rhoddodd y bai ar ffermwyr Cymru am yr argyfwng defaid a lloi. Yr oedd hynny'n gwbl annheg. Dywedasoeh fod cyfle helaeth yn y farchnad i ddisodli allforion o gig eidion tramor rhad sydd wedi eu sugno i'r DU tra oedd y cynllun cymorth prosesu lloi yn weithredol. Mae mewnforion wedi eu sugno i mewn oherwydd rheolau a rheoliadau sydd yn annheg â'n ffermwyr ni. Ni ddylai cig ddod i mewn i'r wlad hon heb olrheiniadwyedd llawn, heb ei fagu yn ôl yr un safonau ag a ddefnyddiwn ni ac o dan yr un taliadau a chostau glanweithdra a lladd-dai ag a ddefnyddiwn ni. Pam na allwn sefyll dros ein diwydiant fel y Ffrancwyr, yr Almaenwyr a'r Gwyddelod? Gadewch inni ddechrau cefnogi ein diwydiant. Yr ydym mewn trafferthion enbyd.

Mae'r ffermwyr hyn yn haeddu parhad yn y cynllun cymorth prosesu lloi er mwyn dygymod â'r nifer fawr o loi a fwir yn awr ar gyfer y Nadolig. Nid ydynt yn gofyn am y swm llawn. Maent wedi derbyn £20 y llo i dalu am gost tagio a chael gwared â hwy o'r ffermydd. Nid ydym am eu cael yn y system, fel eu bod yn dod yn ôl ymhen dwy flynedd fel cig eidion o ansawdd gwael. Bydd y cig eidion wedi ei orgynhyrchu ac o ansawdd gwael. Dyna sydd yn digwydd yn y diwydiant ŵyn.

Bu'r ffermwyr defaid yn gwbl gadarn, ond maent am gael gwared â'r gormodedd o ddefaid ar eu ffermydd drwy eu difa'n ddi-boen. Nid ydynt yn gofyn arian amdanynt. Fe wyddant fod llanastr yn y diwydiant oherwydd gorgynhyrchu. Maent wedi codi eu dwylo ac wedi dweud 'Rhowch gyfle i ni, gwaredwch y mamogiaid hyn yn awr,

one-off go.' That is legal. It is not the same as the Irish scheme, which will give money to farmers.

The ewe industry is being brought to its knees by Dr Jack Cunningham, with the implementation of that rule where he took the spinal cords out—

The First Secretary: Dear, dear.

Peter Rogers: You may well nod your head, sir. We had a trade worth £16 million a year to France, which we lost overnight, and they have other means of trading. You say in your letter that the industry was oversubscribed in 1997. It was not so in 1997. The legislation was introduced in January 1998. You will see in *The Times* today an article about Welsh farming. You will see Welsh farmers, including some of the people who took those ewes to the Royal Society for the Prevention of Cruelty to Animals a fortnight ago, telling you from the top of Snowdon that two or three years ago they were getting £20 a ewe for their draft ewes. Last year they got £10. Today they are not worth anything.

Let us take these ewes off the market. It does not matter from where the money comes. Let us take them off the market so that ewes can sell and we can start to compete again. I move this motion. We should support Welsh farmers by implementing this scheme immediately so that we can start to look at more plans for the future to help our rural areas and our farmers.

2:58 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: Croesawaf y cyfle hwn i drafod yr argyfwng sydd yn wynebu'r diwydiant amaeth yng Nghymru. Yn sicr, fe ddylai'r cyfle hwnnw fod wedi bod ar gael i ni. Gadewch i ni fod yn glir ynglŷn ag un peth. Nid oes diben inni sôn am bethau na allwn eu cyflawni yn ddeddfwriaethol, yn ariannol nac yn ymarferol. Byddem yn codi gobeithion pobl ac yna'n gorfod esbonio na allem gyflawni ein haddewidion. Yr wyf yn cytuno'n llwyr ag ysbryd y cynnig sydd wedi

lladdwch y mamogiaid hyn unwaith ac am byth.' Mae hynny'n gyfreithlon. Nid yw'r un fath â'r cynllun yn Iwerddon, a fydd yn rhoi arian i ffermwyr.

Mae'r diwydiant mamogiaid yn cael ei ysigo gan Dr Jack Cunningham, drwy weithredu'r rheol honno lle'r oedd yn tynnu llinyn y cefn—

Y Prif Ysgrifennydd: Diar, diar.

Peter Rogers: Mae'n ddigon hawdd i chi nodio'ch pen, syr. Yr oedd gennym fasnach gwerth £16 miliwn y flwyddyn â Ffrainc, a gollwyd gennym dros nos, ac mae ganddynt hwy ddulliau masnachu eraill. Fe ddywedwch yn eich llythyr fod y diwydiant â gormod o gynhyrchwyr yn 1997. Nid oedd hynny'n wir yn 1997. Cyflwynwyd y ddeddfwriaeth yn Ionawr 1998. Fe welwch erthygl yn *The Times* heddiw am ffermio yng Nghymru. Fe welwch ffermwyr Cymru, ac yn eu plith rai a aeth â'r defaid hynny at y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid bythefnos yn ôl, yn dweud wrthyich o gopa'r Wyddfa eu bod ddwy neu dair blynedd yn ôl yn cael £20 yr un am eu mamogiaid didol. Llynedd cawsant £10. Heddiw nid ydynt yn werth dim.

Gadewch inni ddod â'r mamogiaid hyn oddi ar y farchnad. Nid yw o bwys o ble y daw'r arian. Gadewch inni ddod â hwy oddi ar y farchnad fel y gellir gwerthu mamogiaid eto ac y gallwn ddechrau cystadlu eto. Rhoddaf y cynnig hwn gerbron. Dylem gefnogi ffermwyr Cymru drwy weithredu'r cynllun hwn ar unwaith fel y gallwn ddechrau ystyried rhagor o gynlluniau at y dyfodol i helpu ein hardaloedd gwledig a'n ffermwyr.

Rhodri Glyn Thomas: I welcome this opportunity to discuss the crisis facing the agriculture industry in Wales. Certainly, this opportunity should have been available to us. Let us be clear about one thing. There is no point talking about things that we cannot fulfil legislatively, financially nor practically. We would raise people's hopes and then have to explain that we could not fulfil our promises. I agree fully with the spirit of the motion that has been proposed. Plaid Cymru

ei gyflwyno. Mae Plaid Cymru wedi cwyno ers rhai misoedd nad yw'r Llywodraethau Llafur yng Nghaerdydd a San Steffan wedi bod yn ymwybodol o'r argyfwng sydd yn wynebu'r diwydiant amaeth. Dywedasom yn glir ar y dechrau ein bod yn siomedig ym mhenodiad yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Yr oeddem yn siomedig oherwydd nad oedd ganddi'r profiad na'r cefndir yn y diwydiant amaeth a fyddai'n caniatáu iddi ddod yn ymwybodol yn gyflym o'r argyfwng a wynebai'r diwydiant. Dywedasom fod y penodiad yn un anffodus ac ansensitif ac y dylai'r Prif Ysgrifennydd ei ailystyried. Dywedasom y dylai'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig hefyd ystyried ei sefyllfa yn ddwys oherwydd bod yr argyfwng hwn yn datblygu. Nid wyf finnau'n cael unrhyw bleser wrth ddatgan ddau fis yn ddiweddarach ein bod yng nghanol yr union argyfwng hwnnw. Dywedasom wrth y Llywodraeth am weithredu y pryd hwnnw ond ni wnaeth hynny. Mae wedi cael digon o gyfle i weithredu ar y materion hyn. Bu Cynog Dafis a minnau gyda dirprwyaeth o'r NFU a'r FUW yn San Steffan yn gweld Nick Brown ganol mis Gorffennaf. Esboniwyd yn glir wrtho y problemau a wynebai'r sector llaeth a'r sector defaid yng Nghymru. Dywedwyd wrth Nick Brown fod ei benderfyniad ef a Stephen Byers ynglŷn ag ymchwiliad y Comisiwn Monopoliau a Chydsoddiadau i Milk Marque yn mynd i greu problemau dybryd o fewn y sector llaeth yng Nghymru. Dywedodd yntau nad oedd yn fodlon ailystyried.

Dywedwyd wrtho y byddai rhoi terfyn ar y cynllun cymorth prosesu lloi yn creu problemau enfawr i ffermwyr yng Nghymru. Dywedodd yntau ei fod wedi ymestyn y cynllun hwnnw ddwywaith ac nad oedd modd iddo wneud mwy yn ei gylch.

Gofynnais iddo beth yn union yr oedd ef a'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud ynglŷn â'r argyfwng gwirioneddol hwn sydd yn wynebu'r diwydiant amaeth. Dywedodd na allai wneud dim byd.

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda'r undebau amaethyddol ac fe luniwyd cynnig ar y lloi a'r hen ddefaid. Chwe wythnos yn ôl cyfarfu Ieuan Wyn Jones a minnau â

has been complaining for several months that the Labour Governments in Cardiff and Westminster have not been aware of the crisis that is facing the agriculture industry. We said clearly at the beginning that we were disappointed in the appointment of the Secretary for Agriculture and Rural Development. We were disappointed because she did not have the experience and background in the agriculture industry that would have allowed her to become aware swiftly of the crisis facing the industry. We said that it was an unfortunate and insensitive appointment and that the First Secretary should reconsider it. We said also that the Secretary for Agriculture and Rural Development should seriously consider her position in view of this impending crisis. It gives me no pleasure two months later to state that we are now in the middle of that crisis. We told the Government to act at the time but it did not do so. It has had plenty of opportunities to act on these matters. Cynog Dafis and myself accompanied a deputation from the NFU and the FUW to Westminster in mid July to see Nick Brown. We explained clearly to him the problems facing the dairy and sheep sectors in Wales. Nick Brown was told that his and Stephen Byers's decision on the Monopolies and Mergers Commission's inquiry into Milk Marque would create serious problems in the dairy sector in Wales. He replied that he was not prepared to reconsider.

He was told that ending the calf processing aid scheme would create massive problems for farmers in Wales. He said that he had already extended the scheme twice and that he could not do any more about it.

I asked him what exactly he and the Government intended to do about this very real crisis facing the agriculture industry. He said that he could do nothing.

A series of meetings was held with the agriculture unions and a proposal drawn up on calves and old ewes. Ieuan Wyn Jones and I met representatives from the NFU six

chynrychiolwyr yr NFU ac fe gyflwynwyd y cynlluniau hyn i'r Cynulliad ac i Nick Brown. Yn ystod y chwe wythnos hynny ni weithredwyd y cynlluniau.

Dyna yw ein beirniadaeth ni o'r Llywodraeth. Caniatawyd i'r argyfwng hwn ddatblygu cyn i'r Llywodraeth ddechrau ymateb. O wrando ar ddadleuon Nick Brown a Peter Rogers ar ran y Ceidwadwyr, yr argraff a gawsom oedd nad oedd unrhyw broblemau yn y diwydiant amaeth cyn etholiad 1997. Datblygodd yr holl broblemau sydd wedi tansilio'r diwydiant amaeth yn ystod ac ar ôl yr etholiad hwnnw. Yr oedd problemau dybryd yn bodoli o fewn y diwydiant amaeth oherwydd methiant y Llywodraeth Geidwadol i wneud unrhyw beth i gefnogi amaethyddiaeth yng Nghymru ac ym Mhrydain. Nid oes arnom angen gwersi gan y Blaid Doriaidd ynglŷn â gweithredu ym maes amaethyddiaeth. Methiant oeddent hwy fel Llywodraeth ac nid oes ganddynt hawl i ddweud wrth eraill y dylent dderbyn y problemau a grewyd i raddau helaeth gan eu Llywodraeth hwy eu hunain. Beth y maent yn ei wneud wrth gyflwyno mesurau gerbron—

David Davies: There were and have been problems for a number of years, but at least the previous Government did its best to try and solve some of these problems. We have been asking for a continuation of the mechanisms put into place by the previous Government to try and protect agriculture. What is the point of giving us a history lesson about what the last Government did? We should be using this precious time to discuss what we intend to do for farmers today.

Rhodri Glyn Thomas: My history lesson lasted about 45 seconds. I then talked about the motion proposed today.

Dychwelaf at y cynnig hwnnw. Beth ddywed y cynnig hwnnw? Fod angen i'r Cynulliad hwn gymryd camau. Pa fath o gamau? Camau brys. Beth yw'r manylion a beth yn union yr oedd Peter Rogers yn sôn amdano? Yr unig bethau y mae ef wedi sôn amdanynt a chyfeirio atynt yw'r hyn a gyflwynodd Ieuan Wyn Jones a minnau i'r Cynulliad ac i Nick Brown chwe wythnos yn ôl. Hynny yw, cynllun cymorth prosesu lloi nad yw'n barhad o'r cynllun presennol ond yn gynllun

weeks ago and those schemes were presented to Nick Brown and to the Assembly. During those six weeks the schemes have not been implemented.

That is our criticism of the Government. This crisis was allowed to develop before the Government began to respond. Listening to Nick Bourne and Peter Rogers's arguments on behalf of the Conservatives, we were given the impression that the agriculture industry had no problems prior to the 1997 election. It was during and after that election that all the problems that have undermined the agriculture industry developed. There were terrible problems in the agriculture industry because of the failure of the Conservative Government to do anything to support agriculture in Wales and in Britain. We do not need lessons from the Tory Party about action on agriculture. They failed in Government, and they have no right to tell others to accept the problems created to a large extent by their own Government. What do they do when introducing measures—

It is concerned with the prudent use of natural resources while maintaining economic growth and employment. Green tourism is particularly important to large parts of Wales if it is promoted properly. Therefore, there is a need to co-ordinate and monitor the work of all these Committees. It is not a job which can be done effectively by one Assembly Secretary already wrestling with huge problems in Welsh agriculture.

There is a massive inconsistency in Standing Orders as they are presently drafted. Section 120 of the Government of Wales Act imposes a duty on the Assembly to take account of equal opportunities in its programmes and actions. As a direct consequence, we have a Committee on Equality of Opportunity whose work highlights the importance of those policies to the Assembly and to social inclusion, which is another important cross-cutting issue.

Is sustainable development the poor relation? Is it so unimportant to the Assembly that we believe we can implement it without the need for a cross-cutting committee? We do not think that we can promote equal opportunities in any other way. There are good reasons why we have a Committee on Equality of Opportunity. Those reasons apply equally to sustainable development. The document before us, entitled 'Statement of Principles', is bland and does nothing to promote confidence that the scheme that eventually comes before us will be effective and all-encompassing. However, it does state some important principles of process that the work of making and implementing the scheme should be conducted as openly as possible, that consultation should be wide, genuine and proactive, that Assembly Members should have the opportunity to be involved, that sustainable development should become part of the mainstream of the Assembly's work and that the Assembly should take every opportunity to work with others in promoting sustainable development and should be open at all times to outside input.

Those are compelling arguments for a cross-cutting committee. Those principles cannot easily be met when that scheme is being

Mae'n ymwneud â'r defnydd doeth ar adnoddau naturiol gan gynnal twf economaidd a chyflogaeth. Mae twristiaeth werdd yn arbennig o bwysig i rannau helaeth o Gymru os caiff ei hyrwyddo'n iawn. Felly, mae angen cydlynu a monitro gwaith yr holl bwyllgorau hyn. Nid yw'n waith y gellir ei wneud yn effeithiol gan un Ysgrifennydd Cynulliad sydd eisoes yn ymgodymu â phroblemau anferth yn amaethyddiaeth Cymru.

Mae anghysondeb enfawr yn y Rheolau Sefydlog yn eu drafft presennol. Mae Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru yn rhoi dyletswydd ar y Cynulliad i roi ystyriaeth i gyfle cyfartal yn ei raglenni a'i weithredoedd. O ganlyniad uniongyrchol i hynny, mae gennym Bwyllgor Cyfle Cyfartal sydd drwy ei waith yn tynnu sylw at bwysigrwydd y polisiau hynny i'r Cynulliad ac i gynhwysiant cymdeithasol, sydd yn fater trawsbynciol pwysig arall.

Ai datblygu cynaliadwy yw'r perthynas tlawd? A ydyw mor ddibwys i'r Cynulliad fel ein bod yn credu y gallwn ei weithredu heb yr angen am bwyllgor trawsbynciol? Nid ydym yn credu y gallwn hyrwyddo cyfle cyfartal mewn modd arall. Mae rhesymau da pam y mae gennym Bwyllgor Cyfle Cyfartal. Mae'r rhesymau hynny yr un mor gymwys i ddatblygu cynaliadwy. Mae'r ddogfen sydd o'n blaen, o'r enw 'Datganiad o Egwyddorion', yn un ddi-afael ac nid yw'n rhoi unrhyw le i hyderu y bydd y cynllun a ddaw o'n blaen yn y pen draw yn un effeithiol a hollgynhwysol. Fodd bynnag, mae'n datgan rhai egwyddorion pwysig o ran proses, sef y dylid cynnal y gwaith o wneud a gweithredu'r cynllun mewn modd mor agored â phosibl, y dylai'r ymgynghori fod yn eang, yn ddilys ac yn rhagweithiol, y dylai Aelodau'r Cynulliad gael cyfle i gymryd rhan, y dylai datblygu cynaliadwy ddod yn rhan ganolog o waith y Cynulliad ac y dylai'r Cynulliad fanteisio ar bob cyfle i weithio gydag eraill wrth hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac y dylai fod yn agored bob amser i fewnbwn o'r tu allan.

Mae'r rhain yn ddadleuon cryf dros gael pwyllgor trawsbynciol. Ni ellir cyflawni'r egwyddorion hynny'n rhwydd pan lunnir y

drawn up by a group of civil servants under the guidance of an Assembly Secretary. The work of the Subject Committee can not be effectively integrated in the process by such a structure. The idea of champions on each Committee, which has been mooted by the First Secretary in the past, is merely a sustainable development committee by another name but without the proportionality, the legitimacy, the transparency or the accountability of a formal committee. The creation of a formal sustainable development committee is the best way to ensure openness, genuine consultation, the involvement of Assembly Members and work with others outside the Assembly. It will ensure an effective all-encompassing scheme that goes to the heart of Welsh life. Without this Committee, the commitment to sustainability in the Government of Wales Act is in danger of becoming undermined and second best. We must not allow that to happen so early in the Assembly's life.

Cynog Dafis: Yr wyf yn falch o'r cyfle i gyfrannu at y ddadl bwysig hon. Mae'n resyn o beth fod amser y ddadl wedi ei gwtogi a bydd yn rhaid imi gwtogi fy sylwadau o'r herwydd. Yr wyf yn deall y rheswm dros wneud hynny ac yr oedd yn hollol briodol bod y Llywydd wedi penderfynu rhoi amser ar gyfer dadl frys ar amaethyddiaeth. Mae'n bwysig ein bod yn cael amser i ddychwelyd at y pwnc hwn yn y Cyfarfod Llawn yn fuan er mwyn mynd i'r afael â'r mater yn fanwl.

Tra'r ydym yn sôn am amaethyddiaeth, a gaf i nodi ein bod yn cefnogi'n gryf y datganiad i'r wasg y mae Cyfeillion y Ddaear wedi ei ryddhau heddiw yn galw am gryfhau'r cynllun Tir Gofal fel enghraifft dda o ddatblygu ar waith ym myd amaethyddiaeth. Mae'n gyfle i fuddsoddi rhagor o arian mewn amaethyddiaeth ar hyn o bryd, ar adeg pan fo'i angen. Yn sicr, gallai fod yn rhan bwysig o strategaeth fwyd i Gymru. Gallai fod yn offeryn pwysig mewn marchnata. Byddai'r canlyniadau amgylcheddol ac o ran creu swyddi yn fendith.

Nid oes pwnc pwysicach i'r Cynulliad ei drafod. Mae dau reswm am hynny. Yn gyntaf, mae argyfwng yr amgylchedd yn real iawn ac yn mynd i orfodi newidiadau

cynllun hwnnw gan grŵp o weision sifil o dan arweiniad Ysgrifennydd Cynulliad. Ni ellir integreiddio gwaith y Pwyllgor Pwnc yn effeithiol yn y broses drwy strwythur o'r fath. Nid yw'r syniad o gael cefnogwyr ar bob Pwyllgor, a godwyd gan y Prif Ysgrifennydd yn y gorffennol, yn ddim ond pwyllgor datblygu cynaliadwy o dan enw arall ond heb y cyfranoldeb, y dilysrwydd, y tryloywder a'r atebolrwydd sydd gan bwyllgor ffurfiol. Creu pwyllgor datblygu cynaliadwy ffurfiol yw'r ffordd orau i sicrhau gweithredu agored, ymgynghori dilys, cyfraniad Aelodau'r Cynulliad a gwaith gydag eraill y tu allan i'r Cynulliad. Bydd yn sicrhau cynllun effeithiol hollgynhwysol a fydd yn mynd at wraidd bywyd Cymru. Heb y Pwyllgor hwn, mae perygl i'r ymrwymiad i gynaliadwyedd yn Neddf Llywodraeth Cymru gael ei danseilio a dod yn beth eilradd. Rhaid inni beidio â gadael i hynny ddigwydd mor gynnar ym mywyd y Cynulliad.

Cynog Dafis: I welcome the opportunity to contribute to this important debate. It is regrettable that the time for this debate has been curtailed and I shall have to shorten my comments because of that. I understand the reason for doing so and it was totally appropriate that the Presiding Officer decided to make time for an emergency debate on agriculture. It is important that we have time to return to this subject in a Plenary soon so that we can give detailed attention to the matter.

While talking about agriculture, may I add that we strongly support the press statement that Friends of the Earth released today, calling for the strengthening of the Tir Gofal scheme as a good example of development in action in agriculture. It is an opportunity to invest more money in agriculture now, at a time when it is needed. Certainly, it could be an important part of a food strategy for Wales. It could be an important tool in marketing. The environmental and job creation consequences would be a blessing.

There is no more important subject for the Assembly to discuss. There are two reasons for this. First, the environmental crisis is very real and is going to force fundamental and

sylyfaenol a phellgyrhaeddol yn ein defnydd o adnoddau ac yn ein ffordd o ddelio â gwastraff. Bydd yn effeithio ar ein holl ddull o gynhyrchu, dosbarthu a defnyddio. Nid oes amheuaeth am hynny. Bydd y gwledydd a'r rhanbarthau sydd yn rhagweld y newid hwn yn gallu gweithredu mewn da bryd. Bydd y gwledydd a'r rhanbarthau hynny yn cael mantais gystadleuol bwysig yn ogystal â chydwybod glir.

4:09 p.m.

Yn ail, mae teimlad cyffredinol, fel y soniodd Christine Gwyther, fod cyfle i Gymru ennill y blaen yn y broses hon. Nid ydym wedi ennill y blaen eto. Mewn llawer ystyr, yr ydym ymhell ar ei hôl hi. Mae cyfle inni ennill y blaen oherwydd bod gennym fanteision naturiol a'n bod yn dechrau o'r newydd â dalen lân. Yr ydym ar fin cychwyn ar broses o ddatblygu gyda chymorth, gobeithiaf, o gronfeydd strwythurol Ewrop. O ystyried pwysigrwydd y pwnc a pha mor bellgyrhaeddol a radical fydd y broses o gyrchu at ddatblygu cynaliadwy, yr wyf yn siomedig ar y Datganiad o Egwyddorion y mae gofyn inni gymeradwyo. Mae'n gymysgedd o'r hunanamlwg, yr ystrydebol a'r *bland*. Datganiad diddrwg-didda yw hwn. Mae'n annigonol fel fframwaith neu sylfaen ar gyfer cyflawni gofynion adran berthnasol Deddf Llywodraeth Cymru.

Yr wyf yn cefnogi gwelliant Peter Black yn gryf. Yr ydym ninnau wedi bod yn pwyso am yr union beth y mae'n cyfeirio ato. Ni all Plaid Cymru gefnogi'r datganiad fel y mae, ond gyda'r gwelliant bydd hynny'n newid. Dylai'r datganiad gael ei ail-lunio. Mae'r dadleuon a gyflwynwyd gan y Prif Ysgrifennydd ac eraill yn erbyn sefydlu pwyllgor yn hollol ddi-sail. Yr unig wir ddadl yw'r un ynglŷn ag adnoddau o ran Aelodau ac amser. Mae'r ffaith bod datblygu cynaliadwy ym mhen-draw'r ciw o ran pwyllgorau llorweddol yn dangos y diffyg blaenoriaeth sydd i'r mater hwn ym meddwl y Prif Ysgrifennydd. Gobeithiaf, serch hynny, fod ei feddwl yn dal yn agored ar y mater hwn. Nid oes unrhyw berygl o *pigeonholing* fel y soniodd Christine Gwyther, wrth sefydlu pwyllgor arbennig. Mae safle ar y we yn syniad da ond nid yw'n disodli'r angen am

far-reaching changes in our use of resources and in our way of dealing with waste. It will affect the whole way in which we produce, distribute and consume. There is no doubt about that. The countries and regions that can anticipate this change can take action in plenty of time. Such countries and regions will have an important competitive advantage as well as a clear conscience.

Secondly, there is a general feeling, as Christine Gwyther mentioned, that there is an opportunity for Wales to take the lead in this process. We have not yet taken the lead. In many respects, we are lagging far behind. We have an opportunity to be at the forefront because we have natural advantages and because we start afresh with a clean slate. We are about to begin a process of development with support, we hope, from European structural funds. Considering the importance of the subject and how far-reaching and radical the process of reaching sustainable development is, I am disappointed with the Statement of Principles that we are asked to approve. It is a mixture of the self-evident, the clichéd and the bland. It is an indifferent statement. It is insufficient as a framework or foundation for meeting the requirements of the relevant section of the Government of Wales Act.

I strongly support Peter Black's amendment. We have also been pressing for exactly that to which he refers. Plaid Cymru cannot support the statement as it stands, but with the amendment that will change. The statement should be redrafted. The arguments given by the First Secretary and others against setting up a committee are completely unfounded. The only real argument is the argument regarding resources in terms of Members and time. The fact that sustainable development is at the back of the queue in terms of horizontal committees shows the lack of priority with which the First Secretary views this matter. I hope that, despite this, he still has an open mind on this matter. There is no danger of pigeonholing, as Christine Gwyther mentioned, in setting up a special committee. A website is a good idea but it does not replace the need for a process and a

broses ac am bwyllgor.

Mae problem ieithyddol yn y datganiad. Efallai y gallech chi, Mr Llywydd, dynnu sylw'r cyfieithwyr at hyn. Dywed rhif 4 yn yr egwyddorion yn Saesneg 'sustainable development should become part of the mainstream of the Assembly's work'. Mae hynny'n rhy wan. Yn Gymraeg mae'n dweud y dylai 'ddod yn rhan ganolog o waith y Cynulliad'. Mae hynny'n nes ati. Yr hyn a ddylai fod yna yw rhywbeth fel 'bydd cyrchu at ddatblygu cynaliadwy yn ganolog i holl waith y Cynulliad ac yn hydreiddio polisi ym mhob un o feysydd ei gyfrifoldeb'. Pe bai hwnnw yno byddai'n golygu rhywbeth.

Os ydym yn mynd i gymryd y pwnc hwn o ddifrif a derbyn nad oes dim byd pwysicach i'r Cynulliad na chyrchu at ddatblygu cynaliadwy, rhaid wedyn greu mecanwaith grymus i yrru'r agenda yn ei blaen. Fel Aelodau nid oes gennym syniad beth yw'r mecanwaith hwn. Deallwn fod Uned Bolisi wedi ei sefydlu gan staff y Cynulliad. Mae angen sicrhau adnoddau dynol digonol ar gyfer yr uned honno. Mae pawb sydd yn yr ystafell hon yn deall mai problem fawr y Cynulliad—ar wahan i'r pwerau cyfyngedig a'r gyllideb gyfyngedig—yw'r diffyg adnoddau dynol ac ariannol i ni wneud ein gwaith yn iawn. Sut y mae delio â hynny? Rhaid tynnu i'r Uned Bolisi arbenigedd o'r tu allan. Mae i'w gael yn y sefydliadau addysg uwch. Er enghraifft, yn Aberystwyth mae'r uned asesu impact amgylcheddol yn barod i gyfrannu ac y mae sefydliadau eraill ag arbenigedd yn y maes. Ceir arbenigedd yn yr asiantaethau cyhoeddus ac yn y mudiadau anadrannol, nid lleiaf ym myd busnes. Ar lawer ystyr mae byd busnes ar y blaen i'r gwleidyddion yn y maes hwn.

Mae angen cyfnerthu'r Uned Bolisi â grŵp bach o'r bobl fwyaf disglair yn y maes ac y mae'r rhain ar gael. Yr hyn yr wyf yn ofni yw y bydd y cynllun yr ymgynghorir yn ei gylch ym mis Tachwedd mor wlanog a llipa â'r Datganiad o Egwyddorion sydd gennym heddiw.

Mae angen gwneud hyn ar frys a gobeithiaf y gwneir ef. Yr wyf yn anfodlon fod y gwaith o

committee.

There is a linguistic problem in the statement. Perhaps, Mr Presiding Officer, you could draw the translators' attention to this. Number 4 in the English version of the principles states that 'sustainable development should become part of the mainstream of the Assembly's work'. That is too weak. In Welsh it says that 'it should become a central part of the Assembly's work'. That is better. What should be there is something like 'working towards sustainable development will be central to all the Assembly's work and will permeate policy in all areas of its responsibility'. If that was there it would mean something.

If we are to take this subject seriously and accept that there is nothing more important to the Assembly than working towards sustainable development, then it is necessary to create a powerful mechanism to drive the agenda forward. As Members we have no idea what this mechanism is. We understand that a Policy Unit has been set up by Assembly staff. There is a need to secure sufficient human resources for this unit. Everyone in this room understands that the Assembly's major problem—apart from the restricted powers and budget—is the lack of human and financial resources for us to do our work properly. How do we deal with this? We have to bring outside expertise to the Policy Unit. There is expertise in the higher education institutions. For example, the unit for assessing environmental impact in Aberystwyth is willing to contribute and there are other institutions that have expertise in this field. There is expertise in the public agencies, in the non-departmental organisations, not least in the business world. In many ways the business world is ahead of politicians in this field.

The Policy Unit needs to be strengthened with a small group of the most outstanding people in the field, and those people are available. What I fear is that the scheme that goes out for consultation in November will be as woolly and spineless as the Statement of Principles that we have today.

We must do this urgently and I hope that it will be done. I am dissatisfied that the task of

arwain datblygu cynaliadwy wedi'i roi i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Nid yw hynny'n adlewyrchiad personol arni hi ond mae eisoes yn cario llwyth gwaith mawr iawn.

Mae hyn yn parhau'r rhith fod a wnelo datblygu cynaliadwy yn bennaf â chefn gwlad ac â chadwraeth cefn gwlad. Mae datblygu cynaliadwy yr un mor berthnasol i Gwm Cynon, Bae Caerdydd a Glannau Dyfrdwy ag ydyw i Ddyffryn Aeron neu Barc Cenedlaethol Eryri. Gwell o lawer fyddai gwneud datblygu cynaliadwy yn gyfrifoldeb i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd neu Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol. Gwn fod Peter Law i fod i gynorthwyo a chefnogi. Mae gan y Pwyllgorau hyn feysydd cyfrifoldeb mwy cynhwysfawr o lawer nag un Christine Gwyther. Mae'n hanfodol bod y Pwyllgorau a'r Ysgrifenyddion hyn yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o baratoi'r cynllun a'r broses fydd yn tarddu ohono.

Cysyniad yw datblygu cynaliadwy sydd yn golygu gwneud datblygu economaidd yn gyson â chyfiawnder cymdeithasol ar y naill law a diogelu'r amgylchedd ar y llaw arall. Mae'r ddwy elfen gyntaf cyn bwysiced â'r olaf, yn enwedig yng Nghymru ar hyn o bryd, a ninnau ar drothwy cyfnod o ddatblygu na welwyd ei debyg. O ganlyniad i hynny, dylai fod gennym fesurau i alluogi a hwyluso datblygu cynaliadwy o'r math iawn i ddigwydd yn ganolog i'r cynllun. Yn rhy aml o lawer, mae cynlluniau sydd yn enghreifftiau perffaith o ddatblygu cynaliadwy yn cael eu rhwystro yn y broses gynllunio oherwydd gwrthwynebiadau amgylcheddol tybiedig. Mae dyn yn meddwl am gynlluniau ynni megis y cynllun bio-ynni eithriadol o bwysig yn y Bontnewydd ar Wy ar hyn o bryd a chynllun trydan dŵr yn Nyffryn Dyfi, sydd yn cael eu rhwystro gan ofynion afresymol Asiantaeth yr Amgylchedd.

Mae gennym fframwaith cynllunio yng Nghymru sydd mewn annibendod ers dyddiau John Redwood. Dylem, fel blaenoriaeth, greu fframwaith newydd, cryf a fydd yn galluogi datblygu cynaliadwy i ddigwydd yn ogystal â rhwystro datblygu anghynaliadwy. Mae angen fframwaith

leading sustainable development has been given to the Secretary for Agriculture and Rural Development. That is not a personal reflection on her but she is already shouldering a large burden of work.

This perpetuates the myth that sustainable development is primarily linked to rural areas and their conservation. Sustainable development is as relevant to the Cynon Valley, Cardiff Bay and Deeside as it is to the Aeron Valley or the Snowdonia National Park. It would be much better for it to have been made the responsibility of the Secretary for Economic Development or the Secretary for the Environment and Local Government. I know that Peter Law is meant to assist and support. These Committees have a much more comprehensive remit than Christine Gwyther's. It is essential that those Secretaries and those Committees play a crucial role in the work of preparing the scheme and the process that will arise from it.

Sustainable development is a concept that means making economic development consistent with social justice on the one hand and safeguarding the environment on the other. The first two elements are as important as the last one, particularly in Wales at the moment, given that we are on the threshold of a period of development the likes of which has not been seen before. As a result, we should have measures to enable and facilitate the right type of sustainable development to happen as a central part of the scheme. Far too frequently, schemes that are perfect examples of sustainable development are stopped in the planning process because of assumed environmental objections. One thinks of energy schemes such as the important bio-energy scheme in Newbridge on Wye and the hydro-electric scheme in the Dyfi Valley, which are being blocked by the unreasonable requirements of the Environment Agency.

We have a planning framework in Wales that has been in chaos since the days of John Redwood. Our priority should be to create a new, stronger framework that will enable sustainable development to happen as well as preventing unsustainable development. Wales needs a new planning framework urgently.

cynllunio newydd ar Gymru ar frys. Hebdo, fe allai Cymru yn ystod y blynyddoedd nesaf golli'r cyfle hanesyddol i ddefnyddio arian Amcan 1 at y dibenion iawn. Gellid rhwystro'r cyfan yn y broses gynllunio.

Gobeithiaf y caiff Janet Ryder a Phil Williams amser i ymhelaethu ar y materion hyn. Mae'n hanfodol bod y cyrff cyhoeddus sydd yn atebol i'r Cynulliad, sef Awdurdod Datblygu Cymru, y Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn arbennig, yn deall ei gilydd ynglŷn â sut i hwyluso datblygu cynaliadwy. Fe ddylai'r cynllun rhoi cyfarwyddyd clir iddynt ynglŷn â hynny. Mae'n hanfodol bod y cynllun yn weithredol mewn perthynas â'r cyrff cyhoeddus anadrannol i gyd.

Rhaid i'r sector gwirfoddol a gweithgarwch cymunedol fod yn chwaraewyr amlwg yn y dasg o ddod ag amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol at ei gilydd. Mae rhestr hir o esiamplau o arferion da ar gael megis y Groundwork Trust a'r mudiad Bro, sydd yn gwneud gwaith pwysig. Mae delio â gwastraff yn enghraifft ragorol o'r potensial ar gyfer hyn. Am amryw resymau, mae Cymru ar ei hôl hi'n ddifrifol mewn cymhariaeth â Lloegr yn y maes hwn, ac mae Lloegr hefyd ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill. Mae gennym broblemau difrifol o ran safleoedd tirlenwi presennol a phroblemau pellach o ran dod o hyd i safleoedd newydd.

Mae'r mudiad gwirfoddol Cylch—rhwydwaith ailgylchu cymunedol Cymru—o'r farn bod modd i 50 y cant o wastraff cartrefi gael ei ailgylchu erbyn 2005, 75 y cant erbyn 2010 a rhwng 40 a 50 y cant o wastraff diwydiannol dros yr un cyfnod gan greu miloedd o swyddi. Mae hynny'n uchelgeisiol ac mae angen edrych ar y mathau hyn o argymhellion yn ofalus. Dyma brosiect cenedlaethol perffaith ar gyfer Amcan 1 a fyddai'n lles mawr mewn ardaloedd difreintiedig yn enwedig. Gallai'r sector gymunedol frodorol chwarae rhan amlwg yn y gwaith.

Mae'n bosibl na fyddai prosiect fel hwn yn ffitio i bwyslais Awdurdod Datblygu Cymru ar uwch-dechnoleg a diwydiannau seiliedig ar wybodaeth. Mae uwch-dechnoleg yn

Without it, Wales could lose the historic opportunity during the next few years to use Objective 1 money for the right purposes. It could all be blocked in the planning process.

I hope that time will allow Janet Ryder and Phil Williams to elaborate on these issues. It is essential that the public bodies that are accountable to the Assembly—the Welsh Development Agency, the Countryside Council and the Environment Agency in particular—understand each other on how to facilitate sustainable development. The scheme should give them clear guidance on that. It is essential that the scheme is implemented in association with all the non-departmental public bodies.

The voluntary sector and community activity must play prominent roles in the task of bringing economic, social and environmental objectives together. There is a long list of good practices available, such as the Groundwork Trust and the Bro organisation, which are carrying out important work. Dealing with waste is an excellent example of the potential for this. For a number of reasons, Wales is lagging seriously behind in comparison with England in this field, and England is also lagging behind in comparison with other countries. We have serious problems with existing landfill sites and even greater problems with finding new sites.

The voluntary organisation Cylch—Wales's community recycling network—is of the opinion that it is possible for 50 per cent of household waste to be recycled by 2005, 75 per cent by 2010 and between 40 and 50 per cent of industrial waste over the same period, thus creating thousands of jobs. This is ambitious and we need to look at those kinds of recommendations carefully. This is a perfect national project for Objective 1 that would be of great benefit in disadvantaged areas in particular. The indigenous community sector could play a key role in this work.

It is possible that such a project would not fit in with the Welsh Development Agency's emphasis on high tech and information based industries. High tech is relevant to

berthnasol i ddatblygu cynaliadwy, ond nid yn y maes hwn efallai. Byddai llwyddo yn hyn yn dod â bendithion lu, yn esiampl berffaith o ddatblygu cynaliadwy ac yn galluogi Cymru i fynd o waelod y gynghrair, lle'r ydym yn awr, i'r brig mewn 10 mlynedd.

4:19 p.m.

I gloi, hoffwn wneud rhai pwyntiau ynglŷn ag elfennau'r cynllun. Mae'n rhaid iddo ddangos sut y bydd datblygu cynaliadwy yn treiddio i bob maes cyfrifoldeb. Mae'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Christine Gwyther, wedi cyfeirio at hynny. Mater i'r Cabinet yw hwn yn y lle cyntaf, ond mae'n anodd gweld sut y gall Aelodau o'r Cynulliad gyfrannu heb bwyllgor trawsbynciol. Dylai'r cynllun osod targedau realistig a nodi dros ba gyfnod y dylid eu cyrraedd. Mae angen dangosyddion priodol i fesur llwyddiant ac mae rhestr Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol o 14 o ddangosyddion yn fan cychwyn da. Mae angen addasu honno ar gyfer Cymru. Dylai dangosyddion amgylcheddol a chymdeithasol, yn ogystal â chynnyrch mewnwladol crynswth, fesur llwyddiant y rhaglen Amcan 1 hefyd. Gobeithiaf nad codi CMC fydd unig bwrpas y rhaglen Amcan 1. Gobeithiaf y ceir gweithredu yn ôl y dangosyddion eraill.

Mae angen gweithdrefn werthuso i brofi cynaliadwyedd prosiectau o faint sylweddol. Gall academwyr, megis yr uned asesu impact amgylcheddol yn Aberystwyth, helpu yn hyn o beth—maent yn fodlon gwneud hynny am ddim yn ôl yr hyn yr wyf yn ei ddeall. Mae angen i bob adran o Lywodraeth Cymru feddu ar ei threfn ei hun o fesur cynaliadwyedd ei gweithgarwch.

Polisi Plaid Cymru yw sefydlu uned gynaliadwyedd annibynnol i roi dadansoddiad gwrthrychol o effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol polisiâu datblygu economaidd. Mae uned o'r fath yn hanfodol er mwyn cael gwrthrychedd.

Lywydd, edrychaf ymlaen yn eiddgar at weld dogfen o ansawdd uchel ar gyfer y broses ymgynghori sydd i ddod. Go brin fod unrhyw beth pwysicach y gall y Cynulliad ymroi i'w

sustainable development but maybe not in this field. Success in this field would bring many blessings, would be a perfect example of sustainable development and would enable Wales to go from the bottom of the league, where we are at the moment, to the top in 10 years.

To close, I would like to make some points about elements of the scheme. It must show how sustainable development will permeate into every area of responsibility. The Secretary for Agriculture and Rural Development, Christine Gwyther, has referred to this. This is a matter for the Cabinet in the first instance, but it is difficult to see how Assembly Members can contribute without a cross-cutting committee. The scheme should set realistic targets and note over what period they should be met. Appropriate indicators are needed to measure success and the United Kingdom Government's list of 14 indicators is a good starting point. We should adapt that for Wales. Environmental and social indicators, as well as gross domestic product, should also measure the success of the Objective 1 programme. I hope that raising GDP will not be the only purpose of the Objective 1 programme. I hope that action will be taken according to the other indicators.

We need an evaluation procedure to prove the sustainability of major projects. Academics, such as the environmental impact assessment unit at Aberystwyth, can help with this—I understand that they are willing to do so free of charge. Every department of the Government of Wales should have its own procedure for measuring the sustainability of its activity.

Plaid Cymru's policy is to establish an independent sustainability unit to give an objective analysis of the social and environmental effects of economic development policies. Such an unit is essential in order to have objectivity.

Presiding Officer, I look forward with enthusiasm to seeing a high quality document for the ensuing consultation process. There is scarcely anything more important to which

wneud.

David Davies: The Statement of Principles that has been laid before us and which we are being asked to support this afternoon is perfectly laudable in its own way and, no doubt, will command the support of everyone in this Chamber. However, I am sure that I am not the only Member who will be disappointed that the nine principles that we are being asked to back are somewhat bland. I am surprised that this was not used as an opportunity to go into much greater detail about sustainable development as a policy. Fourteen indicators are already being used across the United Kingdom. Cynog mentioned those. It would have been helpful, in the course of this debate, if we could have had 14 indicators laid before us so that we could take them as a starting point. If we are going to be serious about sustainable development, and if we are going to fill this Chamber with people, we need to be much more proactive.

The final part of the statement urges us to work towards a scheme that will set out a clear action plan, indicators of success, targets and objectives. I am concerned about the use of language. 'Working towards' suggests all sort of delays and all sorts of people discussing matters when we could have begun the work today. If we cannot even begin by publicly setting the most modest of targets, many will wonder why we are bothering to have this debate at all.

My next concern is the possibility that some of the work on a sustainable development scheme has already begun. I have been informed that, back in June, members of the voluntary sector met with Welsh Office civil servants. Many people went from that meeting with a clear impression that the civil servants were going to come up with some sort of scheme. I would welcome any comment on that, because it would be of concern if the civil servants are drawing up sustainable development schemes before Members have had a chance to have an input.

Val Feld: For your information, I was at the large conference to which I believe you referred. There were organisations from

the Assembly could commit itself.

David Davies: Mae'r Datganiad o Egwyddorion a roddwyd ger ein bron ac y gofynnir inni ei gefnogi y prynhawn yma yn hollol ganmoladwy yn ei ffordd ei hun ac fe fydd, mae'n siŵr, yn ennill cefnogaeth pawb yn y Siambr hon. Fodd bynnag, yr wyf yn sicr nad myfi yw'r unig Aelod a siomwyd yn y ffaith bod y naw egwyddor yn gofynnir inni eu cefnogi braidd yn ddiadael. Synnaf na ddefnyddiwyd hyn yn gyfle i fanylu'n llawer helaethach ar ddatblygu cynaliadwy fel polisi. Mae 14 o ddangosyddion eisoes ar ddefnydd drwy'r Deyrnas Unedig. Soniodd Cynog am y rheini. Byddai o gymorth, yn ystod y ddadl hon, pe gallem gael 14 dangosydd o'n blaen fel y gallem eu cymryd yn fan cychwyn. Os ydym i fod o ddifrif ynghylch datblygu cynaliadwy, ac os ydym i lenwi'r Siambr hon â phobl, rhaid inni fod yn llawer mwy rhagweithiol.

Mae rhan olaf y datganiad yn ein hannog i weithio tuag at gynllun a fydd yn cynnwys cynllun gweithredu eglur, dangosyddion llwyddiant, targedau ac amcanion. Yr wyf yn bryderus ynghylch y defnydd o eiriau. Mae 'gweithio tuag at' yn awgrymu oedi o bob math a phob math o bobl yn trafod materion pan allsem fod wedi dechrau'r gwaith heddiw. Os na allwn hyd yn oed ddechrau drwy osod y targedau symlaf yn gyhoeddus, bydd llawer yn cwestiynu pam yr ydym yn trafferthu cael y ddadl hon o gwbl.

Y pryder nesaf sydd gennyf yw'r posibilidod bod y gwaith ar gynllun datblygu cynaliadwy wedi dechrau eisoes. Rhoddwyd gwybod i mi fod aelodau o'r sector gwirfoddol, yn ôl ym Mehefin, wedi cyfarfod â gweision sifil y Swyddfa Gymreig. Aeth llawer o bobl o'r cyfarfod hwnnw dan yr argraff glir bod y gweision sifil yn mynd i ddyfeisio rhyw fath o gynllun. Byddwn yn croesawu unrhyw sylw ar hynny, oherwydd byddai'n destun pryder pe bai'r gweision sifil yn llunio cynlluniau datblygu cynaliadwy cyn i'r Aelodau gael cyfle i gyfrannu.

Val Feld: Er gwybodaeth ichi, bîm i yn y gynhadledd fawr yr oeddech yn cyfeirio ati. Yr oedd mudiadau yno o bob rhan o Gymru a

across Wales who spent a whole day debating the broad parameters of what sustainability can mean in practice and how you try to put hard programmes behind that. My view was that it was recognised that it was a very large task and that much time and debate was needed on it. I do not know where you got your information but there was no expectation that civil servants would write a scheme. It was always recognised as a matter for the Assembly to debate and for its Committees to develop their thinking on.

David Davies: I welcome that intervention. Many people came away from that meeting with the impression that a report was already being drawn up. I am glad to hear that that is not the case.

I would like to see words backed up by action. Yesterday I spoke to a crafts centre in Abergavenny. They have been applying for signs for months, years even, but cannot get the help they need. They teach people how to practise ancient crafts and do much work with disabled children. This business is highly sustainable and is not getting the help it needs from the Assembly. I appreciate that the Secretary concerned is a very busy man. I write more letters to him than to every other Assembly Secretary put together. However, we should look favourably at supporting businesses that work sustainably.

I cannot be the only person disappointed by the fact that none of the nine principles mention agriculture. We are clearly all aware that sustainability is much concerned with agriculture. I will not re-run the last debate; we will hear more about agriculture tomorrow. However, we need to grasp the tragedy unfolding around us. Nine bland principles are a disappointing way to begin.

When I looked through the report on the national conference for sustainable development held last February in the Cardiff International Arena and hosted by the then Secretary of State for Wales, I was struck by a statement in the first paragraphs that it was

dreuliodd ddiwrnod cyfan yn trafod y diffiniad bras o'r hyn y gall cynaliadwyedd ei olygu'n ymarferol a sut y mae ceisio rhoi rhaglenni pendant yn gefn i hynny. Fy marn i oedd bod cydnabyddiaeth mai tasg fawr iawn yw hon a bod angen llawer o amser ac o drafodaeth yn ei chylch. Ni wn o ble y cawsoch yr wybodaeth ond nid oedd disgwyl y byddai gweision sifil yn ysgrifennu cynllun. Fe'i gwelwyd yn fater i'w drafod gan y Cynulliad ac i'w Bwyllgorau ddatblygu syniadau yn ei gylch.

David Davies: Croesawaf yr ymyriad hwnnw. Fe ddaeth llawer o bobl o'r cyfarfod hwnnw dan yr argraff bod adroddiad eisoes yn cael ei lunio. Mae'n dda gennyf glywed nad yw hynny'n wir.

Hoffwn weld gweithredu i ategu'r geiriau. Ddoe bŵm yn siarad mewn canolfan grefftiau yn y Fenni. Maent yn ymgeisio am arwyddion ers misoedd, blynyddoedd hyd yn oed, ond ni allant gael yr help angenrheidiol. Maent yn dysgu pobl sut i arfer crefftiau hynafol ac yn gwneud llawer o waith gyda phlant anabl. Mae'r busnes hwn yn gynaliadwy tu hwnt ac nid yw'n derbyn y cymorth angenrheidiol oddi wrth y Cynulliad. Yr wyf yn sylweddoli bod yr Ysgrifennydd dan sylw yn ddyn prysur iawn. Byddaf yn ysgrifennu mwy o lythyrau ato ef nag at bob Ysgrifennydd Cynulliad arall gyda'i gilydd. Fodd bynnag, fe ddylem edrych yn ffafriol ar gefnogi busnesau sydd yn gweithio mewn modd cynaliadwy.

Ni allaf gredu mai fi yw'r unig un a siomwyd yn ffaith nad oes yr un o'r naw egwyddor yn sôn am amaethyddiaeth. Mae'n sicr bod pawb ohonom yn gwybod bod gan gynaliadwyedd gysylltiad agos ag amaethyddiaeth. Nid wyf am ailadrodd y ddadl flaenorol; fe glywn ragor am amaethyddiaeth yfory. Fodd bynnag, rhaid inni ddeall y drasiedi sydd yn datblygu o'n cwmpas. Mae naw egwyddor ddiafiael yn ffordd siomedig i ddechrau.

Pan euthum drwy'r adroddiad ar y gynhadledd genedlaethol ar ddatblygu cynaliadwy a gynhaliwyd fis Chwefror diwethaf yn Arena Ryngwladol Caerdydd dan lywyddiaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru, fel yr oedd bryd hynny, fe'm trawyd

not the conference's role to come to any conclusions or make any specific recommendations. If that was the case, I wonder what its role was.

Gareth Jones: Soniasoch eich bod yn siomedig nad oedd cyfeiriad at amaethyddiaeth yn yr egwyddorion. Yr wyf hefyd yn siomedig nad oes cyfeiriad at addysg. Rhaid inni edrych ar addysg yn ofalus os ydym am gael cynllun i weithredu datblygu cynaliadwy. Yr wyf yn siŵr y byddwch yn cytuno.

David Davies: Yes, I do agree. I am sorry, I had to put the headphones on for the translation. Perhaps in a few months' time I will be able to understand you without them.

I appreciate the motives of the Member who proposed the amendment and I am delighted that he proposed something concrete, not just bland words. However, the cost of setting up such a Committee—over £100,000—makes it difficult to support at this time. We need a mechanism so that the Assembly Secretaries co-operate to form sustainable policies, but can we not look harder at ways of using existing meetings to ensure that we are on the right track?

Janet Ryder: Much has been said in both debates that I will touch on. Whatever we do with this scheme, it has to be practical and have an impact on people's lives. The sustainable development scheme, as has already been said, offers the opportunity for Wales to form systems of working and good practice that could be followed by many people. To do this, we have to find the right balance between policy aspects and local issues. We must make it a scheme that people can relate to and believe in. It must be more than just good words.

The Assembly's duty to promote sustainable development at local government level is enshrined through the implementation of Local Agenda 21. At the moment, many local government authorities have already formed

gan ddatganiad yn y paragraffau cyntaf nad rôl y gynhadledd oedd dod i unrhyw gasgliadau neu roi unrhyw argymhellion penodol. Os oedd hynny'n wir, tybed beth oedd ei rôl?

Gareth Jones: You mentioned that you were disappointed that there was no reference to agriculture in the principles. I am also disappointed that there is no reference to education. We must look at education carefully if we are to have a scheme to put sustainable development into action. I am sure that you will agree.

David Davies: Ydwyf, yr wyf yn cytuno. Mae'n ddrwg gennyf, yr oedd rhaid imi roi'r clustffon i gael y cyfieithiad. Efallai ymhen rhai misoedd y byddaf yn gallu eich deall hebdo.

Yr wyf yn gwerthfawrogi cymhellion yr Aelod a gynigiodd y gwelliant ac yr wyf yn falch iawn ei fod wedi cynnig rhywbeth pendant, nid geiriau diafael yn unig. Fodd bynnag, mae cost sefydlu Pwyllgor o'r fath—dros £100,000—yn ei wneud yn anodd ei gefnogi ar hyn o bryd. Mae arnom angen mecanwaith fel y bydd Ysgrifenyddion y Cynulliad yn cydweithredu i ffurfio polisiau cynaliadwy, ond oni allwn edrych yn fanylach ar ffyrdd o ddefnyddio'r cyfarfodydd presennol i sicrhau ein bod ar y llwybr iawn?

Janet Ryder: Byddaf yn cyfeirio at lawer a ddywedwyd yn y ddwy ddadl. Beth bynnag a wnawn gyda'r cynllun hwn, rhaid iddo fod yn ymarferol a chael effaith ar fywydau pobl. Mae'r cynllun datblygu cynaliadwy, fel y dywedwyd eisoes, yn cynnig cyfle i Gymru ffurfio systemau gwaith ac ymarfer da a allai gael eu dilyn gan lawer o bobl. I wneud hynny, rhaid inni ganfod y cydbwysedd iawn rhwng agweddau ar bolisi a materion lleol. Rhaid inni ei wneud yn gynllun y gall pobl gysylltu ag ef a chredu ynddo. Rhaid iddo fod yn amgenach na geiriau da.

Mae dyletswydd y Cynulliad i hybu datblygu cynaliadwy ar lefel llywodraeth leol wedi ei hymgorffori drwy weithredu'r Agenda 21 Lleol. Ar hyn o bryd, mae llawer o awdurdodau llywodraeth leol eisoes wedi

committees, have got groups together and are busy working through these groups to deliver schemes in their areas. However, if you ask the majority of residents what Local Agenda 21 is, would they be able to answer and tell you what impact it has had on their lives and surroundings? The answer is that very few would. We are in danger of producing a lot of good words that are irrelevant to people's lives. It is possible that the Assembly could adopt this scheme without it affecting people's lives, regardless of how we put it into practice, whether we adopt it through a cross-cutting committee or consider it committee by committee.

ffurfio pwyllgorau, wedi cynnull grwpiau ac yn gweithio'n brysur drwy'r grwpiau hyn i gyflawni cynlluniau yn eu hardaloedd. Fodd bynnag, os gofynnwch i'r rhan fwyaf o'r trigolion beth yw'r Agenda 21 Lleol, a fyddent yn gallu eich ateb a dweud wrthyhch pa effaith a gafodd ar eu bywydau a'u cynefin? Yr ateb yw mai ychydig iawn a fyddai'n gallu. Mae perygl inni gynhyrchu llawer o eiriau da sydd yn amherthnasol i fywydau pobl. Mae'n bosibl y gallai'r Cynulliad fabwysiadu'r cynllun hwn heb iddo effeithio ar fywydau pobl, ni waeth sut y rhoddwn ef ar waith, pa un a fabwysiadwn ef drwy bwyllgor trawsbynciol neu drwy ei ystyried fesul pwyllgor.

4:29 p.m.

The Statement of Principles states:

'the concept or definition of sustainable development that the Assembly embraces should be broad, giving equal importance to environmental, economic and social aspects of sustainability.'

There are areas within this that Plaid Cymru thinks are essential to the scheme. As Cynog has already said, the planning framework is the key to delivering sustainable development. One of the best ways to do this would be to put people and their needs at the heart of any planning system. We are then more likely to develop communities appropriate to Wales. The development of a planning framework based on Welsh needs is one of the keys to delivering a sustainable development scheme that impacts on people's lives.

Our present planning system is inadequate and will not keep pace with the need to promote sustainable communities. The lack of integrated planning for housing and transport has resulted in the spread of many disadvantaged communities. Housing problems typify many excluded communities. The links between poverty, ill health and poor housing are well known. Therefore, improving our housing stock is a vital national task for this Assembly. This will include the regeneration of existing homes and estates and emphasise the development of mixed tenure homes to encourage

Fe ddywed y Datganiad o Egwyddorion:

'dylai cysyniad neu ddiffiniad y Cynulliad o ddatblygu cynaliadwy fod yn eang, a dylai roi sylw cyfartal i agweddau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol cynaliadwyedd.'

Mae yna feysydd o fewn hyn sydd yn hanfodol i'r cynllun ym marn Plaid Cymru. Fel y dywedodd Cynog eisoes, y fframwaith cynllunio yw'r allwedd ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy. Un o'r dulliau gorau o wneud hynny fyddai rhoi pobl a'u hanghenion ar ganol unrhyw system gynllunio. Wedyn yr ydym yn fwy tebygol o ddatblygu cymunedau sydd yn addas i Gymru. Datblygu fframwaith cynllunio ar sail anghenion Cymru yw un allwedd i gyflawni cynllun datblygu cynaliadwy a fydd yn effeithio ar fywydau pobl.

Mae'r system cynllunio sydd gennym ar hyn o bryd yn annigonol ac ni fydd yn gallu datblygu'n ddigon cyflym i ddiwallu'r angen i hybu cymunedau cynaliadwy. Mae diffyg cynllunio integreiddiedig ar gyfer tai a thrafnidiaeth wedi arwain at ymlediad llawer o gymunedau difreintiedig. Mae problemau tai yn nodweddu llawer o gymunedau a ddiethriwyd. Mae'r cysylltiadau rhwng tlodi, iechyd gwael a thai gwael yn gyfarwydd iawn. Felly, mae gwella'r stoc dai yn dasg genedlaethol hanfodol i'r Cynulliad. Bydd hyn yn cynnwys adfywio tai a stadau presennol ac yn rhoi pwyslais ar ddatblygu

community spirit. This process should be based on the aspirations of tenants and residents and rely heavily on tenants' and residents' participation in schemes.

The estates that we build should be sustainable because they are based on local needs and expectations, and so should the styles and designs. This is much more than building energy efficient homes. Planning decisions about housing and other developments should consider how ecological features such as passive and active solar energy and water-saving features could be incorporated into designs. We should also build homes that are capable of being adapted to people's changing needs. We should build homes for life. Good investment in housing can lead to savings in health and education and help prevent other problems of social exclusion.

There is an expected increase in the number of households in Wales from 1.18 million in 1996 to 1.32 million by the year 2016. Therefore, the issues of land use and community planning will impact on the overall development of sites throughout Wales. A development plan for Wales is needed to give a land use perspective to issues such as sustainable development, transport and housing to help identify areas where appropriate development should occur and other areas where growth should be restrained. This would have an impact on people's lives and make sustainable development real and not just words.

There have been too many criticisms in the past that developments have taken place without the long-term implications, or their relationship to neighbouring developments, being thought through. Sustainable development should be based on sustainable planning decisions based on a sustainable planning framework. We should build on local authority community base development plans set within a national framework, ensuring that there is a limit on greenfield site development, preference given to brownfield site development, where appropriate, and an end to out-of-town development. The

cartrefi â daliadaethau cymysg er mwyn hybu ymdeimlad cymunedol. Dylid seilio'r broses hon ar ddyheadau tenantiaid a phreswylwyr gan ddibynnu'n helaeth ar gyfranogiad tenantiaid a phreswylwyr mewn cynlluniau.

Dylai'r stadau a godwn fod yn gynaliadwy am eu bod yn seiliedig ar anghenion a disgwyliadau lleol, a'r arddulliau a'r dyluniadau yn yr un modd. Mae hyn yn golygu llawer mwy nag adeiladu cartrefi ynni-effeithlon. Dylid rhoi ystyriaeth mewn penderfyniadau cynllunio ynghylch tai a datblygiadau eraill i'r modd y gellir cynnwys nodweddion ecolegol megis cynhyrchu ynni o'r haul drwy ddulliau goddefol a gweithredol a nodweddion arbed dŵr mewn dyluniadau. Dylem hefyd adeiladu cartrefi y gellir eu haddasu i gyfateb i'r newid yn anghenion pobl. Dylem adeiladu tai i barhau am oes. Mae buddsoddi da mewn tai yn gallu arwain at arbedion mewn iechyd ac addysg a helpu i atal problemau eraill sydd yn gysylltiedig â dieithrwch cymdeithasol.

Fe ddisgwylir cynnydd yn nifer yr aelwydydd yng Nghymru o 1.18 miliwn yn 1996 i 1.32 miliwn erbyn y flwyddyn 2016. Felly, bydd materion defnydd tir a chynllunio cymunedol yn effeithio ar ddatblygiad cyffredinol safleoedd ym mhob rhan o Gymru. Mae angen cynllun datblygu i Gymru er mwyn edrych o safbwynt defnydd tir ar faterion megis datblygu cynaliadwy, trafndiaeth a thai er mwyn helpu i ddynodi ardaloedd lle y dylid cael datblygu addas ac ardaloedd eraill lle y dylid cyfyngu ar dwf. Byddai hyn yn effeithio ar fywydau pobl ac yn gwneud datblygu cynaliadwy yn beth gwirioneddol yn hytrach na geiriau'n unig.

Bu gormod o feirniadu yn y gorffennol fod datblygiadau wedi digwydd heb lwyryd ystyried y goblygiadau tymor hir, neu'r berthynas rhyngddynt a datblygiadau cyfagos. Dylid seilio datblygu cynaliadwy ar benderfyniadau cynllunio cynaliadwy sydd yn seiliedig ar fframwaith cynllunio cynaliadwy. Dylem adeiladu ar sail cynlluniau datblygu cymunedol yr awdurdodau lleol o fewn fframwaith cenedlaethol, gan sicrhau bod cyfyngiad ar ddatblygu ar safleoedd tir glas a rhoi blaenoriaeth i ddatblygu ar dir llwyd, lle y mae'n briodol, a rhoi'r gorau i ddatblygu y tu allan i drefi. Bydd rheoli a leihau gwastraff

management and reduction of waste will be a major issue in any sustainable development scheme. We would also want a presumption against landfill sites.

Sustainable communities should be built with people's needs at the heart. These needs include locally delivered services that are accessible to everyone. This is relevant whether you are discussing rural or urban communities. The role of transport in securing access to services is vital in developing sustainable communities.

We should endeavour to develop communities that are less dependent on the use of cars. A first rate telecommunications system would help and is essential in the development of dispersed rural communities. It may lead to reducing the need for travel but a quality public transport system which people want to use will be necessary to sustain local communities while reducing reliance on cars. To do this we need to look at ways of helping local authorities to provide more support at a local level. While the need for an integrated transport plan is one of the keystones of sustainable development, the creation of a Wales passenger transport authority to co-ordinate transport links between north and south and between the rest of Britain and Europe is vital.

However, given the geography of the country with its large sparsely populated rural areas, it may not always be possible to rely on public transport. We may need to carry out road improvements but we must ensure that this is done in an environmentally sensitive way. How we develop our transport system will be a practical working out of a sustainable development scheme. It will be judged at the end of the Assembly's first term on the extent to which it has raised the quality of people's lives and if it has had an impact and made a difference. This sustainable development scheme could be a major contribution to that, not merely a lot of good and well-intentioned words.

The Presiding Officer: In order to protect the time of the short debate I intend to call

yn fater pwysig mewn unrhyw gynllun datblygu cynaliadwy. Byddem hefyd am gael rhagdybiaeth yn erbyn safleoedd tirlenwi.

Dylid adeiladu cymunedau cynaliadwy gan roi'r lle canolog i anghenion pobl. Ymhlith yr anghenion hyn y mae gwasanaethau a gyflenwir yn lleol sydd yn hygyrch i bawb. Mae hyn yn berthnasol wrth drafod cymunedau gwledig a threfol fel ei gilydd. Mae rôl trafniadaeth er mwyn sicrhau mynediad at wasanaethau yn hanfodol wrth ddatblygu cymunedau cynaliadwy.

Dylem ymdrechu i ddatblygu cymunedau sydd yn llai dibynnol ar y defnydd o geir. Byddai system telegyfathrebu o'r radd flaenaf yn gymorth yn hyn o beth ac mae'n hanfodol i ddatblygiad cymunedau gwledig gwasgaredig. Fe allai arwain at leihau'r angen i deithio ond bydd yn rhaid wrth system cludiant cyhoeddus o safon y bydd pobl am ei defnyddio er mwyn cynnal cymunedau lleol gan leihau'r ddibyniaeth ar geir yr un pryd. Er mwyn gwneud hynny rhaid inni ystyried dulliau i helpu awdurdodau lleol i ddarparu mwy o gefnogaeth ar lefel leol. Er mai'r angen am gynllun trafniadaeth integreiddiedig yw un o gonglfeini datblygu cynaliadwy, mae'n holl bwysig creu awdurdod trafniadaeth teithwyr i Gymru i gydlynu cysylltiadau trafniadaeth rhwng y de a'r gogledd a rhwng gweddill Prydain ac Ewrop.

Fodd bynnag, o dderbyn daearyddiaeth y wlad a'i hardaloedd gwledig eang a thenau eu poblogaeth, efallai na fydd yn bosibl dibynnu ar gludiant cyhoeddus bob amser. Efallai y bydd angen gwella ffyrdd ond rhaid inni sicrhau y gwneir hyn mewn modd sydd yn sensitif i'r amgylchedd. Bydd y modd y datblygwn ein system trafniadaeth yn brawf ymarferol ar gynllun datblygu cynaliadwy. Fe'i bernir ar ddiwedd tymor cyntaf y Cynulliad yn ôl y graddau y mae wedi gwella ansawdd bywydau pobl ac a yw wedi cael effaith ac wedi gwneud gwahaniaeth. Gallai'r cynllun datblygu cynaliadwy hwn fod yn gyfraniad o bwys at hynny, yn hytrach na dim ond geiriau braf a da eu bwriad.

Y Llywydd: Er mwyn diogelu amser y ddadl fer bwriadaf alw ar Ysgrifennydd yr

the Environment and Local Government Secretary at 4.45 p.m.

Sue Essex: I was pleased that Christine introduced this debate so enthusiastically and positively. I doubt if there is a more important topic for us to grapple with. I say that for two reasons. It underpins everything that we do here, as does equal opportunities. It underpins not just the environment, social policy and the economy, but it also brings in activities such as agriculture and education. It pulls in everything that we do.

In addition, it is important because we are at the leading edge. We in the Assembly have the only constitution where this requirement and important duty has been placed upon us. We are leading from Wales and others are watching, especially in Europe, DGXI and other places. They are looking to see if the kind of ideas and processes we develop are applicable elsewhere. We have a great responsibility to give this subject the attention that it deserves. If we get it right, we can give Wales an enduring quality of life. I use the word 'enduring' because, perhaps more than in any other country in the world, our problems and scars are evident from not taking that attitude in the past.

The coal industry is an example of wealth created and exported elsewhere. However, we inherited the associated problems not just of waste disposal on landscapes, but also the tragedy of leaving communities bereft of their economic life. It is therefore important that we get to grips with this.

It is important also in terms of Objective 1. It is important that the national economic development strategy is put forward in a way that recognises the sustainable development concept in Wales. It must underpin it and we must make it work. The duty placed in the legislation gives the Assembly the role to lead and to ensure that that legislation works. It is dependent on everyone in Wales playing their part, particularly our major partners: local authorities, voluntary and business sectors. Everybody must be on board so that

Amgylchedd a Llywodraeth Leol am 4.45 p.m.

Sue Essex: Yr oedd yn dda gennyf fod Christine wedi cyflwyno'r ddaidl hon mor frwd ac mor gadarnhaol. Yr wyf yn amau a oes pwnc pwysicaf y gallem ymdrin ag ef. Dywedaf hynny am ddau reswm. Mae'n sylfaen i bopeth a wnawn yn y fan hyn, yr yr un modd ag y mae cyfle cyfartal. Mae'n sylfaen nid yn unig i'r amgylchedd, polisi cymdeithasol a'r economi, ond mae hefyd yn gysylltiedig â gweithgareddau fel amaethyddiaeth ac addysg. Mae'n cwmpasu popeth a wnawn.

Mae'n bwysig hefyd am ein bod yn gweithio yn y pen blaen. Gennym ni yn y Cynulliad y mae'r unig gyfansoddiad lle y rhoddwyd y gofyniad a'r dyletswydd pwysig hwn arnom. Yr ydym yn arwain yng Nghymru ac mae eraill yn gwyllo, yn enwedig yn Ewrop, DGXI a mannau eraill. Maent yn edrych i weld a fydd modd cymhwyso'r math o syniadau a phrosesau a ddatblygwn ni mewn mannau eraill. Mae cyfrifoldeb mawr arnom i roi'r sylw dyladwy i'r pwnc hwn. Os llwyddwn, gallwn roi ansawdd bywyd a bery i Gymru. Fe ddefnyddiaf yr ymadrodd 'a bery' am fod ein problemau a'n creithiau ni, yn fwy na rhai'r un wlad arall yn y byd efallai, yn ganlyniad i beidio â meddwl yn y modd hwnnw yn y gorffennol.

Mae'r diwydiant glo yn enghraifft o gyfoeth a grewyd ac a allforiwyd i rywle arall. Fodd bynnag, yr ydym wedi etifeddu'r problemau cysylltiedig, sef nid yn unig gwaredu gwastraff ar dirweddau, ond hefyd y drasiedi o adael cymunedau yn amddifad o fywyd economaidd. Mae'n bwysig, felly, ein bod yn mynd i'r afael â hyn.

Mae'n bwysig hefyd o ran Amcan 1. Mae'n bwysig y caiff y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol ei chyflwyno mewn modd sydd yn cydnabod y cysyniad o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru. Rhaid iddo fod yn sail iddo a rhaid inni ei gael i weithio. Mae'r ddyletswydd a roddir yn y ddeddfwriaeth yn rhoi rôl i'r Cynulliad arwain a sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn gweithio. Mae'n dibynnu ar gyfraniad pawb yng Nghymru, yn enwedig ein prif bartneriaid: awdurdodau lleol, y sector

we all know we are working together on this. Alone, we may try to leap, but unless we work together, singing from the same songsheet, then we will be going in different directions.

4:39 p.m.

Looking at those principles, I do not feel as pessimistic as Cynog Dafis. Clearly, there are things that could be amended but there are also important things that I wish to add. We must first develop a means of evaluating a way forward. In areas of planning policy there will be inherently difficult choices to make. We need a way to help us make and evaluate those decisions in a fair and above-board way, whether they be on health, economic activity or whatever. Work is already being done to ensure we all work together on the same system. I want to see reference to methods of evaluation to which everybody is working and adhering. I would also like to see a reference to policy, because we need a strong policy base on which to judge decisions and move forward. That policy base is critical in planning as well as transport and other aspects of our work.

We have talked about mechanisms and mainstreaming. Whatever method we accept, whether we set up a cross-cutting Committee or not, it must be monitored to ensure that we deliver what we think we are delivering and that we review the way forward. Cynog's point on getting outside experts is very important. No one has the monopoly of knowledge on this, not even our agencies, individuals or particular groups. We must share knowledge. I would like to see the establishment of an independent advisory group that could work with us: guiding, helping and, I am sure, at times, criticising. However, we will need that criticism as we develop something as innovative and new as this.

Finally, it is a learning process for us all and we should not be afraid of making mistakes. They are inevitable. If we get it right or even come close to getting it right, we will be at

gwirfoddol a'r sector busnes. Rhaid i bawb fod yn y criw fel y gwyddom ein bod yn gweithio gyda'n gilydd ar hyn. Pe baem ar ein pennau ein hunain fe allem geisio neidio ond, oni bai ein bod yn gweithio gyda'n gilydd, gan ganu o'r un llyfr caneuon, byddwn yn mynd i wahanol gyfeiriadau.

O edrych ar yr egwyddorion hynny, nid wyf yn teimlo mor ddiobaith â Cynog Dafis. Mae'n amlwg bod pethau y gellid eu newid ond mae pethau pwysig hefyd yr wyf am eu hychwanegu. Yn gyntaf, rhaid inni ddatblygu dull o gloriannu ffordd ymlaen. Mewn rhai agweddau ar bolisi cynllunio bydd dewisiadau sydd yn anodd o'u hanfod. Rhaid inni wrth ffordd i wneud a chloriannu'r penderfyniadau hynny mewn modd teg ac agored, boed ym maes iechyd, gweithgarwch economaidd neu ble bynnag. Mae gwaith eisoes mewn llaw i sicrhau y byddwn oll yn cydweithio ar yr un system. Yr wyf am weld cyfeirio at ddulliau gwerthuso y bydd pawb yn eu dilyn ac yn eu defnyddio. Hoffwn weld cyfeirio hefyd at bolisi, oherwydd mae arnom angen sylfaen bolisi gadarn fel y gallwn ddyfarnu ynghylch penderfyniadau a symud ymlaen. Mae'r sylfaen bolisi yn holl bwysig mewn cynllunio yn ogystal ag mewn trafniadaeth ac agweddau eraill ar ein gwaith.

Yr ydym wedi sôn am fecanweithiau a phrif-frydio. Pa bynnag ddull a dderbyniwn, pa un a sefydlwn Bwyllgor trawsbynciol ai peidio, bydd yn rhaid ei fonitro er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein bwriad ac yn adolygu'r ffordd ymlaen. Mae pwynt Cynog am gael arbenigwyr o'r tu allan yn bwysig iawn. Nid oes gan neb fonopoli ar yr wybodaeth am hyn, hyd yn oed ein hasiantaethau, unigolion neu grwpiau penodol. Rhaid inni rannu gwybodaeth. Hoffwn weld sefydlu grŵp ymgynghorol annibynnol a allai weithio gyda ni, gan gyfarwyddo, helpu ac, ar brydiau, yr wyf yn sicr, beirniadu. Fodd bynnag, bydd arnom angen y feirniadaeth honno wrth inni ddatblygu rhywbeth mor newydd ac arloesol â hyn.

Yn olaf, mae'n broses dysgu i bawb ohonom ac ni ddylem ofni gwneud camgymeriadau. Maent yn anorfod. Os llwyddwn i'w gael yn iawn, neu os dewn yn agos at hynny hyd yn

the forefront in Europe as well as the world. It is a great challenge, but it is only the beginning. Nobody could have come up with a perfect scheme today and, as Christine Gwyther rightly said, that is not the way to do it. We must work with, consult with and get feedback from others. I hope this is the beginning of a positive move for the Assembly.

Peter Law: I am delighted to be here in the important role of supporting Assembly Secretary for sustainable development. I hope to provide solace to those of you who lack confidence in the fact that there are two of us working on this matter. We must ensure that what we do here will benefit today's and future generations. I am pleased that this afternoon's debate has been wide-ranging and informative and that so many Members have been given the opportunity to voice their views. There is much for us to take away and consider in drafting the scheme.

It is indicative of the interest and enthusiasm of Members for the subject and the very real opportunity that sustainable development offers the people of Wales. It highlights the challenges ahead in terms of ensuring that the goal of sustainability shapes policies and plans at all levels and the shift of resources that will inevitably be required.

There may be uncomfortable decisions ahead but they will bring long-term benefits for us and future generations. I put great store by many of the points raised this afternoon. I was disappointed by David Davies's approach, who sadly has left now, but I thought it was 'mega nega', I will now dub him the 'mega nega man'.

As Sue Essex says, we must be optimistic because the Assembly is the first organisation in Britain to have a sustainable development scheme by statute. That is no small achievement. I am sure that with our commitment we can build on it to make it a very successful scheme. We can be proud of that. We do not want delays; we want to approach this issue positively for the good of the people of Wales, but I will still be pleased to deal with David Davies's letters when he writes to me.

oed, byddwn ar y blaen yn Ewrop ac yn y byd. Mae'n her enfawr, ond dim ond y dechrau ydyw. Ni fyddai neb wedi gallu cynnig cynllun perffaith heddiw ac, fel y dywedodd Christine Gwyther, nid dyna'r ffordd i'w gyfawni. Rhaid inni gydweithio, ymgynghori ag eraill a chael adborth oddi wrthynt. Gobeithiaf fod hyn yn ddechrau ar symudiad cadarnhaol i'r Cynulliad.

Peter Law: Hyfrydwch yw cael bod yma yn rôl bwysig yr Ysgrifennydd Cynulliad cefnogol dros ddatblygu cynaliadwy. Gobeithiaf y gallaf gysuro'r rhai ohonoch nad oes ganddynt hyder yn y ffaith fod dau ohonom yn gweithio ar y mater hwn. Rhaid inni sicrhau bod yr hyn a wnawn yma o fudd i genedlaethau heddiw a'r dyfodol. Mae'n dda gennyf fod y ddadl y prynhawn yma wedi bod yn eang ac yn llawn gwybodaeth a bod cynifer o'r Aelodau wedi cael cyfle i leisio eu barn. Mae llawer y gallwn ei gymryd a'i ystyried wrth ddrafftio'r cynllun.

Mae'n arwydd o ddiddordeb a brwdfrydedd yr Aelodau dros y pwnc a'r cyfle gwirioneddol y mae datblygu cynaliadwy yn ei gynnig i bobl Cymru. Mae'n pwysleisio'r sialensau sydd o'n blaen o ran sicrhau bod nod cynaliadwyedd yn ffurfio polisiau a chynlluniau ar bob lefel a'r symudiad adnoddau y bydd yn rhaid wrtho.

Mae'n bosibl y bydd penderfyniadau annifyr o'n blaen ond fe ddeuant â manteision tymor hir i ni ac i genedlaethau'r dyfodol. Mae gennyf feddwl uchel o lawer o'r pwyntiau a godwyd y prynhawn yma. Yr oeddwn yn siomedig yn agwedd David Davies, sydd wedi ymadael bellach, gwaetha'r modd, ond yr oeddwn o'r farn ei fod yn 'mega nega', ac fe'i galwaf bellach yn ddydd 'mega nega'.

Fel y dywed Sue Essex, rhaid inni fod yn obeithiol oherwydd y Cynulliad yw'r corff cyntaf ym Mhrydain i feddu ar gynllun datblygu cynaliadwy drwy statud. Mae hynny'n gryn gamp. Gyda'n hymroddiad, yr wyf yn sicr y gallwn adeiladu ar ei seiliau a'i wneud yn gynllun llwyddiannus iawn. Gallwn ymfalchïo yn hynny. Nid ydym am weld oedi; yr ydym am ymdrin â'r mater hwn yn gadarnhaol er lles pobl Cymru, ond byddaf yn falch o ddelio â llythrau David Davies pan fydd yn ysgrifennu ataf.

Glyn Davies: David Davies is not here at the moment but I listened to his speech and, on the Conservative side of the Assembly, we think it was positive and that you are misinterpreting what he said.

Peter Law: Nothing changes. I could have prophesied Glyn's response.

Some important points were raised but it is difficult to refer to them all in the time available. Janet Ryder referred to sustainable planning. Amending planning law to insist that renewable forms of energy are used in new domestic buildings in Wales is another important issue. 'Planning Policy Guidance' in Wales, revised in April 1999, already provides for the consideration of solar power in development plans and decision-making, encouraging its use where appropriate.

Primary legislation would need to be amended to enable planning authorities to tighten planning controls, thus requiring solar energy to be incorporated. Even those would be limited by the control of building regulations over energy conservation and efficiency in individual buildings. Building regulation is not generally a devolved area. The leverage we have is through representation on the Building Regulations Advisory Committee and its various working parties. The section of the regulations dealing with energy efficiency is currently under review. A consultation paper will be issued early in 2000 and that will provide us with the opportunity to voice our views. There were references today to individual planning applications but I will not comment on those for reasons that people will understand.

On transport, local authorities have submitted interim reports under the Road Traffic Reduction Act 1997, and will submit full reports in summer 2000 indicating the action they propose to take to reduce traffic levels on local roads in their area. Interim reports are being considered and they will help inform the Assembly's national report, which I hope will be published before the end of the year.

Glyn Davies: Nid yw David Davies yma ar hyn o bryd ond fe wrandewais ar ei araith ac, ar ochr y Ceidwadwyr o'r Cynulliad, yr ydym o'r farn ei bod yn un gadarnhaol a'ch bod yn camddehongli'r hyn a ddywedodd.

Peter Law: Nid oes dim yn newid. Gallaswn fod wedi rhagweld ymateb Glyn.

Fe godwyd rhai pwyntiau pwysig ond anodd yw cyfeirio atynt i gyd yn yr amser sydd ar gael. Cyfeiriodd Janet Ryder at gynllunio cynaliadwy. Mater pwysig arall yw newid deddfwriaeth cynllunio i fynnu y caiff dulliau ynni adnewyddadwy eu defnyddio mewn adeiladau domestig newydd yng Nghymru. Mae'r 'Arweiniad i Bolisi Cynllunio' yng Nghymru, a adolygwyd yn Ebrill 1999, eisoes yn rhagamodi ystyriaeth o bŵer yr haul mewn cynlluniau datblygu ac wrth wneud penderfyniadau, gan annog defnydd ohono lle y mae'n briodol.

Byddai angen newid deddfwriaeth sylfaenol er mwyn galluogi awdurdodau cynllunio i dynhau cyfyngiadau cynllunio, gan fynnu cynnwys ynni'r haul. Byddai'r rheini hyd yn oed yn cael eu cyfyngu gan reolaeth rheoliadau cynllunio ar gadwraeth ynni ac effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau unigol. Nid yw rheoleiddio adeiladu yn faes a ddatganolwyd ar y cyfan. Mae'r dylanwad sydd gennym yn digwydd drwy gynrychiolaeth ar y Pwyllgor Ymgynghorol ar Reoliadau Adeiladu a'i wahanol weithgorau. Mae'r adran o'r rheoliadau sydd yn ymwneud ag effeithiolrwydd ynni yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Cyhoeddir papur ymgynghorol yn gynnar yn 2000 a bydd hynny'n rhoi cyfle inni leisio barn. Cafwyd cyfeiriadau heddiw at geisiadau cynllunio unigol ond ni roddaf sylw ar y rheini am resymau y bydd pobl yn eu deall.

Ynglŷn â thrafnidiaeth, mae'r awdurdodau lleol wedi cyflwyno adroddiadau dros dro o dan Ddeddf Lleihau Traffig Ffyrdd 1997, a byddant yn cyflwyno adroddiadau llawn yn haf 2000 gan nodi'r camau y bwriadant eu cymryd i leihau lefelau traffig ar ffyrdd lleol yn eu hardal. Mae adroddiadau dros dro o dan ystyriaeth a byddant o gymorth i lunio adroddiad cenedlaethol y Cynulliad, a gyhoeddir cyn diwedd y flwyddyn yr wyf yn

gobeithio.

Some environmental impacts must be addressed through measures like cleaner vehicle technology, which does not lie within our gift, in order to balance other priority issues such as accessibility, social inclusion and economic sustainability. However, the Assembly is taking action. The Safe Routes to School initiative targets congestion and pollution around the school gates by encouraging walking, cycling and the use of public transport. We are also strongly committed to green transport plans as a way of reducing car dependency. We are already promoting the uptake of green transport plans throughout Wales and we have a similar plan for Cathays Park. I am currently pursuing the important matter of an integrated transport plan for Wales.

Bydd yn rhaid ymdrin â rhai effeithiau amgylcheddol drwy fesurau fel technoleg cerbydau glanach, nad ydynt o dan ein rheolaeth, er mwyn cydbwysu blaenoriaethau eraill megis hygyrchedd, cynhwysiant cymdeithasol a chynaliadwyedd economaidd. Mae'r Cynulliad yn gweithredu, fodd bynnag. Mae'r cynllun Ffyrdd Diogel i'r Ysgol yn targedu tagfeydd a llygredd o gwmpas gât yr ysgol drwy annog cerdded, seiclo a defnyddio cludiant cyhoeddus. Yr ydym wedi ymrwymo'n gryf hefyd i gynlluniau trafndiaeth gwyrdd fel modd i leihau dibyniaeth ar geir. Yr ydym eisoes yn hybu derbyniad cynlluniau trafndiaeth gwyrdd drwy Gymru ac mae gennym gynllun tebyg ar gyfer Parc Cathays. Yr wyf ar hyn o bryd yn dilyn y mater pwysig o gynllun trafndiaeth integreiddiedig i Gymru.

On energy efficiency and waste reduction, I always respect Cynog Dafis's contributions as he is renowned for his work on sustainable development. We hope to reduce the amount of waste sent to landfill from Assembly headquarter sites by 5 per cent over three years. As well as focusing on our own performance on waste and energy efficiency, we can urge other public sector bodies, for example NHS trusts, to improve their performance. We also promote energy efficiency and green housekeeping in the private sector. Green housekeeping accreditation is something we will consider very carefully. I would like to pursue that, but it might pre-empt resources that may be used on other sustainable development priorities.

Ynglŷn ag effeithlonrwydd ynni a lleihau gwastraff, byddaf bob amser yn parchu cyfraniadau Cynog Dafis oherwydd ei fod yn enwog am ei waith ar ddatblygu cynaliadwy. Gobeithiwn leihau maint y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi o safleoedd pencadlys y Cynulliad o 5 y cant dros dair blynedd. Yn ogystal â chanolbwyntio ar ein perfformiad ein hunain ar wastraff ac effeithlonrwydd ynni, gallwn annog cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, ymddiriedolaethau'r NHS er enghraifft, i wella eu perfformiad. Yr ydym hefyd yn hybu effeithlonrwydd ynni a mesurau gofâl gwyrdd yn y sector preifat. Mae achredu gofâl gwyrdd yn rhywbeth y rhoddwn ystyriaeth ofalus iawn iddo. Hoffwn ddilyn hynny, ond fe allai ragfeddiannu adnoddau y gellid eu defnyddio ar flaenoriaethau datblygu cynaliadwy eraill.

4:49 p.m.

On health, the 'Better Health, Better Wales' strategic framework document issued in October 1998 describes our approach to improving the health of people in Wales. While health is not the only consideration for policy and decision makers, it must be considered when policies and programmes in other policy areas can impact on the population's health. The need for health and wellbeing to be sustainable was emphasised

Ynghylch iechyd, mae'r ddogfen fframwaith strategol 'Gwell Iechyd, Gwell Cymru' a gyhoeddwyd yn Hydref 1998 yn disgrifio ein dull o ymwneud â gwella iechyd pobl yng Nghymru. Er nad iechyd yw'r unig ystyriaeth i'r rhai sydd yn llunio polisiau ac yn gwneud penderfyniadau, rhaid ei ystyried pan fydd polisiau a rhaglenni mewn meysydd polisi eraill yn gallu effeithio ar iechyd y boblogaeth. Fe bwysleiswyd yr angen i

in 'Better Health, Better Wales'. Sustainable health can only be achieved in the context of sustainable development and care for the environment. Thus there is an on-going need to assess how policies, programmes and other developments—for example, those which seek to influence the environment—impact on health. The document makes a clear commitment to the use of health impact assessments. I work regularly with Jane Hutt on these matters with regard to housing, homelessness and social exclusion. These are all-important for sustainable development.

I was glad to hear the reference to tenant participation and sustainable development for estates. I know that there are many areas where change is needed, where, for example, people were shoved up on mountains in totally unsustainable communities. We want to ensure that that does not happen again, as we are reaping the harvest of that unsustainable development now.

Agriculture is another important matter that has been mentioned and discussed this afternoon. Christine has worked hard for the farming communities and Wales as a whole and I congratulate her on her work during the summer. I have seen at first hand her very hard work.

In July, in partnership with the Chair and members of the Agriculture and Rural Development Committee, the Secretary for Agriculture and Rural Development published a major consultation paper on the future of farming in Wales, 'Farming for the Future'. We all recognise the deep-seated economic problems that face agriculture. 'Farming for the Future' is honest about these and about the environmental and social issues that must be addressed. The consultation paper sets out the real opportunities for the Assembly to pursue a distinctive agenda and create a more sustainable agriculture in Wales. As has been stressed today, while we tackle the short-term crisis facing the industry we must not neglect the need for a coherent long-term strategy.

iechyd a lles fod yn gynaliadwy yn 'Gwell Iechyd, Gwell Cymru'. Ni ellir sicrhau iechyd cynaliadwy ond yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy a gofal am yr amgylchedd. Mae angen parhaus felly i asesu sut y bydd polisiau, rhaglenni a datblygiadau eraill—rhai sydd yn ceisio dylanwadu ar yr amgylchedd, er enghraifft—yn effeithio ar iechyd. Mae'r ddogfen yn rhoi ymrwymiad pendant i ddefnyddio asesiadau effaith ar iechyd. Byddaf yn gweithio'n rheolaidd â Jane Hutt ar y materion hyn mewn perthynas â thai, digartrefedd a dieithrwrch cymdeithasol. Mae'r rhain yn holl bwysig ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Yr oedd yn dda gennyf glywed cyfeirio at gyfranogiad tenantiaid a datblygu cynaliadwy i stadau. Gwn fod llawer o ardaloedd lle y mae angen newid, er enghraifft, lle y gwrthwyd pobl i ben mynyddoedd mewn cymunedau cwbl anghynaliadwy. Yr ydym am sicrhau na fydd hynny'n digwydd eto, gan ein bod yn medi cynhaeaf y datblygu anghynaliadwy hwnnw yn awr.

Mae amaethyddiaeth yn fater pwysig arall a gafodd ei grybwyll a'i drafod y prynhawn yma. Mae Christine wedi gweithio'n galed dros y cymunedau amaethyddol a Chymru gyfan ac fe'i llongyfarchaf ar ei gwaith yn ystod yr haf. Gwelais ei gwaith caled â'm llygaid fy hun.

Yng Ngorffennaf, mewn partneriaeth â Chadeirydd ac aelodau'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, fe gyhoeddodd yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ddogfen ymgynghorol o bwys ar ddyfodol amaethyddiaeth yng Nghymru, 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol'. Yr ydym oll yn gyfarwydd â'r problemau economaidd sylfaenol sydd yn wynebu amaethyddiaeth. Mae 'Ffermio ar gyfer y Dyfodol' yn onest ynghylch y rhain a'r materion amgylcheddol a chymdeithasol y bydd yn rhaid ymdrin â hwy. Mae'r ddogfen ymgynghorol yn cyflwyno'r cyfleoedd gwirioneddol sydd ar gael i'r Cynulliad ddilyn agenda neilltuol a chreu amaethyddiaeth fwy cynaliadwy yng Nghymru. Fel y pwysleisiwyd heddiw, wrth inni fynd i'r afael â'r argyfwng tymor byr sydd yn wynebu'r diwydiant rhaid inni beidio ag esgeuluso'r angen am strategaeth dymor

hir gydlynol.

I listened carefully to what Cynog Dafis said about the Friends of the Earth report. We will look at it, because that is what consultation is about. I am sure that Friends of the Earth will make a valuable contribution to the consultation programme.

Janet Ryder referred to the need for a meaningful approach to education in the future. As part of the curriculum review now underway, the Qualifications, Curriculum and Assessment Authority for Wales has proposed a new framework for personal and social education. Sustainable development will fall within that framework. Final decisions are yet to be taken but schools will be expected to give this subject attention when the new curriculum is implemented in September 2000.

There is a strong case for reviewing all our extant regulations and secondary legislation, for example on building, land use and transport, to check that it does not create barriers to sustainable development. However, this would be a large task and we should think about how we could work with UK government departments on that. We will apply our minds to that as we think about how to introduce the sustainable development scheme we want in Wales.

The sustainable development committee Peter Black proposed in his amendment has been considered. Although we recognise that the amendment is a serious attempt to promote the effective implementation of sustainable development principles, the Labour group has concerns about its effect.

First, while the intention is that the committee be a cross-cutting one, it could reduce the pressure on the Subject Committees to work in a cross-cutting way and implement sustainable development principles in all our activities. We have seen today how our scheme will impact on all our responsibilities—health, housing, education, the economy and agriculture. The Assembly's Standing Orders were framed in a way that provided for sustainable

Fe wrandewais yn ofalus ar yr hyn a ddywedodd Cynog Dafis am adroddiad Cyfeillion y Ddaear. Byddwn yn edrych arno, oherwydd dyna yw ystyr ymgynghori. Yr wyf yn sicr y bydd Cyfeillion y Ddaear yn rhoi cyfraniad gwerthfawr i'r rhaglen ymgynghori.

Cyfeiriodd Janet Ryder at yr angen am ymagwedd ystyrion at addysg yn y dyfodol. Fel rhan o'r adolygiad ar y cwricwlwm sydd yn digwydd ar hyn o bryd, mae Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru wedi cynnig fframwaith newydd ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Bydd datblygu cynaliadwy yn rhan o'r fframwaith hwnnw. Ni wnaethpwyd y penderfyniadau terfynol eto ond fe ddisgwylir i'r ysgolion roi sylw i'r pwnc hwn pan weithredir y cwricwlwm newydd ym Medi 2000.

Mae dadl gref dros adolygu'r holl reoliadau a deddfwriaeth eilaidd sydd gennym ar hyn o bryd, er enghraifft ar adeiladu, defnydd tir a thrafnidiaeth, i wirio nad ydynt yn codi rhwystrau yn erbyn datblygu cynaliadwy. Byddai hon yn dasg fawr, fodd bynnag, a dylem ystyried sut y gallem weithio gydag adrannau llywodraeth y DU ar hynny. Fe roddwn ein meddyliau ar waith ar hynny wrth inni ystyried sut i gyflwyno'r cynllun datblygu cynaliadwy yr ydym am ei weld yng Nghymru.

Fe roddwyd ystyriaeth i'r pwyllgor datblygu cynaliadwy a gynigir gan Peter Black yn ei welliant. Er ein bod yn cydnabod bod y gwelliant yn ymgais ddifrifol i hybu gweithredu effeithiol ar egwyddorion datblygu cynaliadwy, mae gan y Grŵp Llafur bryderon ynghylch ei effaith.

Yn gyntaf, er mai'r bwriad yw i'r pwyllgor fod yn un trawsbynciol, fe allai leihau'r pwysau ar y Pwyllgorau Pwnc i weithio mewn modd trawsbynciol a gweithredu egwyddorion datblygu cynaliadwy yn ein holl weithgareddau. Gwelsom heddiw sut y bydd ein cynllun yn effeithio ar bob un o'n cyfrifoldebau—iechyd, tai, addysg, yr economi ac amaethyddiaeth. Fe luniwyd Rheolau Sefydlog y Cynulliad mewn modd sydd yn rhagnodi y bydd egwyddorion

development principles to be the responsibility of not one but every Committee.

Secondly, the proposal could result in a cut in the budget of existing Subject and Regional Committees in order to finance the new one. Our existing Committees have limited budgets to carry out their responsibilities and to travel around Wales to engage with the public. It would be a pity if that work had to be curtailed as a result of this proposal. There is a limited budget here. The success of this scheme cross-cuts all committees and the whole Assembly. We have as an important safeguard the annual report of the scheme's work, built into the Act.

For these reasons the Labour group is not fully convinced of the argument for a new committee at this stage. Christine said at the start of this debate that our sustainable development duty gives us an unprecedented opportunity to develop an international model of excellence. It could help to set Wales apart from the world scene and to transform the effectiveness of our work, realising the link between our varied responsibilities and delivering on the promise of better government for Wales.

It is worth remembering that this is the start of a long process. Sustainability is a journey, not a destination. We will not turn things around overnight but we must find ways of making a difference to Welsh people's lives through early impact on some of our current problems. Members have suggested what such issues might be and I will consider them with Christine. The consultation process will bring out many more ideas on this front.

In taking this scheme forward we need to be clear about what we are trying to achieve in the long term. Finding out what Welsh people think is important to the quality of life and will be part of the consultation process. I suspect that things such as warmer, energy-efficient homes, better public transport systems and being able to walk the streets in safety will all figure in such a list but we will not know for sure unless we ask. Long-term

datblygu cynaliadwy yn gyfrifoldeb i bob Pwyllgor yn hytrach nag un.

Yn ail, fe allai'r cynnig arwain at dorri ar gyllidebau'r Pwyllgorau Pwnc a'r Pwyllgorau Rhanbarthol presennol er mwyn cyllido'r un newydd. Mae gan ein Pwyllgorau presennol gyllidebau cyfyngedig i gyflawni eu cyfrifoldebau ac i deithio o amgylch Cymru i gysylltu â'r cyhoedd. Byddai'n drueni pe bai'n rhaid cwtogi ar y gwaith hwnnw o ganlyniad i'r cynnig hwn. Cyllideb gyfyngedig a geir yma. Mae llwyddiant y cynllun hwn yn torri ar draws yr holl bwyllgorau a'r Cynulliad cyfan. Mae gennym amddiffyniad pwysig yn yr adroddiad blynyddol ar waith y cynllun, sydd yn rhan o'r Ddeddf.

Am y rhesymau hyn nid yw'r Grŵp Llafur wedi ei lwyr argyhoeddi o'r ddadl dros bwyllgor newydd ar hyn o bryd. Fe ddywedodd Christine ar ddechrau'r ddadl fod ein dyletswydd o ran datblygu cynaliadwy yn rhoi cyfle na fu erioed ei fath i ddatblygu model rhyngwladol o ragoriaeth. Gallai helpu i osod Cymru ar wahân ar lwyfan y byd a thrawsffurfio effeithiolrwydd ein gwaith, drwy greu'r cysylltiad rhwng ein gwahanol gyfrifoldebau a chyflawni'r addewid o well llywodraeth i Gymru.

Mae'n werth cofio mai dechrau ar broses hir yw hwn. Taith yw cynaliadwyedd, nid pen y daith. Ni fyddwn yn trawsnewid pethau dros nos ond rhaid inni ganfod ffyrdd i wneud gwahaniaeth ym mywydau pobl Cymru drwy gael effaith yn gynnar ar rai o'n problemau presennol. Mae Aelodau wedi awgrymu materion posibl a byddaf yn eu hystyried gyda Christine. Bydd y broses ymgynghori yn amlygu llawer mwy o syniadau yn y pen hwn.

Wrth fynd â'r cynllun hwn rhagddo rhaid inni fod yn glir ynghylch yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni yn y tymor hir. Mae darganfod barn pobl Cymru yn bwysig i ansawdd bywyd a bydd hyn yn rhan o'r broses ymgynghori. Yr wyf yn amau y bydd pethau fel cartrefi cynhesach, ynni-effeithiol, gwell systemau cludiant cyhoeddus a'r gallu i gerdded y strydoedd yn ddiogel yn ymddangos ar restr o'r fath ond ni chawn

objectives will help us and our successors set short-term goals and measure progress. This is our chance to renew Wales—*adnewyddu Cymru*. The drafting of the scheme will now start in earnest. I will ensure that all Members have a chance to contribute and I welcome your help and any expert comments because, as Sue Essex said, we do not have a monopoly on this. I urge you to support the motion and the broad principles it covers.

The Presiding Officer: We will vote first on the amendment.

*A vote was held by show of hands.
Amendment rejected.*

The Presiding Officer: We will now vote on the motion.

*A vote was held by show of hands.
Motion adopted.*

wybod yn sicr heb ofyn. Bydd amcanion tymor hir yn ein helpu ni a'n hollynwyr i bennu nodau tymor byr a mesur cynnydd. Dyma'n cyfle i adnewyddu Cymru. Bydd y gwaith o ddraffio'r cynllun yn dechrau o ddirif yn awr. Byddaf yn sicrhau y caiff pob Aelod gyfle i gyfrannu a byddaf yn croesawu'ch cymorth ac unrhyw sylwadau arbenigol oherwydd, fel y dywedodd Sue Essex, nid oes gennym fonopoli ar hyn. Fe'ch anogaf i gefnogi'r cynnig a'r egwyddorion bras sydd dan sylw ynddo.

Y Llywydd: Fe bleidleisiwn yn gyntaf ar y gwelliant.

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Gwrthodwyd y gwelliant.*

Y Llywydd: Fe bleidleisiwn yn awr ar y cynnig .

*Cynhaliwyd pleidlais drwy ddangos dwylo.
Derbyniwyd y cynnig.*

Dadl Fer Short Debate

Gweithredu Cynllun Iawndal ar gyfer Glowyr Implementation of a Compensation Scheme for Miners

Dafydd Wigley: Mae yna adegau, Lywydd, pan na allaf lai na theimlo bod gwleidyddiaeth yn troi mewn cylch. Byddwch yn cofio'n dda, y tro diwethaf yr oedd Llywodraeth Lafur mewn grym yn Llundain, rhwng 1974 a 1979, mai un o'r ymgyrchoedd poethaf oedd yr un i sicrhau iawndal i weithwyr a oedd yn dioddef o afiechydon diwydiannol ar yr ysgyfaint. Yr oedd y rhain yn cynnwys gweithwyr yn y diwydiannau glo, llechi a chotwm, yn ogystal â gweithwyr mewn ffwrneisi haearn a chrochendai. Bu'n rhaid cynnal ymgyrch hir a chaled i gael iawndal i'r gweithwyr eraill hyn, gan gynnwys y chwarelwyr, a'r unig ffordd y sicrhawyd Deddf Pneumoconiosis 1979 oedd trwy ddal gwn wrth ben y Llywodraeth Lafur ar ei gwely angau.

Unwaith eto yr ydym yn gorfod dadlau achos sydd yn fater pwysig i filoedd o gyn-lowyr a'u gweddwon yng Nghymru ac sydd hefyd o

Dafydd Wigley: There are times, Presiding Officer, when I feel that politics turn in a full circle. You will well remember the last time there was a Labour Government in power in London, between 1974 and 1979, one of the most heated campaigns was the one to ensure compensation for workers who were suffering from industrial lung diseases. These included workers in the mining, slate and cotton industries as well as workers in iron furnaces and potteries. A long and hard campaign had to be fought to secure compensation for these workers, including the quarrymen, and the Pneumoconiosis Act 1979 was secured only by holding a gun to the Labour Government's head as it lay on its deathbed.

Again we are having to debate a case which is an important issue for thousands of former miners and their widows in Wales and also of

bwys i gannoedd o gyn-chwarelwyr a'u gweddwon hwythau. Bellach fe gydnabyddir emffysema a llid y frest cronig fel cyflyrau diwydiannol yn achos glowyr, ac fe enillwyd achos uchel lys gan undeb NACODS yn Ionawr 1998. Manteisiaf ar y cyfle i dalu teyrnged gynnes iawn i'w hysgrifennydd, Bleddyn Hancock, a oedd yn ymgeisydd Plaid Cymru ar gyfer y Cynulliad ym Mhontypridd fis Mai.

4:59 p.m.

Chwaraeodd Bleddyn a NACODS ran gwbl ganolog i sicrhau'r fuddugoliaeth honno, a ddylai fod wedi arwain at daliadau sylweddol i filoedd o ddiodefwrwr. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth yn dal i ddisgwyl ac y mae hyn yn warth.

Pan enillwyd yr achos yn Ionawr 1998, amcangyfrifwyd bod 150,000 o gyn-lowyr a'u gweddwon trwy Brydain â'r hawl i iawndal. Yr oedd cynifer â 40,000 o'r rhain yng Nghymru. Er bod yr achos wedi parhau am fisoedd—yr achos iawndal hiraf yn hanes cyfraith Prydain—nid oedd y Llywodraeth wedi paratoi i ddarparu cyfundrefn i ddelio â'r ceisiadau pe bai'r undeb yn ennill yr achos. Aeth misoedd heibio heb i'r Llywodraeth gytuno ar ddull o wneud taliadau. Erbyn Tachwedd 1998 amcangyfrifwyd bod 1,000 o lowyr wedi marw ers yr achos llys, heb iddynt dderbyn dim o'r iawndal yr oedd ganddynt yr hawl i'w ddisgwyl. Yr oedd tua 500 o'r rhain yng Nghymru. Cymerodd tan 26 Mawrth eleni i sefydlu cyfundrefn i ddelio â cheisiadau. Y gwarth yw, erbyn heddiw, 20 mis ar ôl ennill yr achos llys a chwe mis ers llunio drafft o gytundeb cyfreithiol, fod y Llywodraeth yn dal heb arwyddo'r cytundeb ac yn hollti blew ynglŷn â manylion.

Yr oedd yr achos llys i fod yn achos prawf ac yr oedd y Llywodraeth yn derbyn hynny. Ar sail y dyfarniad yn yr achos prawf, disgwyliad y byddai miloedd o achosion eraill yn cael eu setlo.

Dywedodd Alun Michael ar 29 Ebrill eleni, wythnos cyn etholiadau'r Cynulliad:

'The Labour Government has made compensation for miners one of its top priorities. The Tories blocked compensation for seven years. Labour has delivered in 16 months.'

importance to hundreds of former quarrymen and their widows. It is now recognised that emphysema and chronic bronchitis are industrial conditions in the case of miners, and a high court case was won by the NACODS union in January 1998. I take advantage of this opportunity to pay a warm tribute to their secretary, Bleddyn Hancock, who was a Plaid Cymru candidate for the Assembly in Pontypridd in May.

Bleddyn and NACODS played an absolutely central part in ensuring that victory, which should have led to substantial payments for thousands of sufferers. However, the vast majority are still waiting and this is a disgrace.

When the case was won in January 1998, it was estimated that 150,000 former miners and their widows in Britain had the right to compensation. As many as 40,000 of these were in Wales. Even though the case ran for months—the longest compensation case in British legal history—the Government had not prepared a system to deal with claims if the union won the case. Months went by without the Government agreeing on a way of making payments. By November 1998 it was estimated that 1,000 miners had died since the court case, without having received any of the compensation that they were entitled to expect. About 500 of them were in Wales. It took until 26 March this year to establish a system to deal with claims. The disgrace is that today, 20 months after winning the court case and six months after coming to a draft legal agreement, the Government has still not signed the agreement and is splitting hairs about details.

The court case was meant to be a test case and the Government accepted that. On the basis of the ruling in the test case, it was expected that thousands of other cases would be settled.

Alun Michael said on 29 April this year, a week before the Assembly elections:

Y gwir yw nad yw Llafur wedi cyflawni ei addewid hyd yma. Mewn llythyr ataf fi ym Mai, ysgrifennodd John Battle AS, y Gweinidog yn yr Adran Ddiwydiant a Masnach a oedd yn delio â'r mater bryd hynny:

The truth is that Labour has not fulfilled this promise so far. In a letter to me in May, John Battle MP, the Minister at the Department of Trade and Industry who was dealing with the matter at that time, wrote:

'I remain hopeful that significant numbers of full and final settlement offers for valid claims will start flowing in the second half of this year.'

Yr ydym hanner ffordd drwy ail hanner eleni ac nid oes golwg o ddim eto. Yr unig beth a dalwyd hyd yma yw'r taliadau dros dro gwerth rhyw £33 miliwn. Mae hyn yn erbyn bil cyflawn o £1.5 biliwn. Felly, 2c yn y bunt o'r iawndal taladwy sydd wedi ei dalu hyd yma. Yn ôl yr hyn a ddeallaf gan yr undeb, dim ond yr wyth person a ddaeth â'r achos prawf gerbron y llys—pump ohonynt o Gymru—sydd wedi derbyn yr iawndal llawn.

We are half way through the second half of this year and there is no sign of anything yet. The only payments made so far are interim payments worth about £33 million. This is against a full bill of £1.5 billion. Therefore, 2p in the pound of the compensation that is due to be paid has been paid so far. From what I understand from the union, only the eight people who brought the test case before the court—five of them from Wales—have so far received the full compensation.

Beth yn enw pob rheswm sydd yn dal y taliadau hyn yn ôl? Gwelwyd yr wythnos diwethaf yr esgusion a wnaethpwyd gan y Gweinidog yn yr Adran Ddiwydiant a Masnach sydd â chyfrifoldeb, sef Helen Liddell AS. Da oedd deall y bu rhaid iddi ddod i Gaerdydd ddoe i esbonio'r sefyllfa. Amser a ddengys a fydd hyn yn arwain at daliadau llawn a buan.

What on earth is holding back these payments? We saw last week the excuses made by the Minister responsible at the Department of Trade and Industry, Helen Liddell MP. It was good to hear that she had to come to Cardiff yesterday to explain the situation. Time will tell if this will lead to full and immediate payments.

Pan oeddem wedi cornelu'r Llywodraeth Lafur yn 1979, pasiwyd Deddf drwy'r Senedd—pob rhan o'r broses ddeddfu—mewn dau ddiwrnod yn unig. Dyna sydd yn digwydd pan mae yna ewyllys wleidyddol. Ymddengys i mi nad yw'r ewyllys gan y Llywodraeth Lafur yn Llundain yn awr i ddod â setliad anrhydeddus a buan i'r dioddefwyr. Dyna paham yr wyf yn galw heddiw ar y Cynulliad Cenedlaethol i godi llais ar ran pobl Cymru a dioddefwyr trwy'r ynnysoedd hyn.

When we had cornered the Labour Government in 1979 an Act was passed through Parliament—every part of the law-making process—in just two days. That is what happens when the political will exists. It seems to me that the Labour Government in London does not now have the will to bring about an honourable and swift settlement for the sufferers. That is why I call today on the National Assembly to raise its voice on behalf of the people of Wales and sufferers throughout these islands.

It is an absolute disgrace that disabled miners and their widows have been kept waiting for 20 months for compensation to which they are legally entitled. I am calling today on the First Secretary, on behalf of the Assembly, to make it clear to his colleagues in London that this delay is unacceptable. Full payment should be made now.

Mae'n gwbl warthus bod glowyr anabl a'u gweddwon wedi gorfod aros 20 mis am iawndal y mae ganddynt hawl cyfreithiol i'w dderbyn. Galwaf heddiw ar y Prif Ysgrifennydd, ar ran y Cynulliad, i roi ar ddeall i'w gydweithwyr yn Llundain fod yr oedi hwn yn annerbyniol. Dylid rhoi tâl llawn ar unwaith.

Wrth imi bwysu ar ran y glowyr a'u gweddwon, a gaf hefyd godi achos y chwarelwyr llechi a'u gweddwon hwythau. Nid oes dwywaith bod chwarelwyr llechi yn dioddef o emffysema a llid y frest o ganlyniad i'w gwaith. Mae'r dystiolaeth i'w gweld ym mhob un o'n cymunedau chwarelyddol—yn Neiniolen, Llanberis, Dyffryn Nantlle, Bethesda, Ffestiniog a Chorris. Mae meddygon yn argyhoeddedig fod cysylltiad rhwng yr afiechydon a natur y gwaith. Mae Dr John Williams o ysbyty Halton ger Lerpwl, a wnaeth waith gwerthfawr yn y maes hwn, yn ceisio darbwyllo'r awdurdodau i dderbyn y cysylltiad.

Yn anffodus, nid felly y mae'r Llywodraeth Lafur yn Llundain yn gweld pethau. Fel yn y 1970au, maent hyd yma wedi gwrthod cydnabod achos y chwarelwyr. Er mai dim ond cannoedd o chwarelwyr sydd ar ôl o'u cymharu â'r miloedd o gyn-lowyr, cyfiawnder yw cyfiawnder ac maent yn haeddu pob cydnabyddiaeth.

Yn ogystal â'r chwarelwyr, erys rhai agweddau eraill ynglŷn â chael iawndal teg i'r glowyr. Un enghraifft yw'r dicter ymhlith cyn-lowyr ynglŷn â'r modd y mae'r Llywodraeth wedi dwyn arian o gronfa bensiwn y glowyr i'w ddefnyddio i ddibenion eraill.

It is incredible that the Labour Government has the brass-necked cheek to purloin no less than £748 million to date out of the miners' pension fund. The money has been used for general Government spending at a time when they have held back from paying the due compensation to the miners. Next month the fund will be revalued again. Is the Government waiting in the hope of grabbing another £750 million from the pension fund and thereby securing the £1.5 billion needed to pay the compensation? Is what we are witnessing nothing less than the Labour Government compensating ex-miners by paying them out of their own pension funds? When Labour was in opposition they rightly condemned governments raiding pension funds. Now that they are in government, they are doing exactly the same thing.

Mae problemau eraill hefyd, megis y modd y

As I bring pressure to bear on behalf of the miners and their widows, may I also raise the case of the quarrymen and their widows. There is no doubt that quarrymen suffer from emphysema and bronchitis as a result of their work. The evidence is seen in all our quarrying communities—in Deiniolen, Llanberis, the Nantlle Valley, Bethesda, Ffestiniog and Corris. Doctors are convinced that there is a link between the diseases and the nature of the work. Dr John Williams from Halton hospital near Liverpool, who has carried out invaluable work in this field, is trying to persuade the authorities to accept the link.

Unfortunately, that is not how the Labour Government in London sees things. As in the 1970s, they have so far refused to acknowledge the case of the quarrymen. Although there are only hundreds of quarrymen left compared to thousands of former miners, justice is justice and they deserve every recognition.

In addition to the quarrymen, some other aspects of winning fair compensation for the miners remain. One example is the anger among former miners about the way the Government has stolen money from the miners' pension fund and used it for other purposes.

Mae'n anhygoel fod gan y Llywodraeth Lafur yr wyneb i ddwyn cymaint â £748 miliwn hyd yn hyn o gronfa bensiwn y glowyr. Defnyddiwyd yr arian ar wariant cyffredinol y Llywodraeth ar adeg pan maent wedi ymatal rhag talu'r iawndal sydd yn ddyledus i'r glowyr. Y mis nesaf caiff y gronfa ei hailbrisio eto. A yw'r Llywodraeth yn disgwyl yn y gobaith o gael bachu £750 miliwn arall o'r gronfa bensiwn a thrwy hynny sicrhau'r £1.5 biliwn y mae ei angen i dalu'r iawndal? Ai'r hyn a welwn yw'r Llywodraeth Lafur yn talu iawndal i gyn-lowyr o'u cronfeydd pensiwn eu hunain? Pan oedd Llafur yn wrthblaid yr oedd â'i llach yn gyfiawn ar lywodraethau am ysbeilio cronfeydd pensiwn. A hwythau bellach yn llywodraeth, maent yn gwneud yr un peth yn union.

There are other problems too, such as the

mae'r Llywodraeth yn gwrthod ôl-ddyddio'r iawndal i 1947, gan ddadlau nad oes rhaid talu cyn 1954 yn ôl y gyfraith oherwydd effaith y Statud Cyfyngiadau. Mae cyfrifoldeb moesol ar y Llywodraeth, onid un cyfreithiol, i gydnabod yr hen achosion hyn.

Rhaid sicrhau nad yw'r taliadau yn achosi i ddiodefwyr gollu taliadau nawdd cymdeithasol. Fel gwrthblaid, yr oedd Llafur yn ddigon llym ar y system tynnu iawndal yn ôl a sefydlwyd gan y Llywodraeth Geidwadol. Rhaid iddynt hwy beidio â gweithredu yn yr un modd.

Mae'r Llywodraeth yn gwneud môr a mynydd o'r broses o ailasesu cyflwr meddygol pob ymgeisydd. Maent wedi creu rhestr o ymgynghorwyr i ymdrin â'r achosion, ac mae hyn yn berthnasol hefyd i achosion o *vibration white finger* sydd hefyd yn disgwyl iawndal. Mae'r Llywodraeth wedi bod yn gwrthod tystiolaeth arbenigwyr meddygol eraill. Gallai fod wedi gweithio o gofnodion meddygon teulu y diodefwyr, yn enwedig wrth sefydlu hawliau gweddwon. Dim ond y mis hwn y mae'r Llywodraeth yn penodi person i gydgyssylltu â'r meddygon teulu. Dylent fod wedi gwneud hyn fisoedd yn ôl.

The case of Mr Price of Newbridge is an example of the scandalous delaying tactics used by the Government. Mr Price has already been granted industrial injuries disablement benefit. The adjudicating medical authority recognised in July 1997 that he had a 20 per cent disability for life, based specifically on the chronic bronchitis and emphysema reducing his lung function. Yet he was forced to go through further medical tests and has been refused even an interim payment so far. The case of Mr Price is replicated throughout the coalfield and is a severe indictment of Government's approach to the issue.

David Melding: The Conservatives would like to support your calls to expedite these procedures as soon as possible. Following the High Court decision, it is important that no barriers are placed. It has to be done sensitively as there is a need to get medical

way the Government refuses to backdate the compensation to 1947, arguing that according to the law there is no need to pay it prior to 1954 because of the effect of the Statute of Limitations. The Government has a moral responsibility, if not a legal one, to acknowledge these old cases.

We must ensure that the payments do not lead to the sufferers losing out on social security payments. In opposition, Labour severely criticised the compensation clawback system established by the Conservative Government. They must not act in the same manner themselves.

The Government is making a mountain out of a molehill of the process of reassessing the medical condition of every applicant. They have created a list of consultants to deal with the cases, and this is also relevant to the cases of vibration white finger which are awaiting compensation. The Government has been rejecting the evidence of other medical specialists. It could have worked from the GP records of the sufferers, especially in establishing the rights of widows. It is only this month that the Government is appointing a person to liaise with the GPs. They should have done this months ago.

Mae achos Mr Price o Drecelyn yn enghraifft o'r dacteg oedi warthus a ddefnyddir gan y Llywodraeth. Dyfarnwyd budd-dal anabledd o anafiadau diwydiannol i Mr Price eisoes. Yng Ngorffennaf 1997 cydnabu'r awdurdod meddygol a oedd yn dyfarnu fod ganddo 20 y cant o anabledd am oes, yn seiliedig yn benodol ar y gostyngiad yng ngweithrediad ei ysgyfaint oherwydd llid y frest cronig ac emffysema. Ac eto fe'i gorfodwyd i gymryd profion meddygol pellach a gwrthodwyd rhoi hyd yn oed taliad dros dro iddo hyd yn hyn. Ceir lluo o achosion tebyg i un Mr Price drwy'r maes glo ac mae'n feirniadaeth ddifrifol ar agwedd y Llywodraeth at y mater.

David Melding: Hoffai'r Ceidwadwyr gefnogi eich galwadau am gyflymu'r gweithdrefnau hyn cyn gynted ag y bo modd. Ar ôl penderfyniad yr Uchel Lys, mae'n bwysig na chodir unrhyw rwystrau. Rhaid gwneud hyn mewn modd sensitif gan

advice. That should not be an impediment or an excuse to draw out the process. I also want to put on record our belief that we must set precedents for the future here. Life expectancy is increasing in general and those who have suffered chronic ill health as a result of employment practices many decades ago ought to expect legal recourse. That principle should be underlined.

David Lloyd: As you know, for the last 15 years I have been a GP in Fforestfach, where there were six coal mines. The campaign on the delay in payment of justified compensation to ex-miners and their widows has been going on locally for more than 15 months. Meetings were held in Gwauncaegurwen with representations from people in Gorseinon, Pen-clawdd, Newbridge; indeed everywhere. Emphysema is not just a glib little phrase, one little word on a piece of paper that means shortness of breath, as Dr Brian Gibbons would know. It is the permanent shortness of breath day and night, and the inability to do anything without a feeling of having just run a race. That has been caused by a Government-owned industry. It was a disgrace that it took 11 years for NACODS to win the court case as it is a long-established medical fact that coal dust causes emphysema. As Dafydd Wigley mentioned, it is a further disgrace that two years after the case was won with an estimated pay out of £1.5 billion, ex-miners and their widows have, so far, only seen £27 million of the original pay out. That is not good enough and is not even close to resolving these problems. We quibble about delays on tests, but what possible reason is there for delaying payment to the miners' widows? Must they also be tested? I call for justice and a stop to delays. Do not use the miners' pension funds to pay their compensation.

5:09 p.m.

Kirsty Williams: As the grand-daughter of an ex-miner who died from the effects of emphysema, I add the Liberal Democrats' support to your comments this afternoon and I echo Dai Lloyd's and David Melding's

fod angen cael cyngor meddygol. Ni ddylai hynny fod yn rhwystr nac yn esgus i ymestyn y broses. Yr wyf hefyd am gofnodi ein cred bod rhaid inni osod cynsail ar gyfer y dyfodol yn y fan hyn. Mae'r disgwyliad einioes yn cynyddu'n gyffredinol a dylai fod modd i rai a ddiodefodd iechyd gwael hirfaith o ganlyniad i arferion cyflogaeth lawer o ddegawdau yn ôl ddisgwyl cael cymorth gan y gyfraith. Dylid tanlinellu'r egyddor honno.

David Lloyd: Fel y gwyddoch, bûm yn feddyg teulu dros y 15 mlynedd diwethaf yn Fforest-fach, lle'r oedd chwe phwll glo. Mae'r ymgyrch ynghylch yr oedi cyn talu iawndal teg i gyn-lowyr a'u gweddwon ar y gweill yn yr ardal ers 15 mis a mwy. Cynhaliwyd cyfarfodydd yng Ngwauncaegurwen lle cafwyd cyfraniadau gan bobl o Orseinon, Pen-clawdd, Trecelyn; pobman yn wir. Mae emffysema yn fwy na gair bach slic, un gair bach ar ddarn o bapur sydd yn golygu diffyg anadl, fel y gwyr Dr Brian Gibbons. Mae'n golygu diffyg anadl ddydd a nos, a'r anallu i wneud dim heb deimlo eich bod newydd redeg ras. Achoswyd hynny gan ddiwydiant o eiddo'r Llywodraeth. Yr oedd yn warth ei bod wedi cymryd 11 mlynedd i NACODS ennill yr achos llys oherwydd mae'n ffaith feddygol hir-gydnabyddedig bod llwch glo yn achosi emffysema. Fel y dywedodd Dafydd Wigley, mae'n warth ychwanegol, ddwy flynedd ar ôl ennill yr achos a thaliad a amcangyfrifir yn £1.5 biliwn, nad yw cyn-lowyr a'u gweddwon ond wedi derbyn £27 miliwn, hyd yn hyn, o'r taliad gwreiddiol. Nid yw hynny'n ddigon da ac nid yw'n agos at ddatrys y problemau hyn. Byddwn yn hollti blew ynghylch oedi mewn profion, ond am ba reswm posibl y gellir gohirio taliadau i weddwon cyn-lowyr? A oes rhaid iddynt hwy gael prawf hefyd? Galwaf am gyfiawnder ac am ddiwedd ar yr oedi. Peidiwch â defnyddio cronfeydd pensiwn y glowyr i dalu eu iawndal.

Kirsty Williams: Fel wyres i gyn-löwr a fu farw o effeithiau emffysema, ategaf gefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol i'ch sylwadau y prynhawn yma ac ategaf bryderon Dai Lloyd a David Melding. Mae'r

concerns. The battle for compensation has been too long. Seven years of resistance by the last Tory Government was bad enough, but we have now added insult to the injury already suffered by those families through further delays. As Dafydd said, 500 miners died while they waited for these decisions to be made. The complicated and demanding testing regimes and procedures are already backlogged. There is a three-month waiting list for the preliminary test, when the doctor visits the miner in his home. The miner must then travel to a test centre to undergo a second test before his claim can be processed.

As Dai rightly said, what excuse or justification is there for the 6,000 widows and next-of-kin who have already paid the ultimate price of losing their loved ones? We support you in this motion and urge the Government to do the decent thing and pay up.

Dafydd Wigley: Mae'r saga hon wedi parhau'n rhy hir. Mae pobl yn dioddef ac yn haeddu iawndal; mae ganddynt hawl cyfreithiol iddo. Rhaid iddynt dderbyn tâl ac yn llawn a rhaid estyn y cynllun i weithwyr eraill megis y chwarelwyr. Gadawer i lais Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei glywed yn unol ac yn ddigamsyniol ar y mater hwn. Yr wyf yn mawr obeithio y bydd y Prif Ysgrifennydd, wrth ymateb, yn ymuno â'r galwadau hyn am gyfiawnder i filoedd led-led Cymru a'r ynysoedd hyn sydd wedi colli eu hiechyd oherwydd amgylchiadau eu gwaith.

Y Prif Ysgrifennydd: I raddau, mae Dafydd Wigley wedi curo ar ddrws agored. Beth yw diben rhedeg ymlaen cyn i waith y cyfreithwyr gael ei gwblhau?

The continuing delays on finalising the compensation for those with respiratory diseases result from the lawyers' delay in signing an agreement that was reached in July. We must be clear about where the delays lie. It is not a question of the Government delaying the process. That is the last thing that it has done.

Pam gwneud pwynt gwleidyddol o'r mater

frwydr am iawndal wedi parhau'n rhy hir. Yr oedd saith mlynedd o wrthwynebiad gan y Llywodraeth Doriadaidd ddiwethaf yn ddigon drwg, ond yn awr yr ydym wedi rhoi halen ar y briw a ddioddefodd y teuluoedd hynny eisoes drwy oedi pellach. Fel y dywedodd Dafydd, bu farw 500 o lowyr tra oeddent yn disgwyl am y penderfyniadau hyn. Mae ôl-groniat o achosion eisoes yn disgwyl mynd drwy'r cyfundrefnau a'r gweithdrefnau profi anodd a chymhleth. Mae rhestr aros o dri mis ar gyfer y prawf rhagarweiniol, lle y bydd meddyg yn ymweld â'r glöwr yn ei gartref. Rhaid i'r glöwr deithio wedyn i ganolfan brofion i gael ail brawf cyn y gellir prosesu ei gais.

Fel y dywedodd Dai, pa esgus neu gyfiawnhad sydd yn achos y 6,000 o weddwon a pherthnsau agos sydd eisoes wedi talu'r pris eithaf o golli eu hanwyliaid? Yr ydym yn eich cefnogi yn y cynnig hwn ac yn annog y Llywodraeth i wneud y peth iawn a thalu ar ei ben.

Dafydd Wigley: This saga has been going on for too long. People are suffering and deserve compensation; they have a legal right to it. They must be paid swiftly and in full and the scheme must be extended to other workers like such as the quarrymen. Let the voice of the National Assembly for Wales be heard in unison and without equivocation on this matter. I greatly hope that the First Secretary, in his response, will join in these demands for justice for thousands throughout Wales and these islands who have lost their health due to their work conditions.

The First Secretary: Dafydd Wigley has knocked on an open door to a certain extent. What is the point of running ahead before the lawyers' work has been completed?

Mae'r oedi sy'n parhau o ran cwblhau trefniadau'r iawndal i rai ag afiechydon anadlol yn ganlyniad i oedi gan y cyfreithwyr cyn arwyddo cytundeb a wnaethpwyd yng Ngorffennaf. Rhaid inni fod yn glir ynghylch lle y mae'r oedi. Nid yw'n fater o arafu'r broses gan y Llywodraeth. Y gwrthwyneb i hynny sydd yn wir.

Why make a political point of this matter in

hwn a chwithau'n Aelod Seneddol â'r cyfle i godi'r mater gyda Gweinidogion?

I need to emphasise strongly that Dafydd has misrepresented the pension funds issue. He ignored the correction and the information that I, as Secretary of State for Wales, gave to the House of Commons. It is not a matter of raiding pension funds but of using an agreement to underpin pension funds to guarantee those of miners. This Government has taken the money to which it is entitled and placed a large proportion of it into funds to help former mining communities.

Jocelyn Davies: Did Labour when in opposition not describe it as 'a rip-off'? If it was a rip-off then, it is a rip-off now.

The First Secretary: The rip-off was the money being taken out of pension funds and not being put into funds to help mining communities. I have not described it as 'a rip-off'. I have described the way in which the money coming to Government to help mining communities—from an agreement that was made by the previous Government—is a sensible way of using money. Mining communities have suffered long. We were using money that came to the Government under that arrangement, as I agreed, as Secretary of State for Wales, with John Prescott and Donald Dewar, to ensure that there was a fund to develop mining communities.

The issue is an emotive and serious one that touches fundamental concerns such as social justice. This includes the treatment of elderly and vulnerable people in our society and the way in which we take responsibility for injuries caused by years of hard work in one of our country's key strategic industries, the coal industry. The diverse and dynamic industrial basis of south and north-east Wales has been founded on the legacy of the coal industry. It was miners' hard work in dangerous and difficult conditions that laid the groundwork for the relative economic prosperity that we enjoy today. Not only in the Valleys do we enjoy it but also in Cardiff Bay, formerly one of the largest, if not the largest, coal exporting ports in the world. We

view of the fact that you are a Member of Parliament with the opportunity to raise the matter with Ministers?

Rhaid imi bwysleisio'n gryf fod Dafydd wedi camddehongli mater y cronfeydd pensiwn. Anwybyddodd y cywiriad a'r wybodaeth a roddais, fel Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i Dŷ'r Cyffredin. Nid yw'n fater o ysbeilio cronfeydd pensiwn ond o ddefnyddio cytundeb i gyfnerthu cronfeydd pensiwn i warantu rhai'r glowyr. Mae'r Llywodraeth wedi cymryd yr arian y mae ganddi hawl iddo ac wedi rhoi cyfran fawr ohono mewn cronfeydd i helpu cyn-gymunedau glofaol.

Jocelyn Davies: Oni wnaeth Llafur ddisgrifio hyn fel 'twyll' pan oedd yn wrthblaid? Os oedd yn dwyll bryd hynny, mae'n dwyll o hyd.

Y Prif Ysgrifennydd: Digwyddodd y twyll pan gymerwyd yr arian o'r cronfeydd pensiwn heb ei roi mewn cronfeydd i helpu cymunedau glofaol. Nid wyf wedi ei ddisgrifio fel 'twyll'. Disgrifiais sut yr oedd y modd y daeth arian i'r Llywodraeth i helpu cymunedau glofaol—drwy gytundeb a wnaethpwyd gan y Llywodraeth flaenorol—yn fodd synhwyrol o ddefnyddio arian. Mae cymunedau glofaol wedi dioddef yn hir. Yr oeddem yn defnyddio arian a ddaeth i'r Llywodraeth o dan y trefniant hwnnw, fel y cytunais, pan oeddwn yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru, gyda John Prescott a Donald Dewar, i sicrhau bod cronfa i ddatblygu cymunedau glofaol.

Mae'r mater yn un emosiynol a difrifol sydd yn cyffwrdd â phryderon sylfaenol fel cyfiawnder cymdeithasol. Mae hyn yn cynnwys y driniaeth o bobl oedrannus a hyglwyf yn ein cymdeithas a'r modd y byddwn yn ymgymryd â chyfrifoldeb dros anafiadau a achoswyd drwy flynyddoedd o waith caled yn un o brif ddiwydiannau strategol ein gwlad, y diwydiant glo. Mae'r sylfaen ddiwydiannol amrywiol a dynamig yn ne ac yng ngogledd-ddwyrain Cymru yn seiliedig ar etifeddiaeth y diwydiant glo. Gwaith caled y glowyr o dan amodau anodd a pheryglus a osododd sylfaen y ffyniant economaidd cymharol yr ydym yn ei fwynhau heddiw. Nid yn y Cymoedd yn unig yr ydym yn mwynhau hynny ond ym Mae

cannot and must not forget those who are suffering as a result of poor health due to insufficient care from their employers at the time. That is the background.

Geraint Davies *rose*—

Brian Gibbons: *rose*—

I am glad to have the opportunity to debate this matter today and to put on record my total commitment and that of the Labour Party, to stand up for those ex-miners and their widows who are suffering as a result of mining-related respiratory diseases and vibration white finger. I do not want to introduce a party political element to the debate, but Dafydd made some points that need to be refuted. Dafydd, I must take you to task as this is a Westminster issue and you are a Westminster MP. Why have you not pursued the matter with Department of Trade and Industry Ministers? You declared a party element in your inspiration for the debate. However, in caring for miners and mining communities, we will not take lessons from Plaid Cymru and we certainly will not take lessons from the Conservative Party, which erected enormous barriers against miners' rights. I have all sympathy for Dai Lloyd in commenting from his experience as a doctor, rather than making a party political point.

Helen Mary Jones *rose*—

The Presiding Officer: Order. Alun, Helen Mary is trying to intervene.

The First Secretary: The interventions should be answered in turn.

Geraint Davies: I want to raise a point about the people who worked in the mines before 1954 who will not receive compensation. There are people in my constituency who are suffering now. Will you use your influence in Parliament to change the law to enable these people to receive their rightful compensation?

The First Secretary: That is an important

Caerdydd hefyd, a oedd gynt ymhlith y mwyaf, os nad y mwyaf, o borthladdoedd allforio glo'r byd. Ni allwn ac ni fyddwn yn anghofio'r rhai sydd yn dioddef o ganlyniad i iechyd gwael oherwydd gofal annigonol gan eu cyflogwyr ar y pryd. Dyna'r cefndir.

Geraint Davies *a gododd*—

Brian Gibbons *a gododd*—

Mae'n dda gennyf gael y cyfle i drafod y mater hwn heddiw ac i gofnodi fy ymrwymiad llwyr, ac ymrwymiad llwyr y Blaid Lafur, i sefyll dros y cyn-lowyr hynny a'u gweddwon sydd yn dioddef o ganlyniad i afiechyd onadllo yn gysylltiedig â glofeydd a *vibration white finger*. Nid wyf am ddod ag elfen bleidiol wleidyddol i'r ddadl ond gwnaeth Dafydd rai pwyntiau y mae angen eu gwadu. Dafydd, rhaid imi eich galw i gyfrif gan fod hyn yn fater ar gyfer San Steffan ac yr ydych chi'n AS yn San Steffan. Pam nad ydych wedi codi'r mater gyda Gweinidogion yr Adran Diwydiant a Masnach? Bu ichi ddatgan elfen bleidiol yn eich ysbrydoliaeth ar gyfer y ddadl. Fodd bynnag, wrth ymorol am y glowyr a'r cymunedau glofaol, ni chymerwn ein dysgu gan Blaid Cymru ac, yn sicr, ni chymerwn ein dysgu gan y Blaid Geidwadol, a gododd rwystrau anferth yn erbyn hawliau'r glowyr. Mae gennyf bob cydymdeimlad â Dai Lloyd wrth iddo siarad o'i brofiad fel meddyg, yn hytrach na gwneud pwynt pleidiol wleidyddol.

Helen Mary Jones *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. Alun, mae Helen Mary yn ceisio ymyrryd.

Y Prif Ysgrifennydd: Dylid ateb yr ymyriadau yn eu tro.

Geraint Davies: Yr wyf am godi pwynt ynghylch y bobl a fu'n gweithio yn y pyllau glo cyn 1954 na fyddant yn yn derbyn iawndal. Mae yna bobl yn f'etholaeth i sydd yn dioddef yn awr. A wnewch chi ddefnyddio eich dylanwad yn y Senedd i newid y gyfraith fel y gall y bobl hyn dderbyn iawndal priodol?

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hwnnw'n bwynt

point that goes well beyond today's debate and the rulings of the courts. Those who took the case forward for legal action on behalf of miners accepted the 1960s cut-off date.

Brian Gibbons: Any of us who have dealt with those trying to claim compensation under the existing schemes realise the dissatisfaction that many claimants feel with the present scheme. I do not mean the court case, but the existing prescribed industrial diseases. One of the most consistent complaints that people have in trying to process their complaints is the inadequate assessment of their condition. Almost perfunctory examinations flow into a machine and for those who fail, out they go. If a person has a chest x-ray and not enough specks of dust appear on the x-ray, their case is not considered.

5:19 p.m.

People are asking for haste on this issue. However, it is important that we get the details right. People have various grades of illness. Unless we get the details right in assessing these illnesses, people will not get justice. Some cases will be assessed relatively quickly. However, other cases will need a detailed medical examination and it will take 30, 45 minutes or maybe a full hour to do the report. Assuming that there are 16,000 miners in south Wales who have to go through this process to get justice and fair play, the mind boggles at the amount of work involved.

People may say that other medical specialists can be brought in to do this. However, do people want paediatricians and gynaecologists coming in to do the assessment? There are a limited number of specialists in this area. If people need to be assessed, we must ensure that it is a full and expert assessment so that justice is done.

The First Secretary: We are having a short debate and I must answer Dafydd Wigley's points. It may well be that we need to return to this matter in a longer debate. Your points are very powerful ones, Brian, which people

pwysig sydd yn mynd ymhell y tu hwnt i'r ddadl heddiw a dyfarniadau'r llysoedd. Yr oedd y rhai a gyflwynodd yr achos ar gyfer gweithredu cyfreithiol ar ran y glowyr wedi derbyn mai'r 1960au fyddai'r dyddiad terfyn.

Brian Gibbons: Bydd unrhyw un ohonom sydd wedi ymdrin â rhai sydd yn ceisio hawlio iawndal o dan y cynlluniau presennol yn gwybod am yr anfonlonrwydd y mae llawer o'r hawlwr yn ei deimlo â'r cynllun presennol. Nid yr achos llys a olygaf, ond yr afiechydon diwydiannol a ragnodwyd eisoes. Un o'r cwynion a geir amlaf gan bobl sydd yn ceisio cael prosesu eu cwynion yw'r asesu annigonol ar eu cyflwr. Bydd archwiliadau'n llifo i beiriant mewn modd rywsut-rywsut braidd ac yn achos y rhai sydd yn methu, allan â hwy. Os caiff rhywun archwiliad pelydr-x ar ei frest a dim digon o frychau llwch yn ymddangos ar y llun, ni roddir ystyriaeth i'w achos.

Mae pobl yn gofyn am frys ar y mater hwn. Fodd bynnag, mae'n bwysig inni gael y manylion yn iawn. Mae gan bobl wahanol raddau o salwch. Os na chawn y manylion yn iawn wrth asesu'r afiechydon hyn, ni fydd pobl yn cael cyfiawnder. Asesir rhai achosion yn gymharol gyflym. Fodd bynnag, bydd angen archwiliad meddygol manwl ar gyfer achosion eraill ac fe gymer 30 munud, 45 munud neu efallai awr gyfan i wneud yr adroddiad. Gan gymryd bod 16,000 o lowyr yn ne Cymru sydd yn gorfod mynd drwy'r broses hon i gael cyfiawnder a chwarae teg, anodd yw amgyffred maint y gwaith sydd dan sylw.

Efallai y bydd rhai'n dweud y gellir dod ag arbenigwyr meddygol eraill i mewn i wneud hyn. Fodd bynnag, a yw pobl am weld pediatregwyr a gynecolegwyr yn dod i mewn i wneud yr asesiad? Nid oes ond nifer gyfyngedig o arbenigwyr yn y maes hwn. Os oes angen asesu pobl, rhaid inni sicrhau ei fod yn asesiad llawn ac arbenigol er mwyn sicrhau y ceir cyfiawnder.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydym yn cael dadl fer a rhaid imi ateb pwyntiau Dafydd Wigley. Mae'n eithaf posibl y bydd yn rhaid inni ddod yn ôl at y mater hwn mewn dadl hwy. Mae eich pwyntiau'n rhai grymus, Brian, y

need to reflect on. Following court rulings—

Gwenda Thomas *rose*—

The Presiding Officer: Order. Gwenda Thomas wants you to give way.

The First Secretary: I will respond to Dafydd's points then allow people to speak afterwards because some serious points have been raised.

Following court rulings, responsibility for providing compensation for respiratory diseases and vibration white finger to ex-miners rests, post privatisation, with the UK Government. I ceased to be Secretary of State for Wales in July, therefore I no longer speak formally for the Government. I am proud of the way that, after years of prevarication by the Tories, the Labour Government acted swiftly to put systems in place to compensate ex-miners and their widows fairly and as quickly as possible. We would all like it to have been much quicker.

Much of the delay in finalising compensation for those with respiratory disease, results from the delay in lawyers signing an agreement that was reached in July. As early as March this year, Health Call Services Ltd was appointed to carry out a national programme of spirometry testing to determine the extent of loss of lung function. Centres for this testing have been established throughout the country. I visited the centre in Newport shortly after it opened and there are others operating in Cardiff, Swansea and Mountain Ash. To date, 5,000 tests have been carried out at the centres and a further 8,500 ex-miners have been invited to make appointments. By the end of November, almost all claimants will have had the necessary spirometry tests. These will enable interim and final payments to be offered to the individuals concerned. Those miners whom I met at the Newport centre and the relatives who brought them were full of praise for the service that they had received and glad that things were moving at last.

bydd yn rhaid i bobl eu hystyried. Ar ôl dyfarniadau yn y llysoedd—

Gwenda Thomas *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. Mae Gwenda Thomas am ichi ildio.

Y Prif Ysgrifennydd: Atebaf bwyntiau Dafydd a gadael i bobl siarad wedyn oherwydd codwyd rhai pwyntiau pwysig.

Ar ôl dyfarniadau yn y llysoedd, mae'r cyfrifoldeb dros ddarparu iawndal am afiechydon anadlol a *vibration white finger* i gyn-lowyr yn perthyn, ar ôl preifateiddio, i Lywodraeth y DU. Peidiais â bod yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru yng Ngorffennaf, felly nid wyf mwyach yn siarad yn ffurfiol ar ran y Llywodraeth. Yr wyf yn falch o'r modd cyflym y gweithredodd y Llywodraeth Lafur, ar ôl blynyddoedd o anwadal gan y Torïaid, i sefydlu systemau i dalu iawndal i gyn-lowyr a'u gweddwon yn deg ac mor gyflym ag yr oedd modd. Byddem oll wedi dymuno i hynny ddigwydd yn gynt.

Mae llawer o'r oedi wrth gwblhau talu iawndal i'r rhai ag afiechyd anadlol yn ganlyniad i oedi ar ran cyfreithwyr wrth arwyddo cytundeb a wnaethpwyd yng Ngorffennaf. Cyn gynhared â Mawrth eleni, penodwyd Health Call Services Ltd i gynnal rhaglen genedlaethol o brofion sbirometreg i ganfod i ba raddau y collwyd gweithrediad yr ysgyfaint. Sefydlwyd canolfannau ar gyfer y profion hyn drwy'r wlad. Ymwelais â'r ganolfan yng Nghasnewydd yn fuan wedi iddi agor ac mae eraill ar waith yng Nghaerdydd, Abertawe ac Aberpennar. Hyd yn hyn, cynhaliwyd 5,000 o brofion yn y canolfannau ac mae 8,500 o gyn-lowyr eraill wedi eu gwahodd i drefnu apwyntiad. Erbyn diwedd Tachwedd, bydd bron y cwbl o'r hawlwyd wedi cael y profion sbirometreg angenrheidiol. O ganlyniad i'r rhain bydd modd cynnig taliadau dros dro a therfynol i'r unigolion dan sylw. Yr oedd y glowyr hynny y bu imi eu cyfarfod yn y ganolfan yng Nghasnewydd a'r perthnasau a'u hebryngodd yn llawn clod am y gwasanaeth a gawsant ac yn falch bod pethau'n symud o'r diwedd.

Some claimants and those who are not satisfied with the full and final payments, which they will have received, will go through the medical assessment process. Those will be prioritised according to their age and level of injury. The Department of Trade and Industry invited tenders for the provision of the necessary medical assessment process in July when the agreement was finally reached on the screen. I emphasise that the legal processes have taken considerable time. The successful tender bid is to be announced.

Even after the courts agreed that British Coal and its legal successors, the UK Government, were liable, it took a year of concentrated discussion with plaintiff solicitors to reach agreement on handling arrangements for settling the claims regarding vibration white finger. Having reached an agreement, the Department of Trade and Industry has moved quickly to put the necessary medical arrangements in place. It would be wrong to underestimate the complexity of the issues that have had to be dealt with, even by a Government strongly committed to doing things as quickly as possible. These arrangements are to be handled by Sema Group Medical Services UK, who will be setting up 12 centres in mining regions, at least two of which will be in Wales. The first of these is in Cardiff and opened last week.

Most claimants will have been tested by the end of next year. In the meantime and wherever possible, full and final payments are being made on the basis of cardiovascular consultants reports obtained by the claimants. Therefore, I am confident that the Labour Government has acted quickly and properly to put in place proper machinery to provide compensation to our miners. That is not to say that I am confident that this machinery is moving smoothly yet. I have been very concerned by some of the press reports about individual cases over recent months. Each of those needs to be examined individually, and Dafydd is quite right to highlight one.

I did not put out a press release resulting from these concerns but I took these issues up

Bydd rhai hawlwr a'r rhai nad ydynt yn fodlon â'r taliadau llawn a therfynol, y byddant wedi eu derbyn, yn mynd drwy'r broses asesu meddygol. Rhoddir blaenoriaeth i'r rhain yn ôl eu hoed a lefel yr anaf. Yr oedd yr Adran Diwydiant a Masnach wedi gwahodd tendrau am ddarparu'r broses asesu meddygol angenrheidiol yng Ngorffennaf pan gafwyd cytundeb o'r diwedd ynghylch y sgrinio. Pwysleisiaf fod y prosesau cyfreithiol wedi cymryd cryn amser. Mae'r cynnig tendr llwyddiannus i'w gyhoeddi.

Hyd yn oed wedi i'r llysoedd gyuno bod British Coal a'i olynwyr cyfreithiol, Llywodraeth y DU, yn atebol, cymerodd flwyddyn o drafodaethau manwl gyda chyfreithwyr yr achwynyddion i gael cytundeb ar y trefniadau trafod i setlo ceisiadau ynghylch *vibration white finger*. Ar ôl cyrraedd cytundeb, mae'r Adran Diwydiant a Masnach wedi symud yn gyflym i sefydlu'r trefniadau meddygol angenrheidiol. Ni ddylid tanbriso cymhlethdod y materion y mae'n rhaid ymdrin â hwy, hyd yn oed gan Lywodraeth sydd wedi ymrwymo'n gadarn i weithredu mor gyflym â phosibl. Mae'r trefniadau hyn i'w cyflawni gan Sema Group Medical Services UK a fydd yn sefydlu 12 canolfan mewn rhanbarthau glofaol, ac o leiaf ddwy o'r rhain yng Nghymru. Mae'r gyntaf o'r rhain yng Nghaerdydd ac fe'i hagarwyd yr wythnos diwethaf.

Bydd y rhan fwyaf o'r hawlwr wedi eu profi erbyn diwedd y flwyddyn. Yn y cyfamser a lle bynnag y bo modd, gwneir taliadau llawn a therfynol ar sail adroddiadau gan ymgynghorwyr cardiofasgwlar a geir gan yr hawlwr. Felly, yr wyf yn sicr bod y Llywodraeth Lafur wedi gweithredu'n gyflym ac yn briodol i sefydlu peirianwaith addas i ddarparu iawndal i'n glowyr. Nid yw hynny'n gyfystyr â dweud fy mod yn sicr bod y peirianwaith hwn yn symud yn rhwydd eto. Fe'm pryderwyd yn fawr gan rai o'r adroddiadau yn y wasg am achosion unigol dros y misoedd diwethaf. Mae angen archwilio pob un o'r rhain yn unigol, ac mae Dafydd yn iawn i dynnu sylw at un ohonynt.

Ni chyhoeddais ddatganiad i'r wasg o ganlyniad i'r pryderon hyn ond codais y

with UK Ministers. We have been in constant touch with the DTI, and last week I wrote to the recently appointed Minister for Energy and Industry, Helen Liddell, drawing her attention to the widespread concerns in Wales about the processing of these claims. Don Touhig and a number of other Members of Parliament and Assembly Members also contacted her. Helen Liddell responded to these concerns by visiting the Newport Spirometry Centre yesterday and by coming here to brief me and the Secretary of State for Wales, Paul Murphy, about the action she is taking.

In the course of her visit she announced that the Government is appointing a monitoring group to ask hard questions about the implementation of the compensation schemes, and this will include three members for Wales. An interviewer asked her why she had dropped everything to come to Wales. She replied that she could not, as someone who was brought up in a mining community and a mining family, live with her conscience if she did not reassure herself that everything was being done to settle these claims quickly and fairly. Her prompt response is an example of how the Assembly is working in close collaboration with our colleagues in the UK Government and with Labour colleagues at Westminster to champion the interests of the people of Wales. As First Secretary, I will continue to do so. I hope that I have responded to the points, but if there is time left I will be happy to take interventions.

The Presiding Officer: There is not much time left as we have already had 30 minutes.

David Lloyd *rose—*

The Presiding Officer: I am sorry. The First Secretary is giving way to Gwenda Thomas but I have to stress that this is the only intervention we can allow time for.

Gwenda Thomas: As the wife and daughter of ex-miners with an in-depth knowledge of the suffering of the miners in Gwauncaegurwen, I know that the vast majority of miners in Gwauncaegurwen recognise that without the Labour

materion hyn gyda Gweinidogion y DU. Buom mewn cysylltiad rheolaidd â'r Adran Ddiwydiant a Masnach, a'r wythnos diwethaf ysgrifennais at y Gweinidog dros Ynni a Diwydiant, Helen Liddell, a benodwyd yn ddiweddar, gan dynnu ei sylw at y pryderon eang yng Nghymru ynghylch prosesu'r ceisiadau hyn. Mae Don Touhig a nifer o Aelodau Seneddol eraill ac Aelodau o'r Cynulliad wedi cysylltu â hi hefyd. Ymatebodd Helen Liddell i'r pryderon hyn drwy ymweld â'r Ganolfan Sbirometreg yng Nghasnewydd ddoe a dod yma i'm briffio i ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Paul Murphy, am y camau y mae'n eu cymryd.

Yn ystod ei hymweliad cyhoeddodd fod y Llywodraeth yn penodi grŵp monitro i ofyn cwestiynau pendant ynghylch gweithredu'r cynlluniau iawndal, a bydd hwn yn cynnwys tri aelod o Gymru. Gofynnodd cyfwelydd iddi pam yr oedd wedi gollwng pob dim i ddod i Gymru. Atebodd na fyddai ganddi gydwybod dawel, fel un a fagwyd mewn cymuned lofaol ac mewn teulu o lowyr, pe na bai'n sicr bod popeth yn cael ei wneud i setlo'r ceisiadau hyn yn gyflym ac yn deg. Mae ei hymateb prydlon yn enghraifft o'r modd y mae'r Cynulliad yn cydweithredu'n agos â'n cydweithwyr yn Llywodraeth y DU a chyda chydweithwyr Llafur yn San Steffan i sefyll dros fuddiannau pobl Cymru. Fel Prif Ysgrifennydd, byddaf yn parhau i wneud hynny. Gobeithiaf fy mod wedi ateb y pwyntiau, ond os oes amser ar ôl byddaf yn falch o dderbyn ymyriadau.

Y Llywydd: Nid oes llawer o amser yn weddill gan ein bod eisoes wedi cael 30 munud.

David Lloyd *a gododd—*

Y Llywydd: Mae'n ddrwg gennyf. Mae'r Prif Ysgrifennydd yn ildio i Gwenda Thomas ond rhaid imi bwysleisio mai hwn yw'r unig ymyriad y gallwn ganiatáu amser ar ei gyfer.

Gwenda Thomas: Fel gwraig a merch i gyn-lowyr sydd â gwybodaeth fanwl am ddiodefaint y glowyr yng Ngwauncaegurwen, gwn fod y mwyafrif helaeth o lowyr yng Ngwauncaegurwen yn sylweddoli na fyddem yn trafod iawndal o

Government we would not be talking about compensation at all.

gwbl pe na bai Llywodraeth Lafur.

After the miners have received their compensation and a medical assessment, it is very important that quality advice is made available on the benefits question; their entitlement to constant attendance allowance for example. Will you as First Secretary seek to ensure that the Benefits Agency is ready to respond?

Wedi i'r glowyr dderbyn iawndal ac asesiad meddygol, mae'n bwysig iawn bod cyngor o ansawdd da ar gael iddynt ar fater budd-daliadau; eu hawl i dderbyn lwfans gweini cyson, er enghraifft. A fyddwch fel Prif Ysgrifennydd yn ceisio sicrhau bod yr Asiantaeth Budd-daliadau yn barod i ymateb?

The First Secretary: I will certainly take up that point, and Gwenda is quite right. We are talking about compensation and not something that can be put right. The suffering cannot be taken away. Despite all the legal obstacles, this Government has sought to speed things up and we will do all that we can to make sure that the spirit of wanting to do the best for ex-miners and their families is carried through, not just the letter of the law.

Y Prif Ysgrifennydd: Byddaf yn sicr o godi'r pwynt hwnnw, ac mae Gwenda yn llygad ei lle. Yr ydym yn sôn am iawndal ac nid am rywbeth y gellir ei gywiro. Ni ellir dad-wneud y dioddefaint. Er gwaethaf yr holl rwystrau cyfreithiol, mae'r Llywodraeth hon wedi ceisio cyflymu pethau ac fe wnawn bopeth yn ein gallu i sicrhau bod yr ysbryd o ddymuno gwneud y gorau dros gyn-lowyr a'u teuluoedd yn cael ei gyflawni, nid llythyren y ddeddf yn unig.

Y Llywydd: Diolch ichi i gyd am eich cydweithrediad wrth i ni gychwyn ar y tymor newydd. Dyna ddiwedd y sesiwn am heddiw.

The Presiding Officer: Thank you all for your co-operation as we start this new term. That is the end of the session for today.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.29 p.m.
The session ended at 5.29 p.m.*